

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**







Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Rhodfa'r Brenin Edward VII,
Caerdydd.
CF10 3NQ.

0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am–6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru Cedwir pob hawl.
Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon drwy dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff cyhoeddus sy'n gyfrifol am warchod a rheoli amgylchedd Cymru ac am weithredu fel cynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn darparu cyngor ac yn rhoi trwyddedau sy'n llywio datblygiadau ar hyd a lled Cymru, gan helpu i sicrhau eu bod yn cefnogi pobl, yr economi a'r amgylchedd.

Rydym hefyd yn rheoli tir a choedwigoedd ac yn arwain ar waith rheoli perygl llifogydd, gan weithio'n agos gydag eraill i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Mae ein huchelgais yn glir. Rydym am sicrhau cynnydd parhaol:

Cefnogi adferiad natur

Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Lleihau llygredd

Beiddgar • **Perthyn** • **Ystyriol** • **Dyfeisgar**

Ein hystadegau allweddol

Bob dydd, mae ein gwaith yn cefnogi pobl, lleoedd a byd natur ledled Cymru.

£1.7bn

£1.7 biliwn wedi'i sicrhau gan y diwydiant dŵr i gefnogi gwelliannau amgylcheddol

1 o bob 7

Un o bob saith eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd

98%

98% o ddyfroedd ymdrochi Cymru yn bodloni safonau amgylcheddol llym

10,504

Wedi ymateb i 10,504 adroddiad o ddigwyddiad amgylcheddol, yr achosodd 171 ohonynt effaith ddifrifol



90,000+

Tua 90,000 o eiddo wedi'u lleoli mewn ardaloedd sy'n elwa ar amddiffynfeydd rhag llifogydd

1255

Camau gorfodi wedi'u cymryd yn erbyn 619 o gwmnïau a 636 o unigolion, gan gynnwys 80 o achosion erlyn yn cwmpasu 112 o droseddau





12

Cylch gwaith sy'n ymestyn allan dros 12 milltir forol

870

Llwybr Arfordir Cymru sy'n ymestyn hyd at 870 milltir



404


Dros 404 km o afonydd wedi'u gwella ar draws Cymru

£43.5m

£43.5 miliwn wedi'i gynhyrchu drwy weithgarwch masnachol (gwerthu pren yn bennaf)

3,000

Bron i 3,000 o rywogaethau i'w cael mewn pum lleoliad neu lai ar draws Cymru, gyda thua hanner i'w cael mewn un lleoliad yn unig



400

Dros 400MW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'i osod ar ystâd Llywodraeth Cymru

1,083

76 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a 1,083 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar draws Cymru



7,859

Ymatebwyd i 7,859 o geisiadau cynllunio yn ystod 2025-26



3,000

Cynnal a chadw dros 3,000 o asedau rheoli perygl llifogydd

Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio i fod yn hawdd ei ddefnyddio, beth bynnag yr ydych yn chwilio amdano.

- Os ydych eisiau trosolwg cyflym, dechreuwch gyda chyflwyniadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a'r Trosolwg Perfformiad.
- Os ydych eisiau deall yr hyn rydym wedi'i gyflawni a'r gwahaniaeth rydym wedi'i wneud, ewch i'r Adroddiad Perfformiad.
- Os am wybodaeth am y ffordd rydym yn cael ein rhedeg a sut rydym yn rheoli arian cyhoeddus, ewch i'r gweler yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol.

Cyflwyniad

Ein hystadegau allweddol	4
Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr	6

1 Adroddiad ar Berfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniad a'n perfformiad, a'n sefyllfa diwedd y flwyddyn.

Rhagair y Cadeirydd	10
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr	12

2 Trosolwg Perfformiad

Crynodeb lefel uchel o sut y gwnaethom berfformio yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein Cynllun Busnes Blynyddol 2025–26.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	16
Asesiad Cyffredinol o Berfformiad	26

3 Dadansoddiad o Berfformiad

Golwg fanwl ar ein gwaith yn 2025–26, gan gynnwys dadansoddiad o sut y gwnaethom gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes Blynyddol, yn ogystal ag asesiad ehangach o'r hyn rydym wedi'i gyflawni.

Deall y Dadansoddiad o Berfformiad	32
Cefnogi adferiad natur	34
Meithrin y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd	46
Lleihau llygredd	58
Gwella sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl	76
Beth effeithiodd ar ein perfformiad yn 2025-26	88
Ein pobl	92
Trosolwg ariannol	94
Atodiad	96

4 Adroddiad Atebolrwydd 100

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol da.

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	104
Adroddiad Cyflogau a Staff	150
Adroddiad Seneddol ac Archwilio	178

5 Datganiadau Ariannol a Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer 2025-26 188

The financial statements for Natural Resources Wales, alongside supporting and explanatory notes.



1

Adroddiad ar Berfformiad

Mae'r adran hon yn cyflwyno adolygiad o'n gwaith yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniad a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026

Rhagair y Cadeirydd



Dechreuais yn fy rôl fel Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd 2025, ac rydw i wedi fy syfrdanu gan yr ymrwymiad, y proffesiynoldeb a'r pwrpas sydd i'w weld ar draws y sefydliad.

Dyma sefydliad sy'n deall ei rôl, sy'n glir ei bwrpas, ac sy'n barod i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Ledled CNC, rydw i wedi gweld cydweithwyr sy'n alluog, yn ymrwymedig ac yn benderfynol o gyflawni newid ystyrlon i Gymru.

Daw Llywodraeth newydd Cymru â disgwyliadau newydd o ran cyflymder, gweledded ac effaith. Mae hyn yn ei gwneud hi hyd yn oed yn bwysicach bod CNC yn glir ynglŷn â'i flaenoriaethau ac yn canolbwyntio ar gyflawni lle mae bwysicaf. Hoffwn hefyd gydnabod cefnogaeth a chydweithrediad Llywodraeth flaenorol Cymru, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Materion Gweledig ac Aelodau'r Chweched Senedd, sydd wedi helpu i lywio ein cyfeiriad a'n cynnydd presennol. Edrychaf ymlaen at ddatblygu'r sylfaen gadarn hon wrth i ni weithio gydag Aelodau'r Seithfed Senedd.

Mae maint yr her yn sylweddol. Mae Cymru yn wynebu pwysau amgylcheddol difrifol a chydgysylltiedig. Mae bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, mae risgiau hinsawdd yn cynyddu, ac mae'r pwysau ar ddŵr ac adnoddau naturiol yn dwysáu. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a gyhoeddwyd gennym eleni, yn gwneud hyn yn glir: mae'n galw am gamau gweithredu cydlynol, ar draws y system, nid newid cynyddrannol. Mae CNC yn cydnabod yr her honno, ac rydym yn ymateb.

Eleni, gwnaethom gyflawni. Gwnaethom gyflawni ar ein cyfrifoldebau rheoleiddio, gwnaethom amddiffyn cymunedau rhag perygl llifogydd, a gwnaethom weithio i adfer a gwarchod amgylchedd naturiol Cymru, gan roi'r cyngor clir, seiliedig ar dystiolaeth, sydd ei angen ar y llywodraeth a phartneriaid i wneud penderfyniadau gwybodus. Gwnaethom gymryd camau gorfodi lle bo angen ac ni wnaethom osgoi sgyrsiau anodd. Mae hynny'n rhoi hyder i mi.

Ond rwyf am fod yn onest ynglŷn â ble mae'n rhaid i ni fynd ymhellach.

Mae ansawdd dŵr yn un o'r problemau amgylcheddol pwysicaf sy'n wynebu Cymru heddiw. A hynny'n briodol, mae pobl yn disgwyl Afonydd glân ac arfordiroedd iach - ond nid yw'r disgwyliadau hynny'n cael eu cyflawni eto. Nid gwelliant cynyddrannol sydd ei angen nawr, ond newid sylweddol mewn perfformiad. Bydd CNC yn cryfhau ei ddull o fonitro, cydymffurfio a gorfodi, ac yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector dŵr i yrru gwelliannau ar y raddfa a'r cyflymder y mae cymunedau'n ei ddisgwyl ac yn ei haeddu.

Rydym hefyd yn mireinio sut rydym yn cyflawni. Mae CNC yn dod yn sefydliad sy'n canolbwyntio mwy ar le, gan gydnabod bod heriau chyfleoedd yn amrywio ledled Cymru. Drwy gydweithio'n agosach ar lefel leol, gallwn ddeall cymunedau'n well, gan dargedu ein hymdrechion a chyflawni mwy o effaith.

Yn yr un modd, rhaid i ni ddod yn sefydliad sy'n edrych allan yn fwy. Rwyf wedi fy nghalonogi gan gryfder y sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu, gyda bron i chwarter y staff yn rhugl a bron i draean yn gallu gweithio yn y Gymraeg. Rydw i hefyd wedi dechrau dysgu fy hun ac eisiau cefnogi defnydd ehangach o'r iaith yn ein gwaith o ddydd i ddydd. Ers ymuno, rydw i wedi ymweld â swyddfeydd ledled Cymru i gwrdd â chydweithwyr, gan glywed yn uniongyrchol am eu gwaith a deall yn well y cyd-destunau lleol rydym yn gweithredu ynddynt.

Dylai'r bobl a'r busnesau rydym yn eu gwasanaethu - ein cwsmeriaid - brofi CNC fel sefydliad clir, hygyrch ac effeithiol. Boed yn ffermwr sy'n chwilio am arweiniad, yn ddatblygwr sy'n llywio drwy reoliadau neu'n gymuned sy'n rheoli perygl llifogydd, rhaid i ni fod yn sefydliad sy'n hawdd gweithio gydag ef ac y gellir ymddiried ynddo i gyflawni.

A minnau'n Gadeirydd, fy rôl i yw sicrhau bod CNC yn barod ar gyfer hyn i gyd: gyda llywodraethu cryf, disgyblaeth ariannol, arweinyddiaeth uchelgeisiol a diwylliant sy'n dryloyw ac yn atebol. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr Ceri Davies i sicrhau bod yr eglurder cyfeiriad hwn i'w deimlo ar bob lefel yn y sefydliad.

Hoffwn gydnabod fy rhagflaenydd, Syr David Henshaw, am y sylfeini gafodd eu sefydlu ganddo, a diolch i'r Athro Steve Ormerod, Kath Palmer a Karen Balmer am eu gwasanaeth a'u hymroddiad i'r Bwrdd. Rwyf hefyd yn falch iawn o groesawu Mair Gwynant a Sarah Albon – bydd eu mewnwelediad a'u profiad yn cryfhau ein Bwrdd ymhellach.

Mae angen CNC hyderus ac uchelgeisiol ar Gymru. Rwy'n credu mai ni yw'r sefydliad hwnnw - ac mae'n Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfrif clir o'n perfformiad, y cynnydd rydym wedi'i wneud, a maint yr her sydd o'n blaenau.

Neil Sachdev

Cadeirydd CNC

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr



Dyma flwyddyn lle mae maint yr her sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru wedi dod yn gliriach fyth - ac un lle mae CNC wedi dangos ei fod yn barod i wynebu'r her honno'n uniongyrchol.

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025, ein hasesiad cenedlaethol o gyflwr adnoddau naturiol Cymru, yn nodi'r realiti. Mae newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd yn rhoi pwysau cynyddol ar y systemau naturiol rydym i gyd yn dibynnu arnynt. Rydym eisoes yn gweld yr effeithiau: perygl llifogydd cynyddol, ansawdd dŵr yn dirywio, galw cystadleuol am dir a straen cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Nid risgiau i'r dyfodol yw'r rhain - maent yma nawr, yn effeithio ar gymunedau, busnesau a bywoliaethau ledled Cymru.

Mae ein hymateb yn glir. Rydym yn canolbwyntio ar ac yn blaenoriaethu'r hyn sydd bwysicaf, ac rydym yn cynyddu'r ddarpariaeth. Fel sydd wedi'i nodi yn ein Cynllun Corfforaethol: Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, mae newid parhaol yn dibynnu ar weithredu ar y cyd. Mae CNC yn chwarae rhan flaenllaw, gan weithio gyda'r llywodraeth, y diwydiant a phartneriaid i droi uchelgais yn ganlyniadau ymarferol.

Rydym yn gwneud hyn mewn amgylchedd cyflym a heriol, gyda disgwyliadau uwch o ran cyflymder, tryloywder ac effaith. Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein gwaith ei lywio gan nifer o ddatblygiadau arwyddocaol - gan gynnwys deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sydd ar y gweill ar fioamrywiaeth a llywodraethu amgylcheddol, pryder cyhoeddus parhaus ynglŷn ag ansawdd dŵr, a chanfyddiadau Adolygiad Cunliffe, a amlygodd yr angen am ddiwygio ym maes rheoleiddio a goruchwylio dŵr. Ochr yn ochr â hyn, mae'r galw cynyddol am seilwaith, gan gynnwys datblygiadau ynni niwclear ac ynni ehangach, a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ail-lunio'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo. Rydym wedi ymateb drwy barhau i ganolbwyntio, bod yn glir ynghylch blaenoriaethau a bwrw ymlaen â chyflawni.

Ac rydym wir yn cyflawni.

Roedd 2025-26 yn flwyddyn y teimlwyd effeithiau'r newid hinsawdd yn uniongyrchol. Gwnaethom ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys sychder, tanau gwyllt a llifogydd difrifol. Gwnaethom adfer mawndiroedd ar safleoedd blaenoriaeth a gweithio gyda rheolwyr tir ledled Cymru; gwnaethom wella ein gwasanaethau morol a chyflawni'r rhan fwyaf o'r gwelliannau blaenoriaeth, gan gynnwys lansio system drwyddedu forol ddigidol newydd i wella cyflymder a thryloywder. Gwnaethom hefyd gynnal perfformiad gweithredol cryf, gan ymateb i 95% o ddigwyddiadau blaenoriaeth uchel o fewn pedair awr.

Yr un mor bwysig, rydym wedi cryfhau'r sefydliad y tu ôl i'r ddarpariaeth honno. Fe wnaeth cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ein galluogi i gyflymu camau gweithredu mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys ansawdd dŵr, adfer byd natur, perygl llifogydd a thystiolaeth.

Rydym wedi recriwtio talent newydd, a'u cefnogi i gyfrannu'n gyflym, ac wedi cymryd camau i feithrin mwy o wydnwch ariannol drwy gyfrwng model gweithlu mwy hyblyg. Rydym wedi symleiddio prosesau rheoleiddio, buddsoddi mewn meysydd digidol a gallu data, a chryfhau'r ffordd rydym yn rheoli perfformiad a risg. Mae'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn - darpariaeth gyflymach, penderfyniadau gwell a gwasanaeth mwy effeithiol i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym hefyd yn glir ynghylch ble mae angen gwneud mwy. Mae'r galw am ein gwasanaethau'n parhau i dyfu, ac mae maint y newid amgylcheddol - yn enwedig o ran adfer byd natur ac ansawdd dŵr - yn mynd y tu hwnt i unrhyw un sefydliad unigol. Mae pwysau o ran capasiti, bylchau data a chymhlethdod systemau yn parhau o hyd. Rydym yn mynd i'r afael â'r rhain yn uniongyrchol drwy flaenoriaethu clir, buddsoddi mewn sgiliau a systemau, a gweithio'n agosach gyda phartneriaid.

Mae gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid hefyd yn ganolog i'n dull gweithredu. Dylai'r bobl a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw brofi CNC yn sefydliad clir, ymatebol a hawdd ymgysylltu ag ef. Mae hyn yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth a chyflawni canlyniadau gwell.

Rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni eleni - nid yn unig o ran yr hyn rydym wedi'i gyflwyno, ond yn y ffordd rydym yn cryfhau'r sefydliad ar gyfer y dyfodol. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwydnwch cydweithwyr ar draws y sefydliad. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu hymroddiad parhaus yn ystod blwyddyn heriol. Hoffwn hefyd gydnabod Gareth O'Shea, a wnaeth ymddeol eleni fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ar ôl gyrfa o 42 o flynyddoedd gyda CNC a'r cyrff blaenorol.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2026-27, rydym yn barod i weithio'n agos gyda'r Senedd a'r Llywodraeth newydd, gan gefnogi eu blaenoriaethau a'u disgwyliadau. Rydym yn gwybod bod yr heriau'n sylweddol a bod y disgwyliadau'n uchel. Ond rydym yn glir ynglŷn â'n rôl, yn hyderus yn ein cyfeiriad, ac yn benderfynol o gyflawni'r canlyniadau y mae eu hangen ar bobl a byd natur.

Mae'r perfformiad a nodir ar y tudalennau canlynol yn rhoi cyfrif manwl o'r cynnydd a wnaethom eleni, effaith ein gwaith ledled Cymru, a'r heriau y mae'n rhaid i ni barhau i fynd i'r afael â nhw wrth i ni gyflawni ar gyfer pobl a byd natur.

Ceri Davies

Prif Weithredwr CNC



2

Trosolwg o Berfformiad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o sut gwnaethom berfformio yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2025-26.

Ceir dadansoddiad mwy manwl ar gyfer pob amcan llesiant, gan gynnwys astudiaethau achos, yn yr adran Dadansoddiad o Berfformiad.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Pwy ydym ni

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorff cyhoeddus sy'n gyfrifol am warchod a rheoli amgylchedd Cymru ac am weithredu fel cynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn darparu cyngor ac yn cyhoeddi trwyddedau sy'n llywio datblygiadau ar hyd a lled Cymru, gan helpu i sicrhau eu bod yn cefnogi pobl, yr economi a'r amgylchedd.

Rydym hefyd yn rheoli tir a choedwigoedd ac yn arwain ar waith rheoli perygl llifogydd, gan weithio'n agos gydag eraill i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Mae ein huchelgais yn glir. Rydym am sicrhau cynnydd parhaol drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi adferiad natur
- Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
- Lleihau llygredd



Sut rydym yn gweithio

Mae ein gwaith wedi'i drefnu ar draws chwe rhanbarth yng Nghymru, ochr yn ochr â'n Hardal Forol. Mae gan bob Lle ei dîm arweinyddiaeth ei hun a'i flaenoriaethau lleol ei hun, gan sicrhau bod ein timau yn deall anghenion lleol a'u bod wedi ymrwymo i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cyfuno gwybodaeth leol gadarn â phersbectif cenedlaethol, gan droi mewnwelediad yn weithredu ymarferol a chyngor dibynadwy. Gan weithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau, rydym yn diogelu ac yn gwella adnoddau naturiol Cymru - o gefnogi adfer byd natur i alluogi economi fodern, carbon isel.

Drwy gyfuno presenoldeb ar lawr gwlad, canllawiau strategol a rôl reoleiddio, rydym yn helpu i wella arferion yn lleol ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau a safonau yn genedlaethol.



Yr hyn a wnawn: mwy na chredwch

O goetiroedd hynafol i ganol trefi prysur, ac o gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd i arfordiroedd prysur, mae ein gwaith yn ymestyn i bob cwr o Gymru - gan ddod â gwarchodaeth amgylcheddol yn fyw mewn ffyrdd ymarferol a chadarn.

Dyma gipolwg ar sut mae hynny'n digwydd yn ymarferol:


- Dylanwadu ar benderfyniadau pwysig drwy ddarparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru, busnesau a chymunedau, gan helpu i ddiogelu pobl a byd natur.
- Cadw golwg fanwl ar weithgarwch diwydiannol drwy reoleiddio diwydiant, gwastraff, coedwigaeth a'r amgylchedd morol, gyda thrwyddedau'n sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cyflawni'n ddiogel, yn gyfrifol ac yn gynaliadwy.
- Gofalu am leoedd arbennig drwy ddynodi tirweddau eiconig megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Tirweddau Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol, a helpu i lywio eu dyfodol drwy gynlluniau rheoli.
- Ar reng flaen argyfyngau drwy ymateb yn gyflym i lifogydd, llygredd a digwyddiadau eraill ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys, er mwyn diogelu cymunedau pan fo'r angen mwyaf.
- Llunio datblygiadau'r dyfodol drwy adolygu ceisiadau cynllunio i helpu i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyflawni'n gywir, gan gydbwyso twf gyda gwarchodaeth amgylcheddol gadarn.
- Rheoli tir er budd pawb drwy ofalu am tua 7% o dir Cymru, gan gynnwys coedwigoedd, amddiffynfeydd llifogydd a safleoedd ymwelwyr, gan gydbwyso mynediad, cadwraeth a defnydd economaidd.
- Gweithio gydag eraill i greu partneriaethau ac ysbrydoli cymunedau i ddeall, mwynhau a gofalu am y byd naturiol.
- O fonitro'r amgylchedd, i ddadansoddi samplau neu gynnal ymchwil, rydym yn darparu'r dystiolaeth a'r wybodaeth sy'n helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer Cymru.

Allwedd

Y coedwigoedd rydym yn eu rheoli ar ran Llywodraeth Cymru (a elwir yn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru)

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol - 76 o safleoedd natur dynodedig sy'n diogelu rhai o gynefinoedd a rhywogaethau pwysicaf Cymru ac sy'n cael eu rheoli'n weithredol ar gyfer adfer natur.

Prif Swyddfa CNC



Y geiriau a’r termau rydym yn eu defnyddio

Beth yw ein hamcanion llesiant?

Mae CNC yn bodoli i ofalu am amgylchedd naturiol Cymru - i bobl heddiw ac i genedlaethau’r dyfodol. Rydym wedi gosod canlyniadau hirdymor i ddangos y gwahaniaeth rydym am ei wneud i lesiant Cymru. Dyma ein hamcanion - y cyfeirir atynt fel ein hamcanion llesiant. Maent yn egluro beth rydym yn gweithio tuag ato a pham mae’n bwysig.

Gyda’i gilydd, maent yn arwain ein holl waith ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf. Mae’r Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i fod ac amcanion llesian perthnasol ar waith, ond i ni maent yn fwy na geiriau ar bapur.

Maent yn adlewyrchu’r hyn rydym yn ei gredu: bod gofalu am fyd natur a gwella bywydau pobl yn mynd law yn llaw.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddatblygu amcan llesiant newydd sy’n canolbwyntio ar y ffordd rydym yn gweithio dros natur a phobl. Ei nod yw creu sefydliad y mae cydweithwyr, cwsmeriaid a phartneriaid yn ymddiried ynddo, sy’n gwneud penderfyniadau amserol ar sail tystiolaeth, sy’n cydweithio’n effeithiol, ac sy’n barod ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir i’r gwelliannau rydym am eu gwneud o ran gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau a chydweithio. Rydym bellach yn datblygu sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd ar ein cynnydd.

Cefnogi adferiad natur

Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Lleihau llygredd

Ein pum ffordd o weithio

Mae’r Deddff Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn nodi sut y dylem weithio – y pum ffordd o weithio:

1. **Hirdymor** – meddwl i’r dyfodol
2. **Atal** – gweithredu’n gynnar i atal problemau rhag gwaethygu
3. **Integreiddio** – deall sut mae ein gwaith yn effeithio ar lesiant ehangach
4. **Cydweithio** – gweithio gydag eraill
5. **Cynnwys** – gwrando ar bobl a chymunedau ac ymgysylltu â nhw

Sut rydym yn rheoli adnoddau naturiol

Rydym hefyd yn dilyn dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR), yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn syml, mae hyn yn golygu:

- Rheoli tir, dŵr a bywyd gwyllt fel bod byd natur yn aros yn iach
- Defnyddio tystiolaeth a dysgu wrth weithio
- Cymryd camau gweithredu ar y raddfa gywir – o raddfa leol i raddfa genedlaethol
- Cefnogi pobl, cymunedau a’r economi nawr ac yn y dyfodol

Mae’r dull hwn yn cydnabod bod popeth ym myd natur yn gysylltiedig â’i gilydd – a bod y dewisiadau a wnawn heddiw yn llunio’r dyfodol.

Gyda’i gilydd, mae ein pobl, ein ffyrdd o weithio a’r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn arwain popeth a wnawn – gan ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant a manteision parhaol i fyd natur, pobl a chymunedau ledled Cymru.



Maint yr her sy'n wynebu Cymru

Mae amgylchedd naturiol Cymru dan bwysau cynyddol.

Mae newid hinsawdd, llygredd, colli cynefinoedd a'r ffordd rydym yn defnyddio tir a dŵr i gyd yn effeithio ar ein hafonydd, ein bywyd gwyllt a'n tirweddau.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025 yw archwiliad swyddogol Cymru i iechyd ein hamgylchedd. Mae'n dwyn ynghyd y dystiolaeth ddiweddaraf i ddangos beth sy'n newid, pam mae'n bwysig, a ble mae angen gweithredu fwyaf.

Drwy gydol yr Adroddiad Blynyddol hwn, fe welwch **rybuddion SoNaRR.** Mae'r rhain yn tynnu sylw at y signalau pwysicaf o'r dystiolaeth honno – dangosyddion clir a syml o'r pwysau sy'n wynebu byd natur.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Un rhywogaeth o bob pump mewn perygl o ddiflannu
- Dim ond tua 40% o afonydd, llynnoedd a dyfroedd yr arfordir sydd mewn cyflwr da
- Y rhan fwyaf o gynefinoedd mewn cyflwr gwael
- Perygl llifogydd a risgiau hinsawdd yn cynyddu
- Pwysau cynyddol ar adnoddau dŵr

Mae'r rhybuddion hyn yn rhoi trosolwg o faint a brys yr her. Nid materion ynysig mohonynt - maent yn gydgysylltiedig ac yn effeithio ar Gymru gyfan.

Pam mae'r rhybuddion hyn yn bwysig

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith rydym yn ei gyflawni. Mae'r **rhybuddion SoNaRR** yn rhoi'r cyd-destun – gan gysylltu'r gwaith hwnnw â'r darlun cenedlaethol ehangach.

Drwy eu gosod ochr yn ochr â'n cyflawniad, rydym yn dangos y ddwy ochr yn glir: ble mae cynnydd yn digwydd, a ble mae heriau'n parhau i fod.

Ymateb cydgysylltiedig

Mae SoNaRR 2025 yn glir: mae'r heriau hyn sy'n wyneby Cymru yn gydgysylltiedig, felly rhaid i'r ymateb fod yn gydgysylltiedig hefyd. Mae'n gofyn i sefydliadau, sectorau a chymunedau gydweithio, dan arweiniad tystiolaeth gadarn.

Mae Cymru mewn sefyllfa dyngedfennol. Mae'r dystiolaeth yn glir.

Y dasg nawr yw troi'r cynnydd hwnnw'n newid parhaol, gyda chamau gweithredu gan bob sector, sefydliad a chymuned ledled Cymru ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol.

Deall yr Adroddiad o Berfformiad

Yn y tudalennau sy'n dilyn, mae'r Crynodeb Perfformiad hwn yn darparu trosolwg cryno o'n perfformiad yn ystod 2025-26. Yna, yn yr adran Dadansoddiad Perfformiad sy'n dilyn, rydym yn rhoi manylion pellach am ein perfformiad.

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar y modd y gwnaethom gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2025-26. Mae'r adran Dadansoddiad Perfformiad wedyn yn cyflwyno asesiad ehangach a mwy cynhwysfawr o'n perfformiad, gan ddarparu mwy o fanylion am ein cyflawniadau a'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Bariau perfformiad

Rydym yn defnyddio bariau perfformiad i ddangos cyflawniad yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26.

Mae pob sgwâr yn cynrychioli un ymrwymiad:

- **Gwyrdd** – wedi'i gyflawni
- **Oren** – wedi'i gyflawni'n rhannol
- **Coch** – heb ei gyflawni

Mae bar gwyrdd yn bennaf yn dangos lle mae ymrwymiadau wedi'u cyflawni. Mae mwy o oren neu goch yn dangos lle mae cynnydd rhannol wedi bod neu lle nad ydym wedi cyrraedd y nod.

Esiampl



Wedi'i gyflawni: 5 ymrwymiad
Wedi'i gyflawni'n rhannol: 3 ymrwymiad
Heb ei gyflawni: 1 ymrwymiad

Dehongli perfformiad

Mae ein hymrwymiadau blynyddol yn nodi'r hyn roeddem yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Maent yn dangos ein cynnydd, ond dim ond rhan o'r darlun sydd i'w weld yma.

Nid ydynt yn rhoi cyfrif o gyflwr cyffredinol yr amgylchedd nac effaith lawn ein gwaith, gan fod newid yn cymryd amser ac yn dibynnu ar lawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth CNC.

Mae'r asesiad perfformiad a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar adroddiadau ar yr ymrwymiadau a geir yn ein Cynllun Busnes Blynyddol, a gyflwynir i'r Bwrdd bob chwarter drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn craffu ar y modd y caiff yr ymrwymiadau yn y cynllun eu cyflawni ac yn monitro'r cynnydd a wneir yn eu herbyn.

Tuedd perfformiad fesul blwyddyn

Cryfhaodd ein perfformiad cyffredinol yn 2025-26, gyda chyfran uwch o ymrwymiadau wedi'u sgorio'n wyrdd a llai o oren nag yn 2024- 25 (sy'n adlewyrchu set wahanol o ymrwymiadau bob blwyddyn). Er bod nifer fach o feysydd wedi gorffen y flwyddyn gyda statws coch neu ambr, gwellodd y cyflawniad cyffredinol, er bod pwysau newydd sy'n dod i'r amlwg yn golygu y bydd angen parhau i ganolbwyntio ar rai meysydd.



Asesiad Cyffredinol o Berfformiad

Rydym wedi gwneud cynnydd cryf o ran cyflawni ein Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2025-26, gyda chynnydd o ran yr holl ymrwymiadau. Mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth go iawn - yn gwella cynefinoedd, yn amddiffyn cymunedau, yn lleihau niwed amgylcheddol ac yn cryfhau prosesau rheoleiddio.

Rydym hefyd wedi cryfhau'r ffordd rydym yn gweithio. Mae tystiolaeth well, cynllunio cryfach a systemau newydd yn ein helpu i dargedu ein hymdrechion yn fwy effeithiol a byddant yn cefnogi cyflawniad yn y blynyddoedd i ddod.

Fodd bynnag, mae maint a brys yr argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd yn mynd y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael i ni. Ni all CNC gyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen ar ei ben ei hun. Mae llawer o'r canlyniadau rydym yn gweithio arnyn nhw'n dibynnu ar gamau gweithredu gan eraill ledled Cymru.

Rydym yn ymateb drwy newid sut rydym yn gweithredu. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agosach gyda phartneriaid, canolbwyntio ar y risgiau mwyaf a galluogi eraill i gyflawni ochr yn ochr â ni. Mae'r dull hwn i'w weld yn ein hamcan llesiant newydd: Sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl. Er bod rhai o'r dulliau hyn eisoes i'w gweld yn adroddiad eleni, byddwn yn adrodd ar yr amcan hwn yn fanylach yn 2026-27.

Mae'r cynnydd hwn wedi'i wneud mewn blwyddyn heriol. Mae recriwtio a hyfforddi wedi rhoi pwysau ar dimau, tra bod y galw am ein gwasanaethau yn parhau i fod yn uchel. Ar yr un pryd, rydym yn buddsoddi mewn systemau digidol, data a thystiolaeth i gefnogi darpariaeth yn y dyfodol, a bydd yn cymryd amser i weld y manteision llawn.

Ar y cyfan, rydym wedi cyflawni'n dda, wedi parhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau ac wedi cryfhau ein sylfeini ar gyfer y dyfodol. Er mwyn mynd ymhellach ac yn gyflymach, byddwn yn parhau i weithio gydag eraill a datblygu dulliau newydd fydd yn cyd-fynd â maint yr heriau sy'n ein wynebu.

Rhybudd SoNaRR!

Er gwaethaf ein camau gweithredu, mae angen i Gymru wneud mwy.

- Mae bioamrywiaeth yng Nghymru yn parhau i ddirywio, gyda llawer o rywogaethau a chynefinoedd mewn cyflwr gwael
- Mae pwysau o ganlyniad i ddefnydd tir, newid hinsawdd a llygredd yn parhau i fod yn eang
- Bydd adfer hirdymor yn gofyn am weithredu parhaus, ar raddfa system gyfan

Crynodeb o berfformiad mewn perthynas â'n hamcanion llesiant

1 Cefnogi adferiad natur

Amcan llesiant 1: byd natur wrthi'n gwella

Crynodeb

Gwnaethom gynnydd da eleni, gan gryfhau gwarchodaeth ar gyfer byd natur a chynnwys pobl ledled Cymru. Bydd adfer hirdymor yn dibynnu ar weithredu ehangach y tu hwnt i CNC.

Tystiolaeth allweddol

- Wedi ymgysylltu â 45,000+ o bobl drwy'r rhaglen Natur am Byth hyd yn hyn
- Gwaith wedi'i gyflawni ar draws 100 o safleoedd gwarchodedig
- Cynlluniau ar gyfer safleoedd gwarchodedig wedi'u diweddaru a chanllawiau newydd wedi'u datblygu
- Wedi cefnogi penderfyniadau cenedlaethol ar dirweddau, gan gynnwys proses Parc Cenedlaethol Glyndŵr

Pam mae hyn yn bwysig

Mae mwy o bobl yn ymwneud â gwarchod byd natur, ac mae sylfeini cryfach ar waith ar gyfer adfer hirdymor.

Asesiad Cyffredinol o Berfformiad

2 Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Amcan llesiant 2: Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinswdd



Crynodeb

Gwnaethom gynnydd da eleni, gan gryfhau gwarchodaeth ar gyfer byd natur a chynnwys pobl ledled Cymru. Bydd adfer hirdymor yn dibynnu ar weithredu ehangach y tu hwnt i CNC.

Tystiolaeth allweddol

- 90,000+ eiddo wedi'u gwarchod gan amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan CNC
- 1,000+ eiddo ychwanegol wedi elwa ar gynlluniau newydd
- Wedi ennill statws arian sefydliad sy'n llythrennog o ran carbon
- Wedi datblygu canllawiau ac offer digidol i gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio mewn diwydiant

Pam mae hyn yn bwysig

Mae cymunedau'n cael eu diogelu'n well ac yn fwy gwydn o ran perygl llifogydd a risgiau hinsawdd.

3 Lleihau llygredd

Amcan llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf



Crynodeb

Gwnaethom gynnydd clir wrth wella ansawdd dŵr a chryfhau prosesau rheoleiddio, gyda chamau gweithredu wedi'u targedu fwy a phenderfyniadau cyflymach.

Tystiolaeth allweddol

- 507 o ffermydd wedi'u harolygu – ddim yn cyrraedd ein hymrwymiad yn gyfan gwbl
- 404km o afonydd wedi'u gwella
- 157 o ymchwiliadau i fethiannau ansawdd dŵr
- 95%+ o benderfyniadau gorfodi wedi'u gwneud o fewn 3 mis
- Blaenoriaethu digwyddiadau risg uchel
- Cryfhau partneriaethau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a thipio anghyfreithlon

Pam mae hyn yn bwysig

Mae camau gweithredu wedi'u targedu yn gwella ansawdd yr amgylchedd ac yn helpu i atal difrod pellach.



3

Dadansoddiad o berfformiad

Mae'r adran hon yn rhoi golwg fanwl ar ein gwaith yn ystod 2025–26, gan gynnwys dadansoddiad o'r modd y gwnaethom gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes Blynyddol, yn ogystal ag asesiad ehangach o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026

Deall y Dadansoddiad o Berfformiad

Perfformiad yn 2025-26

Mae'r adran hon yn rhoi darlun cyfannol o'n perfformiad yn ystod 2025–26, gan edrych y tu hwnt i'r modd y gwnaethom gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes Blynyddol ac asesu ein cyflawniadau ehangach yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cynllun Busnes Blynyddol yn nodi'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau rydym yn bwriadu eu cyflawni bob blwyddyn, i gyd-fynd â'n hamcanion llesiant hirdymor. Er ei fod yn darparu fframwaith clir ar gyfer ein gwaith, dim ond rhan o'r hyn a wnawn bob blwyddyn y mae'n ei gynrychioli.

Mae ein rôl yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, partneriaethau a gwasanaethau, y mae llawer ohonynt yn datblygu dros gyfnodau hirach.

I adlewyrchu hyn, rydym yn defnyddio sail dystiolaeth ehangach ac yn cyflwyno manylion pellach drwy'r astudiaethau achos sy'n dilyn, gan ddangos ehangder llawn ein perfformiad a'n heffaith.

Rydym yn asesu perfformiad drwy edrych ar gyflawniad yn erbyn ymrwymiadau, wedi'i gefnogi gan ddata, tystiolaeth a sgorau Coch-Oren-Gwyrdd (RAG), ac yn cymharu hyn â'r flwyddyn flaenorol i ddangos sut mae pethau'n newid dros amser.

Mae'r ymrwymiadau unigol yn y Cynllun Busnes Blynyddol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, er bod y bariau perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn yn galluogi cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, nid yw'r cymariaethau hyn o reidrwydd yn cymharu ymrwymiadau tebyg â'i gilydd.


Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gynnwys cymariaethau blwyddyn ar ôl blwyddyn o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Busnes Blynyddol. Ein Hadroddiad Blynyddol 2024–25 oedd y tro cyntaf inni adrodd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol hyd at 2030.

Ar y tudalennau dilynol, mae lliwiau Coch-Ambr-Gwyrdd yn dangos sut mae pob ymrwymiad yn mynd rhagddo. Mae'r teitlau wedi'u byrhau er eglurder, gyda manylion llawn a diweddariadau chwarterol yn yr Atodiad.

Bariau perfformiad

Mae'r bariau perfformiad hyn yn dangos cynnydd yr ymrwymiadau yn y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer pob amcan llesiant. Mae'r bar uchaf yn dangos perfformiad yn 2025-26, tra bod y bar isaf yn dangos y sefyllfa yn 2024-25. Mae pob blwch yn cynrychioli un ymrwymiad, ac mae lliw'r sgôr RAG yn adlewyrchu ei statws ar ddiwedd y flwyddyn.

Esiampl:



Dangosfyrddau

Rydym hefyd wedi cynnwys dangosfyrddau sy'n dangos, ar gip, drwy ddefnyddio lliwiau RAG, sut rydym wedi perfformio yn erbyn pob ymrwymiad unigol yn y Cynllun Busnes Blynyddol. Ceir rhagor o fanylion, gan gynnwys yr ymrwymiadau llawn a'r modd y gwnaethom berfformio bob chwarter yn ystod y flwyddyn, yn Atodiad.

Yn dilyn y tabl, mae cyfres o astudiaethau achos yn darparu darlun ehangach o sut yr ydym wedi cyflawni yn erbyn pob amcan llesiant.

Nid yw cynnydd bob amser yn digwydd ar unwaith. Yn ogystal â sicrhau canlyniadau yn ystod y flwyddyn hon, mae llawer o'n gwaith wedi canolbwyntio ar adeiladu'r sylfeini ar gyfer newid tymor hwy – rhywbeth sy'n dod yn fyw drwy'r astudiaethau achos sy'n dilyn.



1 Cefnogi adferiad natur

Amcan llesiant 1: byd natur wrthi'n gwella

Mae adfer byd natur yn ymdrech hirdymor. Eleni, rydym wedi dechrau gweld cynnydd cynnar ond rydym yn dal i fod megis dechrau ar daith llawer hwy.

Mae ein profiad yn 2025–26 yn glir. Lle gallwn weithredu'n uniongyrchol, rydym yn gwneud enillion cyson. Mae gennym bellach well tystiolaeth a blaenoriaethau cliriach, sy'n ein helpu i ddeall beth sy'n digwydd ym myd natur - a ble i weithredu yn gyntaf.


Ond mae maint yr her yn glir. Rydym wedi gwella dros 100 o safleoedd gwarchodedig – ond mae dros 1,000 o safleoedd ledled Cymru, a llawer heb fod yn y cyflwr angenrheidiol. Bydd cyrraedd pob un yn cymryd amser ac ymdrech barhaus.

Mae newid mwy yn anoddach. Nid yw'r ffordd mae tir yn cael ei reoli, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a sut mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd yn newid dros nos. Dyna lle mae cynnydd yn arafach.

Rydym wedi gosod sylfeini cadarn. Mae cynlluniau ar waith ac mae ymwybyddiaeth yn tyfu – ond ni fydd cynlluniau ar eu pen eu hunain yn cyflawni newid.

Mae ein ffocws nawr yn syml: symud o gynllunio i weithredu, gwella mwy o safleoedd ar raddfa fawr, a gwneud yn siŵr bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn penderfyniadau go iawn bob dydd.

Rydym yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Nawr mae angen i ni gyflymu.



Yn 2025–26, rhoddwyd sgôr Werdd i saith ymrwymiad ar ddiwedd y flwyddyn, gyda dwy sgôr Oren a dim un sgôr Goch, o'i gymharu â chwech sgôr Werdd, un sgôr Oren ac un sgôr Goch yn 2024–25.

Mae hyn yn dangos gwell cyflawniad, gyda mwy o ymrwymiadau wedi'u cyflawni'n llawn. Mae nifer bach yn parhau i gael eu cyflawni'n rhannol, gan adlewyrchu gwaith parhaus a chyfyngiadau o ran capasiti.

Adolygu Rhwydweithiau Natur i arwain buddsoddiad yn y dyfodol

100+ o safleoedd tir gwarchodedig wedi'u gwella a 9 safle morol

Blaenoriaethu safleoedd i'w gwarchod i gefnogi 30x30



Gweithgarwch Natur am Byth

598ha wedi'i reoli ar gyfer adfer rhywogaethau

Rhannu gwybodaeth am gyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig



Defnyddio tystiolaeth i lunio Parciau Cenedlaethol a rheoli tir



Cefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy



Hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth hinsawdd, natur a llygredd, gan gynnwys SoNaRR2025



Profi ffyrdd newydd o weithio gyda byd natur ar ein tir a rhoi Mai Di Dor ar waith

Rheolaeth natur bositif ar draws mwy na **100,000m²**

Gyrru camau gweithredu er budd natur drwy gyflenwyr a chontractau



Astudiaeth achos

Natur am Byth – Cefnogi Adfer Rhywogaethau

Natur am Byth!
Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru
Saving Wales' threatened species


Mae miloedd o rywogaethau yng Nghymru yn wynebu perygl go iawn. Mae llawer yn goroesi mewn dim ond llond llaw o leoedd.

3,000
o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl

45,000+
o bobl ar draws mwy na 1,000 o leoliadau wedi ymgylltu â'r prosiect hyd yn hyn

67
Cefnogwyd gefnogi 67 o rywogaethau â blaenoriaeth

598
hectar yn gynefinoedd sy'n cael eu rheoli'n weithredol



Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ehangach yn pwysleisio maint yr her. Mae oddeutu **3,000 o rywogaethau** yng Nghymru mewn perygl. Mae rhai wedi'u cyfyngu i un safle yn unig, sy'n eu gwneud yn arbennig o agored i newid.



Mae Natur am Byth yn dod â phartneriaid at ei gilydd i ganolbwyntio ymdrechion cadwraeth lle mae ei angen fwyaf. Hyd yn hyn, mae **598 hectar** yn gynefinoedd sy'n cael eu rheoli'n weithredol, gan **gefnogi 67 o rywogaethau â blaenoriaeth**, gydag ymgysylltiad yn cyrraedd **dros 45,000 o bobl ar draws mwy na 1,000 o leoliadau.**


Mae'r rhaglen Natur am Byth yn dangos yr hyn y gall gweithredu wedi'i dargedu ei gyflawni, ond bydd angen ymdrech barhaus a chydgysylltiedig ledled Cymru, ar raddfa llawer mwy, i wrthdroi dirywiad hirdymor.

Astudiaeth achos

Cydbwyso datblygu a gwarchod yr amgylchedd

Mae ansawdd dŵr yng Nghymru dan bwysau gan faetholion gormodol, yn enwedig ffosfforws a nitrogen, sy'n niweidio afonydd, aberoedd a chynefinoedd morol. Mae hyn bellach yn cael effaith sylweddol ar rai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Dros flynyddoedd lawer, mae maetholion o amaethyddiaeth, dŵr gwastraff a datblygu wedi cronni yn yr amgylchedd. Mewn rhai dalgylchoedd, mae lefelau maetholion yn ddigon uchel i olygu bod angen gweithredu. Mewn rhai ardaloedd ledled Cymru, mae hyn wedi golygu oedi cynigion datblygu tra bod effeithiau'n cael eu deall yn iawn a mesurau lliniaru priodol wedi'u rhoi ar waith.



Mae ymateb i'r her hon yn creu heriau go iawn i gynghorau, datblygwyr a chymunedau.

Rydym yn cefnogi awdurdodau lleol i ymateb i'r her hon drwy ddarparu tystiolaeth glir, canllawiau a chanllawiau ymarferol. Mae'r rhain yn helpu'r sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall y gofynion a diogelu'r safleoedd sensitif hyn.

Un ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn yw drwy ddull a elwir yn niwtraliaeth maetholion. Yn syml, golyga hyn na ddylai datblygiadau newydd ychwanegu rhagor o lygredd at ardaloedd sydd eisoes dan bwysau. Er bod hyn yn ymddangos yn syml, gall fod yn anodd ei roi ar waith.

Y cam nesaf yw mabwysiadu dull mwy integredig drwy gynllun adfer maetholion dalgylch. Mae'r cynllun hwn yn annog cydweithio agosach â phobl a sefydliadau ledled y dalgylch cyfan, gan ddarparu ffordd glir a rheoledig o ddiogelu ac adfer amgylcheddau arbennig Cymru, tra hefyd yn cynnig llwybr cliriach i ddatblygiadau cynaliadwy symud ymlaen.

Astudiaeth achos

Paratoi at Newid drwy Bolisi Ffermio



Mae ffermio yn llunio'r rhan fwyaf o dir Cymru, sy'n ei wneud yn ganolog wrth adfer byd natur.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y Llywodraeth yn cael dylanwad ar sut mae tir yn cael ei reoli yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n gwaith paratoi ni wedi canolbwyntio ar dystiolaeth, arweiniad ymarferol a meithrin y gallu i gyflawni.

Rydym yn helpu i lywio agweddau amgylcheddol y cynllun, a byddwn yn gweithio gyda phob fferm sydd â thir mewn safleoedd dynodedig, megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n ymuno â'r cynllun, i ddatblygu Cynllun Rheoli Safle Dynodedig a chytuno ar Raglen Waith ymarferol gyda CNC erbyn 2030.

Mae'r cynllun yn dal i esblygu. Bydd ei effaith yn dibynnu ar ba mor eang y caiff ei fabwysiadu a sut caiff ei gyflwyno dros amser. Mae'n cynnig cyfle go iawn, ond dim ond yn sgil defnydd a chefnogaeth gyson y daw newid hirdymor.

“Mae'r cynllun yn dal i esblygu. Bydd ei effaith yn dibynnu ar ba mor eang y caiff ei fabwysiadu a sut caiff ei gyflwyno dros amser. Mae'n cynnig cyfle go iawn, ond dim ond yn sgil defnydd a chefnogaeth gyson y daw newid hirdymor.

Astudiaeth achos

Gwella safleoedd gwarchodedig ledled Cymru

Mae safleoedd gwarchodedig – ar y tir ac ar y môr – wrth wraidd adfer byd natur yng Nghymru. Maent yn gwarchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau mwyaf gwerthfawr, ond mae llawer ohonynt yn parhau i fod mewn cyflwr gwael, gyda rhai yn dal i ddirywio.

Mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn helpu i fynd i'r afael â hyn drwy gyfrwng camau gweithredu ymarferol ar lawr gwlad, ac rydym yn chwarae rhan ganolog wrth gynllunio, cydgysylltu a chyflawni gweithgarwch, ochr yn ochr â thirfeddianwyr a phartneriaid cadwraeth. Yn ystod y flwyddyn, bu gwaith ar **dros 100 o safleoedd gwarchodedig.**


Mewn rhai ardaloedd, mae gwell rheolaeth yn dechrau sefydlogi cynefinoedd a chefnogi adferiad.

Fodd bynnag, mae maint yr her yn parhau i fod yn sylweddol. Mae gan Gymru dros 1,000 o safleoedd gwarchodedig, ac mae llawer ohonynt mewn cyflwr anffafriol o hyd. Er bod camau gweithredu wedi'u targedu yn gwneud gwahaniaeth yn lleol, nid yw eto ar y raddfa angenrheidiol ac mae'n rhaid i fuddsoddiad hirdymor a newid systemaidd ehangach gyfateb i gynnydd ar safleoedd unigol.



Astudiaeth achos

Rheolaeth natur bositif: Mai Di Dor



Nid yw gwella'r canlyniadau i fyd natur bob amser yn gofyn am weithredu ar raddfa fawr. Gall newidiadau bach yn y ffordd mae tir yn cael ei reoli wneud gwahaniaeth mawr.

Ar draws tir sydd yn ein gofal, mae llai o dorri gwair yn helpu cynefinoedd i adfer. Mae caniatáu i laswellt a blodau gwyllt dyfu yn cefnogi peillwyr ac yn gwella bioamrywiaeth. Yn 2025–26, rhoddwyd y dull hwn ar waith ar draws 93% o dir a reolir gennym ni, lle bo hynny'n briodol, tra'n cynnal gwasanaethau hanfodol.

Mae'r camau syml hyn, sy'n isel o ran cost, yn arwain at fanteision clir. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni newid ar raddfa ledled Cymru, bydd angen i dirfeddianwyr a sectorau eraill fabwysiadu dulliau tebyg yn fwy eang.

o dir a reolir gennym ni yn defnyddio'r dull Mai Di Dor



Cefnogi adferiad natur

Straeon gan ein timau lleol

Dychweliad natur: Afon Ddawan, Bro Morgannwg

Mae llygod pengron y dŵr yn ffynnu ar hyd Afon Ddawan ym Mro Morgannwg. Ar ôl cyfnod o ddirywiad sylweddol, mae eu hadferiad yn dangos sut y gall gwaith adfer cynefinoedd a chadwraeth tymor hir wrthdroi colledion rhywogaethau ac adfer cydbwysedd i ecosystemau afonydd ledled De-ddwyrain Cymru.





Diogelu cynefinoedd sensitif: Ynys Môn

Mae parth gwahardd yn parhau mewn grym i ddiogelu bywyd gwyllt bregus mewn ardal natur pwysig ar Ynys Môn. Mae'r dull rhagofalus hwn yn galluogi rhywogaethau i fridio heb darfu arnynt, gan ddangos sut y gellir cydbwyso mynediad y cyhoedd â diogelu cynefinoedd sensitif.

Bydoedd cudd: Aberdaugleddau, Sir Benfro

Mae astudiaeth newydd yn nyfrffordd Aberdaugleddau wedi datgelu cynefinoedd gwely'r môr amrywiol ac unigryw. Mae'r canfyddiadau hyn yn helpu i lywio gwaith cadwraeth a rheolaeth, gan sicrhau bod ecosystemau morol Sir Benfro yn cael eu diogelu ochr yn ochr â gweithgarwch economaidd.



Dyfodiaid newydd: Coedwig Clocaenog, Sir Ddinbych

Mae nifer y gwiwerod coch yn cynyddu yng Nghoedwig Clocaenog drwy raglen ailgyflwyno sydd wedi'i rheoli'n ofalus. Mae'r prosiect hwn yn helpu i sicrhau dyfodol un o rywogaethau brodorol eiconig Cymru yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gyfrannu hefyd at ymdrechion cadwraeth ehangach.





Achub rhywogaeth frodorol: Powys, Canolbarth Cymru

Mae cimychiaid crafanc wen wedi cael eu rhyddhau i safleoedd lloches diogel ym Mhowys, gan helpu i ddiogelu'r rhywogaeth frodorol hon. Drwy sefydlu poblogaethau gwarchodedig oddi wrth rywogaethau goresgynnol a chlefydau, mae'r gwaith hwn yn rhan o ymdrech adfer ledled Cymru.

Agor afonydd: Llan-ffwyst, Sir Fynwy

Rhannwyd cynlluniau ar gyfer tramwyfa bysgod newydd o dan Bont Llan-ffwyst gyda'r gymuned leol, gan nodi cam pwysig tuag at adfer cysylltedd afonydd ger y Fenni. Bydd y cynllun yn helpu pysgod mudol i oresgyn rhwystrau, gan gefnogi ecosystemau iachach ac adlewyrchu ymgysylltiad cryf y gymuned â gwelliannau amgylcheddol.



Cefnogi adferiad natur

Edrych tuag at 2026–27

Yn 2026–27, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sylfeini hyn i gynyddu cyflawniad ar gyflymder a graddfa fwy. Mae hyn yn cynnwys datblygu dynodiadau safleoedd i gefnogi y fenter rhyngwladol o warchod 30% o dir a môr ar gyfer natur erbyn 2030.

O ystyried maint y dasg, bydd cynnydd yn dibynnu ar ymdrech barhaus, blaenoriaethu, a gweithio'n agosach gyda phartneriaid i ymestyn ein cyrhaeddiad cyfunol y tu hwnt i gyflawniad uniongyrchol CNC ei hun. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, byddwn yn cryfhau'r ffordd rydym yn asesu effaith gynnar a chanlyniadau hirdymor, ochr yn ochr â chyflawni gweithgarwch parhaus.

Rhybudd SoNaRR!

Er gwaethaf ein camau gweithredu, mae angen i Gymru wneud mwy.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym


- Mae 1 o bob 5 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu, gyda llawer ohonynt wedi'u cyfyngu i nifer fach o safleoedd.
- Mae cyflwr y rhan fwyaf o gynefinoedd yn wael, gan gynnwys safleoedd gwarchodedig.
- Mae'r pwysau sy'n deillio o'r defnydd o dir, newid hinsawdd a llygredd yn parhau i fod yn eang ac yn sylweddol.

Beth mae hyn yn ei olygu

Nid yw gwelliannau lleol eto'n ddigon i newid y duedd genedlaethol.

Heb newid sylweddol yn y ffordd y caiff ein tir a'n moroedd eu rheoli, bydd natur yn parhau i ddirywio, gyda goblygiadau cynyddol i gynhyrchu bwyd, ansawdd dŵr, gwytnwch i'r hinsawdd a llesiant.

Mae angen inni sicrhau gweithredu mwy cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd angen cyfraniad gan CNC, ynghyd ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws meysydd polisi, cyllido, rheoli tir a chynllunio, er mwyn sicrhau adferiad natur ar raddfa fawr.



2 Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Amcan Llesiant 2: Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru yw meithrin gwydnwch i'r newid yn yr hinsawdd. Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd go iawn – ehangu ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur, cefnogi ynni adnewyddadwy a helpu diwydiannau i leihau allyriadau, a hyn oll wedi'i gefnogi gan dystiolaeth gryfach a ffyrdd gwell o weithio.

Ond ar y cyfan, mae'r cynnydd yn dal yn rhy araf wrth i risgiau oherwydd llifogydd, newid arfordirol a thywydd eithafol barhau i gynyddu. Er bod cynlluniau'n gwella, mae angen mwy o weithredu nawr i leihau'r risgiau hyn.

Lle rydym eisoes wedi gweithredu, mae'n gwneud gwahaniaeth. Mae amddiffyn rhag llifogydd, gwell systemau rhybuddio a buddsoddiad wedi'i dargedu yn helpu cymunedau i fod yn fwy diogel ac i baratoi yn well.

Fodd bynnag, mae newid mwy yn fwy cymhleth. Mae rheoli risgiau hinsawdd yn dibynnu ar gynllunio hirdymor, buddsoddiad a gweithredu ar y cyd ar draws sectorau. Ein ffocws nawr yw cyflymu ein cyflawniad - amddiffyn mwy o gymunedau, uwch-gyfeirio datrysiadau a sicrhau bod risgiau hinsawdd yn cael eu hystyried yn llawn mewn penderfyniadau ar ddefnydd a datblygiad tir.

Mae gwydnwch yn gwella, ond mae angen i ni, a'n partneriaid, fynd ymhellach ac yn gyflymach i fod ar y blaen i'r risgiau cynyddol.

2025-26



2024-25



Yn 2025–26, cafodd saith ymrwymiad sgôr werdd ar ddiwedd y flwyddyn, gyda thri yn cael sgôr ambr a dim un yn cael sgôr goch. Mae hyn yn cymharu â thair sgôr werdd a chwe sgôr ambr yn 2024–25.

Mae hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol o ran cyflawni, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr ymrwymiadau a gyflawnwyd yn llawn a dim un wedi'i fethu. Mae'r gostyngiad yn nifer y sgorau ambr yn adlewyrchu perfformiad cryfach a chynnydd ar draws meysydd allweddol o'n gwaith.

Meithrin capasiti a thystiolaeth ar gyfer adfer mawndiroedd

Rhagorwyd ar y targed o adfer **600ha**

Cryfhau'r gallu a'r dystiolaeth i dargedu adfer morol ac arfordirol yn well



Gweithredu dull dalgylch integredig yn afon Taf i gefnogi cymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd



Cyflawni prosiectau llifogydd a chynnal lefelau amddiffyn eiddo

Cynlluniau yn Aberteifi, Pwllheli, Porthmadog a Dinbych-y-pysgod


Gwella systemau rhybudd llifogydd a thelemetreg ar gyfer effeithlonrwydd a pharhad

48,800 o adeiladau wedi cofrestru i gael rhybudd llifogydd

Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ar asedau llifogydd yn cael ei flaenoriaethu ar sail risg



Datblygu canllawiau carbon isel i wella ansawdd ceisiadau a chyflymu'r broses trwyddedu



Gwella cyngor cyn-ymgeisio a thystiolaeth i wella ceisiadau ynni adnewyddadwy



Blaenoriaethu ein camau gweithredu sy'n cael yr effaith fwyaf ar leihau nwyon tŷ gwydr


Achrediad arian wedi'i ennill ar gyfer llythrennedd hinsawdd

Rhoi ein cynllun sero net ar waith



Astudiaeth achos

Adfer mawndiroedd ar raddfa fawr yng Nghymru



> “Mae adfer mawndiroedd ar raddfa fawr yn arwain at ganlyniadau – ac mae’n dangos sut gall datrysiadau sy’n seiliedig ar natur weithio ar raddfa fawr.

600+
hectar o fawndiroedd wedi’u hadfer

£3.8m
o fuddsoddiad yn cefnogi’r Rhaglen Weithredu Genedlaethol

Dim ond 4% o Gymru sydd wedi’i orchuddio gan fawndiroedd, ond maent yn chwarae rhan hanfodol wrth storio carbon, cefnogi bioamrywiaeth a rheoli dŵr.

Mae llawer wedi’u difrodi ac yn rhyddhau carbon yn hytrach na’i storio.

Mae ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn gwneud gwaith adfer ar raddfa fwy.

Bellach yn ei chweched blwyddyn, aethom heibio’r targed o adfer **600 hectar**, gyda chefnogaeth buddsoddiad o **£3.8 miliwn** gan Lywodraeth Cymru.

Mae adferiad eisoes yn weladwy, gyda chynefinoedd yn gwella a rhywogaethau yn dychwelyd.Mae adfer mawndiroedd yn ddatrysiad pwysig sy’n seiliedig ar natur – bydd yn lleihau allyriadau, yn gwella ansawdd dŵr ac yn cryfhau gwydnwch o ran yr hinsawdd. Bydd buddsoddiad parhaus ac ymdrech hirdymor yn hanfodol er mwyn ehangu ar y gwaith hwn.

Astudiaeth achos

HyNet: Cefnogi dyfodol glanach i ddiwydiant



Mae lleihau allyriadau diwydiant yn un o'r heriau mwyaf cymhleth wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd – a rhaid gwneud hynny heb beryglu ein hamgylchedd naturiol.

Mae HyNet yn brosiect seilwaith mawr sydd wedi'i gynllunio i ddal carbon deuocsid o safleoedd diwydiannol a'i storio'n ddiogel o dan Fae Lerpwl. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad hydrogen carbon isel.

Ein rôl ni yw sicrhau bod hyn yn cael eu cynllunio a'u cyflawni mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau a phobl Cymru. I wneud hynny, rydym yn darparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn asesu risgiau amgylcheddol ac yn rheoleiddio gweithgareddau er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy.

Mae HyNet yn dwyn ynghyd sawl safle, gan gynnwys Padeswood, Cei Connah a Pharc Adfer – ardaleoedd sy'n agos at gynefinoedd tir a morol sensitif a safleoedd cadwraeth o bwysigrwydd rhyngwladol. Gyda'i gilydd, gallai'r datblygiadau hyn **ddal o gwmpas 4.5 miliwn tunnell o garbon deuocsid bob blwyddyn**, gan wneud cyfraniad sylweddol at leihau allyriadau.

O ystyried maint a chymhlethdod y prosiect, rydym wedi gweithio ar draws timau ac ochr yn ochr â phartneriaid i sicrhau bod y manteision yn cael eu gwireddu i'r eithaf, tra bod unrhyw effeithiau posibl ar fioamrywiaeth yn cael eu deall a'u rheoli'n llawn.

Bydd prosiectau fel HyNet yn chwarae rhan bwysig wrth leihau allyriadau, ond mae eu llwyddiant yn dibynnu ar integreiddio gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd â mesurau diogelu natur a manteisio ar gyfleoedd i gefnogi adferiad natur.

4.5m
tunnell o garbon deuocsid gellir ei ddal bob blwyddyn



Astudiaeth achos

Diogelu cymunedau mewn hinsawdd sy'n newid

Mae llifogydd yn un o'r risgiau mwyaf brys sy'n wynebu Cymru. Mae tua un o bob saith eiddo mewn perygl, ac mae newid hinsawdd yn cynyddu amlder a dwyster tywydd eithafol.

Eleni, mae **cynllun llifogydd gwerth £25 miliwn** yng Nghasnewydd wedi'i gwblhau, fydd yn lleihau'r risg o lifogydd i dros **2,000 o gartrefi a busnesau** rhag lifogydd oherwydd llanw a glaw trwm.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein systemau rhybudd llifogydd. Mae 48,800 eiddo wedi cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd, gan roi amser i bobl baratoi a lleihau'r effaith. Fodd bynnag, nid oes cymaint o gynnydd â'r bwriad wedi'i wneud, ac mae angen gwella pellach i sicrhau bod rhybuddion yn amserol, yn glir ac yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Ochr yn ochr ag amddiffynfeydd sydd wedi'u creu, mae dulliau sy'n seiliedig ar natur yn cael eu datblygu i leihau'r pwysau ar ddalgylchoedd.

Wrth i risgiau hinsawdd dyfu, bydd meithrin gwydnwch yn dibynnu ar fuddsoddiad parhaus, cydlynu cryfach a gweithredu ar raddfa.

48,800
eiddo wedi cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd

2,000
o gartrefi a busnesau wedi'u hamddiffyn gan y cynllun llifogydd yng Nghasnewydd

Astudiaeth achos

Ymladd tanau gwyllt yn ein coedwigoedd



Ar un adeg, roedd tanau gwyllt yn ymddangos fel rhywbeth a oedd yn digwydd mewn mannau pell. Ond wrth i'r hinsawdd newid a Chymru brofi cyfnodau o dywydd poethach a sychach, mae'r risg yn cynyddu yn nes at adref. Dros y degawd diwethaf, mae tanau gwyllt wedi dod yn fwy cyffredin, gan ymledu'n gyflym yn aml yn ystod cyfnodau sych.

Ym mis Ebrill 2025, bu tân gwyllt difrifol ger Coedwig Beddgelert ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Lledaenodd y tân ar draws llethrau serth a chreigiog, gan ei gwneud yn amhosibl i beiriannau tân gyrraedd y safle. Roedd y tân yn bygwth un o'n coedwigoedd masnachol mawr, gyda choed yn werth miliynau o bunnoedd.

Defnyddiwyd hofrennydd i ollwng dŵr yn uniongyrchol ar y fflamau, gan weithio ochr yn ochr â chriwiau ar y ddaear i ddod â'r tân dan reolaeth.

Nid coed yn unig y mae tanau gwyllt yn eu dinistrio. Maent yn peryglu bywydau, yn llenwi'r aer â mwg niweidiol ac yn achosi difrod hirdymor i natur. Gall tanau mwy dwys losgi i mewn i fawndiroedd, gan ryddhau carbon sydd wedi'i storio ac wrthdroi blynyddoedd o waith adfer mewn ychydig oriau yn unig.

Rydym yn rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gan weithio gyda'r gwasanaethau tân ac achub, Llywodraeth Cymru a'r heddlu i fynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol hwn ar y cyd.

Byddwch yn Ddoeth ynghylch Tanau Gwyllt

- Peidiwch byth â chynnau tân yn yr awyr agored
- Defnyddiwch farbeciws tafladwy dim ond lle caniateir hynny, a pheidiwch byth â'u gadael heb oruchwyliaeth
- Sicrhewch fod barbeciws wedi diffodd yn llwyr cyn gadael
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi bob amser, yn enwedig poteli gwydr
- Peidiwch byth â thaflu sigaréts na matsis ar y ddaear
- Rhowch wybod am unrhyw arwyddion o dân ar unwaith drwy ffonio 999

Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Straeon gan ein timau lleol

Addasu i newid: Dinas Dinlle, Gwynedd

Mae gwaith arfordirol yn Ninas Dinlle yn helpu i leihau erydiad ac amddiffyn yr amgylchedd a'r gymuned leol. Drwy sefydlogi rhannau bregus o'r arfordir, mae'r cynllun yn cefnogi gwydnwch hirdymor ac yn gweithio gyda phrosesau naturiol i ymateb i hinsawdd sy'n newid.






Diogelu cymunedau: Cynllun llifogydd Casnewydd

Mae cynllun amddiffyn rhag llifogydd mawr yng Nghasnewydd wedi'i gwblhau, gan ddarparu gwell amddiffyniad i gartrefi, busnesau a seilwaith. Mae'r prosiect yn lleihau'r risg o lifogydd i gymunedau lleol wrth gefnogi datblygu trefol cynaliadwy yn un o ardaloedd economaidd pwysicaf De-ddwyrain Cymru.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol: Prosiect glawlun Abertawe

Yn Abertawe, mae prosiect glawlun arloesol yn gosod safonau newydd ar gyfer cymunedau sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd. Drwy reoli dŵr wyneb gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd fel gerddi glaw ac arwynebau athraidd, mae'r cynllun yn lleihau perygl llifogydd, yn gwella ansawdd dŵr ac yn cyfoethogi mannau trefol i bobl a natur.





Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd

Edrych tuag at 2026–27

Yn 2026–27, rhoddir blaenoriaeth i gynyddu'r gwaith o weithredu er mwyn ymateb i newid hinsawdd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu ar y ddarpariaeth o ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar draws amgylcheddau mawndiroedd, morol, arfordirol a dalgylchoedd a chryfhau perfformiad a chyrhaeddiad gwasanaethau rhybudd llifogydd. Bydd gwaith hefyd yn parhau i gefnogi datblygu ynni adnewyddadwy a galluogi cymhwyso technolegau carbon isel yn ehangach drwy ganllawiau cliriach a phrosesau rheoleiddio gwell.

O ystyried maint yr her hinsawdd, bydd cynnydd yn dibynnu ar ganolbwyntio parhaus, targedu ymdrechion ac adnoddau yn ofalus, a chydweithio cryfach â phartneriaid i ehangu'r cyflawniad y tu hwnt i gyflawniad CNC ei hun. Bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddangos cynnydd drwy ganlyniadau mesuradwy, gan gynnwys llai o allyriadau, gwell gwydnwch llifogydd a mwy o allu gan ecosystemau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Rhybudd SoNaRR!

Er gwaethaf ein camau gweithredu, mae angen i Gymru wneud mwy.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

- Mae Cymru yn profi hinsawdd sy'n cynhesu, gyda digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac yn fwy difrifol.
- Mae'r risg o lifogydd, sychder a newid arfordirol yn cynyddu.
- Mae'r effeithiau eisoes yn cael effaith ar ecosystemau, seilwaith a chymunedau.

Beth mae hyn yn ei olygu

Mae risgiau'n cynyddu'n gyflymach na'r ymateb cyffredinol, gan olygu bod mwy o gymunedau, seilwaith ac ecosystemau yn agored i niwed dros amser.

Mae angen cynnydd cryfach a mwy cydgysylltiedig ar draws addasu i'r hinsawdd, buddsoddi, cynllunio, seilwaith a lleihau allyriadau, ochr yn ochr ag ehangu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur.



3 Lleihau llygredd

Amcan llesiant 3 – Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

Mae lleihau llygredd ac atal niwed amgylcheddol yn her hirdymor sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru. Mae'n allweddol i wella ansawdd ein hamgylchedd a chefnogi iechyd pobl a byd natur. Yn 2025–26, gwnaethom gryfhau ein dull gweithredu, ond mae'r cynnydd yn dal i fod yn rhy araf.

Mae camau gweithredu wedi'u targedu – fel codi ymwybyddiaeth, arolygiadau, a gorfodaeth – yn helpu i wella cydymffurfiaeth a delio â rhai o'r problemau llygredd mwyaf uniongyrchol. Mae hefyd yn ein helpu i ddeall yn well y prif bwysau ar ein hamgylchedd.

Ein ffocws yw mynd i'r afael â'r ffynonellau llygredd mwyaf arwyddocaol, defnyddio ein pwerau rheoleiddio yn effeithiol, a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y problemau. Y flaenoriaeth nawr yw troi'r ymdrechion hyn yn welliannau parhaol a mesuradwy i ansawdd afonydd, moroedd a thir Cymru.

Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol yn parhau i fod yn un heriol. Mae llygredd yn sgil ffermio, dŵr gwastraff, diwydiant a gwastraff yn parhau i effeithio ar afonydd, tir ac ecosystemau, ac mae'r cynnydd yn amrywio ledled Cymru.

Mae newid ar y raddfa sydd ei angen yn heriol. Bydd mynd i'r afael â llygredd wrth ei wraidd yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor, newidiadau o ran ymddygiad a gwell cydlynu ar draws sectorau nid dim ond rheoleiddio yn unig. Dyma lle mae'r cynnydd yn arafach ac yn fwy cymhleth.

Rydym wedi cynyddu ein gwaith craffu a chryfhau ein dull rheoleiddio. Mae disgwyliadau'n gliriach, ac mae camau gweithredu yn cael eu cymryd lle bo angen. Er bod hyn yn helpu i wella cydymffurfiaeth ac atebolrwydd, nid yw eto wedi arwain at welliannau cyson yn ansawdd yr amgylchedd. Mae cyflawni'r newid parhaol ar y raddfa sydd ei angen yn parhau i fod yn her sylweddol.



Yn 2025–26, cafodd pedwar ymrwymiad eu graddio'n Wyrdd, pedwar yn Oren ac un yn Goch, o'i gymharu â phedwar yn Wyrdd a phump yn Oren yn 2024–25. Mae hyn yn awgrymu perfformiad cymharol sefydlog, gyda'r rhan fwyaf o ymrwymiadau wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir. Fodd bynnag, roedd un maes yn sylweddol oddi ar y trywydd, ac mae nifer o ymrwymiadau yn parhau i gael eu cyflawni'n rhannol yn unig.

Cynnal arolygiadau fferm i leihau llygredd amaethyddol

507 o arolygiadau fferm allan o darged o **821**

Cynnal ymweliadau cydymffurfio ar safleoedd blaenoriaeth i fynd i'r afael â llygredd



Targedu rheoleiddio sectorau allweddol a darparwyr gwastraff i hybu cydymffurfiaeth ailgylchu o ran rheoliadau newydd yn y gweithle.

Wedi cyrraedd **18,500** o weithleoedd drwy weithgarwch cyfathrebu

Herio a chynghori cwmnïau dŵr i leihau effaith ar yr amgylchedd

Wedi sefydlu tîm cydymffurfiaeth dŵr

Gosod uchelgeisiau ar lefel dalgylch i yrru gwelliannau cydweithredol i ansawdd dŵr

157 o ymchwiliadau i fethiannau cyfarwyddeb fframwaith dŵr

Blaenoriaethu ymateb i ddigwyddiadau i ganolbwyntio ar yr achosion mwyaf niweidiol



Gwella dealltwriaeth o yrwyr llygredd i dargedu camau gweithredu'n effeithiol



Ymgymryd ag ymchwiliadau a chamau gorfodi i leihau difrod amgylcheddol

95% o benderfyniadau gorfodi wedi'u gwneud o fewn tri mis

Cryfhau partneriaethau i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar y cyd



Astudiaeth achos

Arolygiadau fferm a chydymffurfiaeth ffermydd

Mae llygredd amaethyddol yn parhau i roi pwysau sylweddol ar ansawdd dŵr ledled Cymru, ac mae angen cydbwysedd o ran rheoleiddio, gorfodi a chefnogi.

Ni wnaethom gyrraedd ein targedau arolygu arfaethedig eleni, ac mae ein perfformiad wedi cael sgôr goch. Gwnaethom gwblhau **507 o arolygiadau** allan o **darget o 821**, gyda llawer yn gofyn am ymweliad dilynol.

O ganlyniad, gwnaethom flaenoriaethu datrys y materion mwyaf difrifol, gan gynnal ymweliadau ychwanegol yn hytrach na chynyddu nifer yr arolygiadau newydd. Mae hyn wedi canolbwyntio'r ymdrech lle mae'r risg ar ei uchaf.

Mae capasiti yn parhau i'n rhoi dan bwysau, er bod camau recriwtio a hyfforddi ar y gweill i gryfhau'r ddarpariaeth.

Mae lefelau diffyg cydymffurfio yn parhau i fod yn uchel, a bydd angen ymdrech barhaus gyda ffermwyr a'r sector bwyd ehangach i wella perfformiad dros amser.



507
o arolygiadau wedi'u cyflawni

Astudiaeth achos

Ailgylchu yn y gweithle

Mae rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd yn sbarduno newid ar draws busnesau yng Nghymru.

Cyrhaeddwyd tua **18,500 o weithleoedd** drwy reoleiddio a chyfathrebu wedi'i dargedu. Mae cynnydd cynnar yn dangos gwell prosesau gwahanu gwastraff a thwf o ran ymwybyddiaeth.

Fe wnaethom ymweld â **476 o fusnesau** ledled Cymru i asesu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ac i roi cyngor ar sut y gellid gwella eu hailgylchu. Fe wnaethom hefyd ymchwilio i **69 o achosion** o fusnesau yr adroddwyd nad oeddent yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae rhai sectorau yn gweld newid yn anoddach, sy'n tynnu sylw at ble mae angen cryfhau camau cymorth a gorfodi.

Bydd cyflawni gwelliant cyson yn gofyn am ymdrech barhaus ar draws pob sector.

18.5k
o weithleoedd wedi'i dargedu





Astudiaeth achos

Perfformiad cwmnïau dŵr



“

Yn ôl ein Asesiad Perfformiad Blynyddol diweddaraf, sgoriwyd Dŵr Cymru fel cwmni **dau seren o bump**, sy’n dangos bod angen gwella sylweddol.

Mae systemau dŵr ledled Cymru o dan bwysau cynyddol oherwydd newid hinsawdd, seilwaith sy’n heneiddio a galw cynyddol. Mae pryder y cyhoedd am ansawdd dŵr yn uchel, a hynny’n briodol.

Rydym yn rheoleiddio cwmnïau dŵr i ddiogelu ansawdd dŵr a rheoli’r risgiau hyn, ac hefyd yn cynyddu goruchwyliaeth o berfformiad amgylcheddol drwy gyfrwng cyngor, her a chraffu.

£1.7 biliwn

o fuddsoddiad hyd at 2030

6x

higher than the previous period

Gallwn, ac rydym yn cymryd camau gorfodi pan fo angen i sicrhau gwelliannau amgylcheddol.

Yn ôl ein Asesiad Perfformiad Blynyddol diweddaraf, sgoriwyd Dŵr Cymru fel cwmni **dau seren o bump**, sy’n dangos bod angen gwella sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon parhaus am berfformiad amgylcheddol, gan gynnwys nifer y digwyddiadau llygredd a chyflawniad gwelliannau arfaethedig. Mae Hafren Dyfrdwy yn gwmni llai, ac rydym yn parhau ei fonitro’n agos.

Drwy’r Adolygiad Prisiau (PR24) (sy’n pennu faint y gall cwmnïau dŵr ei fuddsoddi a pha welliannau y mae’n rhaid iddynt eu cyflawni dros gyfnod o bum mlynedd), gwnaethom ni a Dwr Cymru helpu i sicrhau **£1.7 biliwn o fuddsoddiad hyd at 2030 – bron chwe gwaith yn uwch na’r cyfnod blaenorol.** Bwriad y cyllid hwn yw uwchraddio gweithfeydd trin, lleihau llygredd a mynd i’r afael â gorlifoedd storm.

Bydd hyn yn creu’r amodau ar gyfer gwella, ond mae cyflawni’r gwaith hwnnw bellach yn hanfodol. Rydym yn parhau i fonitro, arolygu a gweithredu lle bo angen.

Mae’r disgwyliadau ar gwmnïau dŵr yn cynyddu, ac mae angen perfformiad gwell er mwyn sicrhau’r gwelliannau amgylcheddol y mae pob un ohonom am eu gweld.

Astudiaeth achos

Ansawdd dyfroedd ymdrochi: Diogelu hoff leoedd pobl



Mae dyfroedd ymdrochi yn rhai o leoedd naturiol mwyaf gwerthfawr Cymru, sy'n cefnogi bywyd gwyllt, cymunedau ac economïau lleol.

Bob haf, rydym yn monitro ansawdd y dŵr ar draethau ac mewn afonydd a llynnoedd dynodedig i olrhain amodau a nodi risgiau llygredd.

Mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn gryf. **Yn 2025, roedd 110 o 112 safle** yn bodloni'r safonau gofynnol, gyda'r rhan fwyaf yn cael sgôr Rhagorol neu Dda. Roedd safleoedd newydd eu dynodi hefyd wedi perfformio'n dda yn eu blwyddyn gyntaf.

Mae hyn yn adlewyrchu gwaith parhaus ar draws y system – rheoleiddio gollyngiadau, gweithio gyda chwmnïau dŵr a lleihau llygredd wrth ei wraidd.

Ar rai safleoedd, mae rhagolygon amser real yn darparu cyngor clir i helpu pobl i benderfynu pryd a ble i nofio'n ddiogel.

Mae safonau'n cael eu cynnal, ond mae pwysau'n cynyddu. Bydd angen ymdrech barhaus a phartneriaethau cryf i ddiogelu'r lleoedd hyn dros amser.




"

Mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn gryf. Yn 2025, roedd 110 o 112 safle yn bodloni'r safonau gofynnol.

Astudiaeth achos

Taclo Troseddau Gwastraff

Mae rhai troseddau gwastraff yn weithgarwch troseddol trefnedig sy'n cael ei yrru gan elw, ac a all gynnwys safleoedd dympio anghyfreithlon, gwastraff peryglus, pentyrru gwastraff a chludwyr sy'n gweithredu'n anghyfreithlon. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Awdurdod Cyllid Cymru, i fynd i'r afael â throseddau gwastraff.



"

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae troseddau gwastraff yn cael eu nodi a'u datrys.

Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, cryfhau camau gorfodi a thargedu gweithgarwch trefnedig sy'n niweidio'r amgylchedd ac yn tanseilio busnesau cyfreithlon.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae troseddau gwastraff yn cael eu nodi a'u datrys. Bydd ei leihau ar raddfa yn gofyn am orfodi parhaus a gweithredu cydgysylltiedig ar draws y system.

Astudiaeth achos

Ymateb i Ddigwyddiadau Amgylcheddol



“

Rydym yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol ledled Cymru, gan weithio gyda’r gwasanaethau brys a phartneriaid.

10.5k+
adroddiad o ddigwyddiad amgylcheddol

171
Achosodd 171 ohonynt effaith ddifrifol

~95%
Deliwyd â 95% ohonynt o fewn pedair awr

Eleni, gwnaethom ymateb i **10,504 adroddiad o ddigwyddiad amgylcheddol**, yr achosodd 171 ohonynt effaith ddifrifol. Deliwyd â **95%** ohonynt o fewn pedair awr.

Mae newidiadau i’r ffordd mae digwyddiadau’n cael eu blaenoriaethu a’u rheoli yn ein helpu i dargedu’r digwyddiadau amgylcheddol mwyaf niweidiol yn well, a gwella’r dystiolaeth a ddefnyddiwn i weithredu. Mae hyn yn golygu y gallwn ganolbwyntio mwy ar y risgiau mwyaf difrifol. Mae’r newidiadau hyn hefyd yn rhyddhau rhywfaint o amser staff, gan ganiatáu i ni ganolbwyntio mwy ar ymweliadau cydymffurfio arfaethedig.

Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i ymgorffori’r ffyrdd newydd hyn o weithio yn llawn ac i gryfhau’r ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys gwell cydlynu a dealltwriaeth gliriach o’r hyn sy’n achosi digwyddiadau.

Mae’r galw yn parhau i fod yn uchel. Mae llawer o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â phwysau amgylcheddol ehangach, gan gynnwys troseddau gwastraff a llygredd dŵr.

Dim ond rhan o’r datrysiad yw ymateb yn effeithiol. Bydd lleihau nifer a difrifoldeb y digwyddiadau yn dibynnu ar atal niwed wrth ei wraidd a gweithio’n agosach gyda phartneriaid.

Mae diogelu’r amgylchedd yn dibynnu ar ba mor effeithiol mae digwyddiadau’n cael eu rheoli.

Rydym yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol ledled Cymru, gan weithio gyda’r gwasanaethau brys a phartneriaid.

Astudiaeth achos

Asesu cydymffurfiaeth



Mae rheoleiddio cryf yn sail i ddiogelu'r amgylchedd, gan sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni yn ymarferol, nid yn unig mewn polisi.

80
o erlyniadau

2,062
o ymweliadau safle i wirio cydymffurfiaeth

1,432
o asesiadau desg wedi'u cyflawni

Eleni, roedd gweithgarwch cydymffurfio yn cynnwys **2,062 o ymweliadau safle a 1,432 asesiadau desg** i wirio cydymffurfiaeth ag amodau trwydded a chaniatâd. Mae'r asesiadau hyn yn helpu i nodi risgiau yn gynnar a sicrhau bod gweithredwyr yn rheoli eu heffaith yn briodol.

Lle nad yw safonau'n cael eu bodloni, bydd camau'n cael eu cymryd. Roedd gweithgarwch gorfodi yn targedu'r risgiau mwyaf difrifol, gyda chamau yn erbyn **619 o sefydliadau a 636 o unigolion**, gan gynnwys tua **80 o erlyniadau** yn cwmpasu mwy na **100 o droseddau.**

Mae hyn yn adlewyrchu dull sy'n seiliedig ar risg – blaenoriaethu ymdrech lle mae'r niwed amgylcheddol fwyaf.

Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at welliannau o ran cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, mae problemau yn parhau ar draws sectorau, ac mae digwyddiadau'n parhau, yn aml wedi'u gyrru gan bwysau ehangach fel llygredd dŵr a gwastraff.

Bydd cynnal lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn gofyn am orfodi parhaus, ochr yn ochr â disgwyliadau cliriach, monitro cryfach a mwy o gyfrifoldeb gan weithredwyr. Mae rheoleiddio yn lifer hanfodol – ond mae gwelliant hirdymor yn dibynnu ar gydymffurfiaeth gyson ar draws y system.

Astudiaeth achos

Mynd i'r afael ag allyriadau safleoedd tirlenwi



Gall safleoedd tirlenwi fod yn ffynhonnell pryder i gymunedau lleol ledled Cymru, yn enwedig lle mae pryderon ynghylch arogleuon, allyriadau nwyon tirlenwi a'u heffeithiau ar yr amgylchedd. Mae nwy tirlenwi, sy'n cael ei gynhyrchu wrth i wastraff bydru mewn safleoedd tirlenwi, yn cynnwys methan a charbon deuocsid yn bennaf – dau nwy tŷ gwydr pwerus. Felly, mae lleihau allyriadau o safleoedd tirlenwi yn rhan bwysig o'r gwaith o fynd i'r afael â newid hinsawdd, wrth ymateb hefyd i bryderon pobl sy'n byw ger y safleoedd hyn.

Mae'r Rhaglen Lleihau Allyriadau Tirlenwi (LERP), a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn helpu i gyflawni hyn drwy gynnal archwiliadau manwl o safleoedd tirlenwi ar draws Cymru. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi gollyngiadau nwy tirlenwi, yn asesu pa mor effeithiol y mae nwy tirlenwi yn cael ei gasglu, ac yn tynnu sylw at welliannau y gall gweithredwyr safleoedd eu gwneud i leihau allyriadau.

Ers 2021 mae nifer y safleoedd sy'n adrodd ar nwy tirlenwi wedi cynyddu o 17 i 30. Mae hyn wedi ychwanegu mwy o wybodaeth i ni ar 17 miliwn m^3 o nwy tirlenwi at gofnodion cenedlaethol. Mae gwell data yn darparu darlun cliriach o ble y gellir lleihau allyriadau, gan alluogi gweithredu wedi'i dargedu i wella'r ffordd y caiff nwy tirlenwi ei gasglu ac atal methan rhag dianc i'r atmosffer. Rhwng 2021 a 2025 amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn wedi atal mwy na 5,000 tunnell o allyriadau methan.

Mae'r rhaglen hefyd wedi sicrhau manteision ehangach, gan gynnwys gwelliannau i seilwaith nwy tirlenwi, llai o gwynion am arogleuon gan gymunedau lleol, a chyfleoedd newydd i gasglu nwy o safleoedd ychwanegol.

Wrth edrych ymlaen, mae'r rhaglen yn archwilio technolegau newydd, megis delweddu methan a defnyddio data lloeren, i helpu i nodi a lleihau allyriadau yn fwy effeithiol.

Straeon gan ein timau lleol

Diogelu cynefinoedd sensitif: Cludiant hofrennydd

Ym Mynyddoedd Cambria, defnyddiwyd hofrennydd i gefnogi gwaith hanfodol atal llygredd wrth ddiogelu cynefinoedd prin a sensitif. Trwy osgoi tarfu ar y tir mewn ardaloedd bregus, mae'r dull hwn yn sicrhau bod gwelliannau amgylcheddol pwysig yn cael eu cyflawni heb niweidio'r ecosystemau y maent wedi'u cynllunio i'w hamddiffyn.





Gweithredu cymunedol: Nant Henllan, Sir Ddinbych

Yn Nant Henllan ger Dinbych, mae gweithredu gan y gymuned leol yn helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd afonol. Trwy bartneriaethau a chyfranogiad ymarferol, mae'r gwaith yn gwella cynefinoedd, yn lleihau llygredd ac yn cryfhau gofal lleol o adnoddau naturiol.

Mynd i'r afael â llygredd cudd: Caerdydd


Ledled ardaloedd trefol Caerdydd, mae gwaith wedi'i dargedu yn mynd i'r afael â llygredd cudd a achosir gan gamgysylltiadau eiddo, lle mae dŵr gwastraff yn llifo i afonydd yn hytrach nag i garthffosydd. Gan ganolbwyntio ar ddalgylchoedd allweddol fel afonydd Taf ac Elái, mae'r fenter yn lleihau llygredd ac yn gwella ansawdd dŵr yn Ne-ddwyrain Cymru.



Lleihau gwastraff: Cynllun plastigau fferm

Mae cynllun newydd i fynd i'r afael â llygredd plastigau amaethyddol yn cael ei gyflwyno ar draws ardaloedd gwledig Powys a Cheredigion. Drwy wella arferion ailgylchu a gwaredu ar ffermydd, mae'r fenter yn helpu i atal plastigion rhag mynd i afonydd a phriddoedd, gan gefnogi rheolaeth tir fwy cynaliadwy.





Gwella ansawdd dŵr: Conwy

Yn Nyffryn Conwy, mae gwaith ar y gweill i wella ansawdd dŵr ac ailgysylltu cynefinoedd ar draws y dalgylch. Drwy fynd i'r afael â ffynonellau llygredd ac adfer cysylltiadau naturiol rhwng amgylcheddau afonol, mae'r prosiect yn cefnogi adferiad bywyd gwyllt ac yn adeiladu ecosystemau iachach a mwy gwydn.

Lleihau llygredd

Edrych tuag at 2026–27

Yn 2026–27, byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu graddfa a chysondeb gweithgarwch rheoleiddio, gyda mwy o bwyslais ar wella cydymffurfiaeth ar draws sectorau risg uchel. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu nifer yr archwiliadau fferm, ynghyd â gwaith dilynol parhaus lle nad yw safonau'n cael eu bodloni, cwblhau'r holl waith sicrwydd a gynlluniwyd gyda chwmnïau dŵr, ac ymgorffori ymhellach dull sy'n seiliedig ar risg o ymateb i ddigwyddiadau a chymryd camau cydymffurfio.

Bydd cynnydd yn dibynnu ar flaenoriaethu parhaus a gwneud y defnydd gorau o'r data a'r mewnwelediad sydd ar gael. Bydd parhau i weithio gyda phartneriaid a sicrhau dull mwy cyson o weithredu ar draws timau yn hanfodol er mwyn cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn cydymffurfiaeth, lleihau llygredd yn y tarddle, a sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell.

SoNaRR alert!

Er gwaethaf ein camau gweithredu, mae angen i Gymru wneud mwy.

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym

- Dim ond tua 40% o afonydd, llynnoedd a dyfroedd morol sydd mewn cyflwr da.
- Mae llygredd parhaus o ddŵr gwastraff, amaethyddiaeth, diwydiant a ffynonellau trefol yn parhau i effeithio ar afonydd, tir a moroedd.
- Mae llygredd a phwysau ar seilwaith yn parhau i fod yn heriau sylweddol.

Beth mae hyn yn ei olygu

Mae lleihau llygredd yn y tarddle yn gofyn am weithredu cryfach a mwy cydgysylltiedig ar draws sectorau, wedi'i gefnogi gan reoleiddio effeithiol, buddsoddiad a chymhellion priodol.



Gwella sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl

Eleni, gwnaethom ddatblygu amcan llesiant newydd sy'n canolbwyntio ar sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl. Y nod yw meithrin sefydliad y mae cydweithwyr, cwsmeriaid a phartneriaid yn ymddiried ynddo; sy'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau amserol, seiliedig ar dystiolaeth; sy'n gydweithredol yn ein gwaith yn ogystal â bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae hyn yn gosod y cyfeiriad ar gyfer gwella sut rydym yn gwneud penderfyniadau, yn darparu gwasanaethau ac yn gweithio gyda'n gilydd.

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rywfaint o'r cynnydd sydd eisoes ar y gweill ac yn dechrau mapio'r gwaith a fydd yn dod o dan yr amcan hwn yn 2026–27.



Astudiaeth achos

Galluogi datblygiad cynaliadwy


Gall cael y cyngor cywir ar yr adeg cywir achosi i brosiect fethu neu lwyddo. Gall helpu prosiect i symud ymlaen – neu achosi oedi os caiff y cyfle ei golli. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio a Thrwyddedu yn cefnogi datblygiad ledled Cymru tra'n sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. Mae'r nod yn syml: darparu cyngor clir ac amserol fel y gellir gwneud penderfyniadau ar ddatblygu cynaliadwy yn hyderus.

Mae angen canllawiau sy'n glir ac yn hawdd eu dilyn ar ddatblygwyr a phartneriaid. Drwy gymryd rhan yn gynnar yn y broses, gellir ystyried materion amgylcheddol o'r cychwyn cyntaf wrth lunio cynlluniau. Mae hyn yn helpu i osgoi oedi, lleihau costau a sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd **2,647 o drwyddedau** ar draws meysydd fel diwydiant, gwastraff, dŵr a gweithgareddau morol. Ochr yn ochr â hyn, aethpwyd i'r afael â **7,859 o ymgynghoriadau cynllunio**, gan helpu i nodi gofynion amgylcheddol yn gynnar ac osgoi problemau yn ddiweddarach.

Perfformiodd ein gwasanaeth cynllunio yn dda. Cyhoeddwyd ymatebion ar amser ar gyfer **98% o geisiadau mawr** ac **99% o rai bach**, Pennwyd oddeutu **87% o drwyddedau** o fewn amserlenni targed, ac mae gwaith pellach ar y gweill i wella hyn lle bo angen.

Mae'r ffocws bellach ar wneud y gwasanaeth yn gliriach ac yn fwy integredig fyth. Drwy gefnogi datblygiad polisïau a chynlluniau, gwella cyfathrebu, a chysylltu cyngor cynllunio yn fwy agos â'r broses drwyddedu, mae'n haws i ymgeiswyr ddeall beth sydd ei angen arnynt a symud prosiectau ymlaen, gan ddiogelu'r amgylchedd ar yr un pryd.



98%

o geisiadau cynllunio mawr a gyhoeddwyd yr ymatebion ar amser

99%

o geisiadau cynllunio bach a gyhoeddwyd yr ymatebion ar amser

87%

o drwyddedau wedi'u pennu o fewn amserlenni targed

Astudiaeth achos

Pren cynaliadwy: Rheoli ased cenedlaethol



Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ased cenedlaethol pwysig, sy'n darparu pren, yn cefnogi swyddi ac yn cyfrannu at nodau hinsawdd.

Yn 2025–26, gwnaethom gyflenwi dros 559,000 tunnell o bren ardystiedig, gan gynhyrchu £31.3 miliwn o incwm. Mae hyn yn cael ei ail-fuddsoddi i reoli'r ystad, gan gynnwys ailblannu, rheoli cynefinoedd a sicrhau mynediad i'r cyhoedd.

Mae cyflenwad pren hefyd yn cefnogi'r economi ehangach. Mae CNC yn cyfrif am oddeutu 53% o gynhyrchiant pren Cymru, gan gyfrannu at sector gwerth £614 miliwn i economi Cymru a chefnogi dros 10,000 o swyddi.

Eleni, roedd ein gweithgarwch hefyd wedi cefnogi adfer yn dilyn Storm Darragh, gan helpu i brosesu pren a oedd wedi'i ddifrodi a chynnal mynediad i gymunedau lleol.

Dylanwadwyd ar ein cyflawniad gan ffactorau allanol, gan gynnwys amodau'r farchnad, tywydd eithafol a chadwyni cyflenwi. Mae cydbwyso cynhyrchu pren â bioamrywiaeth a gwydnwch hinsawdd yn parhau i fod yn her barhaus.

Mae'r gwaith hwn yn dangos sut gall coedwigoedd a reolir yn dda ddarparu gwerth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol – tra bod angen rheolaeth ofalus i gynnal y cydbwysedd hwnnw dros amser.

53%

o gynhyrchiant pren Cymru yn dod oddi wrth CNC

10,000+

o swyddi a gefnogwyd ar draws y sector



Astudiaeth achos

Ymateb i adborth

Rydym yn parhau i ymateb yn effeithiol i adborth a phryderon. Mae'r rhan fwyaf o faterion sy'n codi yn cael eu datrys yn gynnar, ac aethpwyd i'r afael â 97% o gwynion ar amser. Cawsom hefyd 73 achos o ganmoliaeth, gan ddangos llawer o brofiadau cadarnhaol ar draws ein gwaith.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos ein bod yn delio â phroblemau'n dda, pan fyddant yn codi.

Fodd bynnag, mae adborth hefyd yn tynnu sylw at yr angen i wella cysondeb, eglurder a phrydlondeb yn ein gwasanaethau. Er bod rhyngweithiadau unigol yn aml yn gadarnhaol, gall profiad amrywio ar draws gwahanol feysydd.

Bydd gwella'r agweddau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl yn cael profiad mwy cyson a dibynadwy wrth ymgysylltu â ni.

97%
o gwynion wedi'u ateb ar amser

73
achos o ganmoliaeth, gan ddangos llawer o brofiadau cadarnhaol ar draws ein gwaith

Astudiaeth achos

Sgyrsiau gyda CNC: Gwrando a gweithio'n wahanol

Mae diogelu amgylchedd Cymru yn dibynnu ar sefydlu perthynas gref â'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Eleni, gwnaethom gyflwyno *Sgyrsiau gyda CNC* – digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i alluogi trafodaeth agored ac uniongyrchol gyda staff ac Aelodau'r Bwrdd.

Daeth y digwyddiad cyntaf yn Aberystwyth â dros 60 o gyfranogwyr ynghyd i drafod heriau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol. Tynnodd yr adborth sylw at werth deialog agored a mynediad uniongyrchol at arbenigedd.

Mae'r digwyddiadau hyn yn rhan o newid ehangach tuag at ymgysylltu mwy agored, dwyffordd. Maent yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau lleol yn well, meithrin ymddiriedaeth a gwella sut rydym yn gweithio.





Gwella sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl

Canfyddiadau am ein gwaith

Mae ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth yn dylanwadu ar ba mor effeithiol y gallwn weithio gyda phobl a phartneriaid ledled Cymru. Er bod llawer o bobl wedi clywed am Cyfoeth Naturiol Cymru, mae mwy i'w wneud i helpu pobl i ddeall beth rydym yn ei wneud a beth y gallant ei ddisgwyl gennym.


Mae tua saith o bob deg o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod wedi clywed amdanom. Mae ein staff yn cael eu hystyried yn wybodus, yn ymroddedig ac yn bobl y gellir ymddiried ynddynt, sy'n darparu sylfaen gadarn.

Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth o'r hyn rydym yn ei wneud yn fwy cyfyngedig. Dim ond 11% o bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod llawer am CNC, ac mae llawer yn gwybod dim ond ychydig neu ddim byd y tu hwnt i'r enw. Mae'r diffyg eglurder hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn safbwyntiau ein rhanddeiliaid.


Roedd archwiliad rhanddeiliaid 2026 yn dangos darlun cymysg. Er bod 44% o sefydliadau yn ystyried CNC yn gadarnhaol, mae gan 34% farn negyddol. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae ymwybyddiaeth a barn gadarnhaol wedi gostwng ychydig.

Ar yr un pryd, mae cydnabyddiaeth o'n cyfrifoldebau craidd yn parhau i fod yn uchel. Mae hyn yn awgrymu nad beth rydym yn sefyll drosto yw'r broblem, ond yn hytrach, pa mor glir a chyson rydym yn cyfathrebu am ein rôl a sut rydym yn gweithio gydag eraill.

Bydd gwella eglurder, cysondeb a rhwyddineb ymgysylltu yn allweddol wrth gau'r bwlch hwn ac adeiladu ar yr ymddiriedaeth y mae ein pobl wedi'i sefydlu yn barod.



o sefydliadau yn ein hystyried yn gadarnhaol



Yn Arolwg Omnibws Cymru 2026, roedd 69% o'r bobl a holwyd yn ymwybodol ohonym ni

Gwella sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl

Ein galwad i'r Senedd nesaf: Gosod yr agenda amgylcheddol

Eleni, gwnaethom gymryd agwedd fwy rhagweithiol tuag at gael dylanwad ar bolisïau amgylcheddol yng Nghymru. Drwy wneud 10 gofyniad ar y Senedd, rydym wedi nodi blaenoriaethau clir ar gyfer yr heriau mwyaf sy'n wynebu'r amgylchedd.

Yn hytrach nag ymateb i faterion unigol, gwnaethom ganolbwyntio ar lunio'r sgwrs ehangach. Gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â gwleidyddion a chynghorwyr, gan ddefnyddio iaith gliriach a symlach i esbonio'r heriau a'r camau gweithredu sydd eu hangen.

Mae'r dull hwn wedi helpu i ddechrau trafodaethau a gwneud materion cymhleth yn haws eu deall. Roedd hefyd yn cefnogi gwell sgyrsiau ar draws y llywodraeth a gyda phartneriaid.

Daeth y 10 gofyniad â thystiolaeth a phrofiad ynghyd o bob rhan o CNC. Fe wnaethant helpu i osod blaenoriaethau, cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau, ac annog sefydliadau i weithio gyda'i gilydd ar heriau cyffredin.

O ganlyniad, mae mwy o ffocws bellach ar faterion hirdymor, system gyfan, fel defnydd tir, buddsoddi mewn byd natur a defnyddio adnoddau yn gynaliadwy.

Drwy osod agenda glir, rydym yn helpu i lunio penderfyniadau gwell ar gyfer y dyfodol.





1. Creu strategaeth defnydd tir genedlaethol i gydbwyso'r anghenion o ran hinsawdd, bywyd gwyllt, diogelwch bwyd, tai ac ynni.
2. Rhoi pwerau sancsiwn sifil cryfach i reoleiddwyr fel y gallant weithredu'n gyflym a dwyn llygrwyr i gyfrif.
3. Gwaredu defnydd dianghenraid o PFASau (cemegion tragwyddol) niweidiol yn raddol a gosod terfynau cyfreithiol ar gyfer halogiad dŵr.
4. Cefnogi modelau economi gylchol, gan wneud busnesau'n gyfrifol am gynhyrchion ar ôl iddynt gael eu defnyddio.
5. Buddsoddi mewn gwytnwch hinsawdd ac effeithlonrwydd ynni, gan ymgorffori'r ddau mewn rheolau cynllunio.
6. Cyflwyno strategaeth sgiliau gwyrdd genedlaethol, gan ariannu prentisiaethau ac ailsgilio ar gyfer swyddi gwyrdd.
7. Sefydlu cronfa buddsoddiad gwyrdd i Gymru er mwyn adfer natur a sicrhau seilwaith glân.
8. Gwneud i bob corff cyhoeddus gynllunio ar gyfer risgiau newid hinsawdd a pharatoi ar gyfer dyfodol eu gwasanaethau.
9. Rhoi'r gorau i adeiladu ar orlifdiroedd, gan adolygu safleoedd presennol a newydd a chyflwyno rheolau llymach.
10. Uno cynlluniau rheoli maethynnau i leihau llygredd ac amddiffyn pridd, dŵr ac aer.

Gwella sut rydym yn gweithio er budd byd natur a phobl

Ein taith gynaliadwyedd

Mae ein Cynllun Sero Net yn fap ffordd ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chwarae ein rhan wrth greu dyfodol carbon isel i Gymru. Mae'n nodi'r camau ymarferol rydym yn eu cymryd i leihau allyriadau ym mhob agwedd ar ein gwaith - o'n cerbydau i'n ynni i'r nwyddau i'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar leihau allyriadau o'n gweithgareddau o ddydd i ddydd. Ar yr un pryd, mae'n cefnogi diogelu a chynyddu storfeydd carbon naturiol, megis coetiroedd a mawndiroedd, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae nodau ac amcanion clir yn ein helpu i gadw ar y trywydd cywir.

Fel corff cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn arwain drwy esiampl. Bydd lleihau allyriadau yn helpu i arafu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, tra bydd ecosystemau iachach yn gallu storio mwy o garbon ac ymdopi'n well â thywydd eithafol. Gall ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio hefyd leihau costau a chynyddu ein gwytnwch yn y tymor hir.

I bobl a chymunedau ledled Cymru, mae'r manteision yn eang. Gall gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd helpu i leihau risgiau fel llifogydd a gwres eithafol, tra hefyd yn cefnogi aer glanach, lleoedd iachach i fyw a gweithio, ac economïau lleol cryfach.

Mae ein dylanwad yn ymestyn y tu hwnt i'n hôl troed carbon ein hunain. Trwy ein cyngor, ein gwaith rheoleiddio a'n partneriaethau, rydym yn helpu busnesau, sefydliadau a chymunedau i gymryd camau i leihau allyriadau ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

Cynnydd yn 2025-26

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol:

- Trafnidiaeth: ehangu trydaneiddio ein fflyd o geir a faniau bach drwy osod mwy o fannau gwefru cerbydau trydan a disodli cerbydau diesel ar raddfa fawr.
- Adeiladau: datblygu cynlluniau i gyflwyno systemau gwresogi carbon isel mewn safleoedd allweddol a datblygu offeryn i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'n hadeiladau.
- Rheoli Tir: parhau i gynyddu nifer yr hectarau o fawndiroedd diraddedig sy'n cael eu hadfer, gan helpu i leihau allyriadau carbon a gwella gwydnwch cynefinoedd.
- Cadwyn Gyflenwi: gweithio gyda rhai o'n cyflenwyr mwyaf i leihau allyriadau a chyflwyno gofynion adrodd ar garbon ar gyfer contractau mwy.

Mae ein Cynllun Sero Net wedi'i gynllunio i sicrhau cynnydd cyson yn y tymor hir. Drwy osod camau gweithredu clir, monitro perfformiad a dysgu o'n profiadau, gallwn barhau i wella a chynyddu ein heffaith.

Yn syml, mae'n ymwneud â lleihau ein heffaith ar yr hinsawdd tra'n helpu i greu Cymru sy'n iachach, yn gryfach ac yn well parod ar gyfer y dyfodol.



Beth effeithiodd ar ein perfformiad yn 2025-26

Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i Gymru.

Y Bwrdd sy'n gosod y cyfeiriad cyffredinol ac yn dal y sefydliad i gyfrif. Y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol sy'n arwain ar gyflawniad o ddydd i ddydd, gan reoli perfformiad, risg a'r defnydd o adnoddau.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cael ein llywodraethu, gan gynnwys rôl y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Fel y dengys yr Adroddiad Perfformiad hwn, mae ein gwaith yn 2025–26 yn adlewyrchu cyflawniad cryf ac amgylchedd gweithredu heriol.



Galw cynyddol a phwysau ar y system

Parhaodd y galw am ein gwasanaethau i dyfu yn ystod y flwyddyn, yn enwedig mewn meysydd fel rheoleiddio dŵr, rheoli perygl llifogydd a chyngor ar gynllunio datblygiadau.

Ar yr un pryd, mae'r heriau amgylcheddol rydym yn mynd i'r afael â nhw yn dod yn fwy cymhleth a rhyng-ddibynnol.

Mae hyn yn golygu:

- bod angen mwy o weithgarwch i gyflawni'r un canlyniadau
- bod cynnydd yn aml yn dibynnu ar gamau gweithredu gan bartneriaid a systemau ehangach
- bod rhai newidiadau, yn enwedig o ran adfer byd natur ac ansawdd dŵr, yn cymryd amser cyn dod yn weladwy.

Capasiti a gweithlu

Gwnaethom barhau i recriwtio i rolau blaenoriaeth, gan gryfhau ein capasiti mewn meysydd allweddol.

Fodd bynnag:

- rhoddodd y gweithgarwch recriwtio a'r angen i gefnogi staff newydd yn ystod eu cyfnod sefydlu bwysau tymor byr ar dimau
- mae galw mawr am sgiliau arbenigol o hyd
- mae angen amser i staff newydd ddod yn gwbl effeithiol

Gwnaethom ymateb drwy flaenoriaethu gwaith risg uchel, defnyddio modelau gweithlu hyblyg a chryfhau gweithgarwch hyfforddi a chefnogi. Mae'r camau hyn wedi helpu i sefydlogi cyflawniad, er bod capasiti yn parhau i effeithio ar gyflymder cynnydd mewn rhai meysydd.

Beth effeithiodd ar ein perfformiad yn 2025-26

Dibyniaeth ar gyflawniad ehangach

Mae llawer o'r canlyniadau rydym yn gweithio tuag atynt yn dibynnu ar weithredu y tu hwnt i CNC, yn enwedig o ran:

adfer byd natur

ansawdd dŵr

gwydnwch hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, sychder a thanau gwyllt

Risgiau allweddol sy'n dylanwadu ar gyflawniad

Parhaodd nifer fach o risgiau allweddol i effeithio ar berfformiad yn ystod y flwyddyn:

- galw sy'n fwy na'r capasiti mewn rhai gwasanaethau
- pwysau o ran y gweithlu a sgiliau, yn enwedig mewn meysydd arbenigol
- dibyniaeth ar bartneriaid a systemau ehangach i gyflawni canlyniadau cyffredin
- cyfyngiadau o ran data a systemau digidol, sy'n effeithio ar effeithlonrwydd a mewnwelediad

Gwnaethom reoli'r risgiau hyn drwy flaenoriaethu, gwella perfformiad a rheoli risg, a thrwy dargedu buddsoddiad mewn gallu a systemau.

Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a rheoli risg yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Gwella sut rydym yn cyflawni

Ochr yn ochr â chyflawni, rydym wedi cryfhau sut rydym yn gweithredu drwy wneud y canlynol:

- gwella prosesau cynllunio a blaenoriaethu
- cryfhau'r defnydd o dystiolaeth i dargedu ymdrech
- gwella perfformiad a rheoli risg
- buddsoddi mewn data a systemau digidol

Mae'r newidiadau hyn yn cefnogi cyflawniad mwy effeithiol a byddant yn helpu i wella cysondeb ac effaith dros amser.



Ein pobl

Ar 31 Mawrth 2026, roeddem yn cyflogi 2,492 o bobl. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom recriwtio i rolau blaenoriaeth, gan gryfhau ein gwasanaethau a'n gallu i gyflawni ein gwaith. Er bod hyn wedi rhoi sgiliau a chapasiti ychwanegol i'r sefydliad, bu hefyd angen amser ac ymrwymiad gan dimau i gefnogi a hyfforddi cydweithwyr newydd.

Rydym yn adeiladu gweithlu sy'n hyblyg ac yn barod i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Rydym yn defnyddio penodiadau tymor penodol, staff dros dro a chymorth arbenigol lle bo angen. Rydym yn defnyddio penodiadau tymor penodol, staff dros dro a chymorth arbenigol lle bo angen, fel na fydd angen newidiadau mawr i'n strwythr.

Arhosodd trosiant staff yn sefydlog ar 5.7% (2024-25: 6.2%). Mae hyn yn adlewyrchu gweithlu sefydlog, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i ddenu syniadau, profiadau a sgiliau newydd.

Rydym hefyd am greu gweithle teg a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu cyfrannu. Gwyddom fod amrywiaeth o gefndiroedd, profiadau a safbwyntiau yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell a'n gwasanaethau yn fwy effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd system recriwtio newydd i wella profiad ymgeiswyr a darparu gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad ein gweithlu.

Rydym hefyd yn datblygu rhaglenni graddedigion a phrentisiaethau newydd i ehangu mynediad at gyfleoedd i ystod ehangach o bobl.


Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau'n isel, sef 1.7%, ac mae pob cyflog yn uwch na'r Cyflog Byw Go lawn. Dyfarnwyd cynnydd cyflog o 3.72% yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cynrychiolaeth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau'n isel, ac rydym yn parhau i gymryd camau i wella hyn.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n hunaniaeth fel sefydliad. Mae tua 23% o gydweithwyr yn rhugl yn y Gymraeg, ac mae 31% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth 139 o gydweithwyr wella eu sgiliau Cymraeg, a chwblhaodd 76% hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Mae mentrau fel Clwb Clebran yn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus yn eu gwaith bob dydd.

Rydym hefyd wedi cyflwyno polisïau newydd, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, ac wedi parhau i fuddsoddi mewn dysgu, datblygu ac arweinyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn ein helpu i adeiladu gweithlu medrus, cynhwysol a gwydn sy'n barod ar gyfer y dyfodol.




Tîm Deorfa Cynrig yn ennill categori Pencampwr yr Amgylchedd yng Ngwobrau Dewi Sant 2026.



Arhosodd trosiant staff yn sefydlog ar 5.7%



Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau'n isel



o gydweithwyr wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Trosolwg ariannol

Rheolwyd ein cyllid yn ofalus yn ystod y flwyddyn, gan gynnal sefyllfa sefydlog wrth ymateb i'r galw cynyddol a phwysau amgylcheddol.

Cyfanswm ein cyllid oedd £288 miliwn, sy'n cynnwys y canlynol:

- **£149m o gyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru,** i gefnogi ein cyfrifoldebau craidd
- **£139m o daliadau, grantiau gan Lywodraeth Cymru ac incwm arall,** sy'n adlewyrchu ein rôl reoleiddiol a'n gwaith partneriaeth

Roedd gwariant yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **£135m - 41% ar gostau staff** – darparu'r bobl a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen gwasanaethau rheoleiddio, gweithrediadau a thystiolaeth
- **£131m - 40% ar gyflawni gweithredol** – gan gynnwys gwasanaethau o ddydd i ddydd megis rheoli perygl llifogydd, diogelu'r amgylchedd a rheoli tir
- **£62m - 19% ar fuddsoddiad cyfalaf** – cefnogi seilwaith, asedau a rhaglenni gwella hirdymor

Yn gyfan gwbl, cyfanswm ein gwariant yn ystod y flwyddyn oedd **£328 miliwn.**

Mae ein gwariant yn ymddangos yn uwch na'n hincwm, ond mae hyn yn ddisgwyliedig. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb ychwanegol wedi'i neilltuo at ddibenion cyfrifyddu penodol. Mae hyn yn cynnwys eitemau megis:

- dibrisiant (y gostyngiad yng ngwerth asedau dros amser)
- costau pensiwn
- addasiadau technegol eraill

Nid yw'r rhain yn cynrychioli gwariant arian parod o ddydd i ddydd, ond mae'n ofynnol eu cynnwys yn y cyfrifon.

Mae'r buddsoddiad hwn wedi caniatáu i ni wneud y canlynol:

- cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau yn ein Cynllun Busnes Blynyddol
- cynnal gwasanaethau craidd dan bwysau
- cryfhau gallu mewn meysydd blaenoriaeth fel ansawdd dŵr, tystiolaeth a pherygl llifogydd

Gwnaethom gynnal rheolaeth ariannol gref yn ystod y flwyddyn drwy flaenoriaethu clir, monitro rheolaidd a rhagolygon gwell. Mae hyn wedi caniatáu i ni aros yn ariannol sefydlog wrth ymateb i alw cynyddol ac amgylchedd gweithredu heriol.

Sefyllfa fwy sefydlog

Yn 2025–26, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i helpu gyda chostau cynyddol chwyddiant. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gynnal gwasanaethau a pharhau i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Cawsom hefyd gyllid ychwanegol ar gyfer meysydd blaenoriaeth pwysig, gan gynnwys gwaith ar domenni glo, diogelwch cronfeydd dŵr a pharatoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd fel y Ddeddf Cydsynio Seilwaith a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Parhaodd ein buddsoddiad mewn rhaglenni a ariennir yn allanol. Er gwaethaf ansicrwydd economaidd parhaus, arhosodd incwm o goedwigaeth ac ynni adnewyddadwy yn sefydlog ar £31 miliwn a £19 miliwn yn y drefn honno. Cynyddodd incwm o ffioedd hefyd, gan adlewyrchu'r egwyddor bod taliadau'n helpu i dalu cost darparu gwasanaethau.

Parhaodd rheolaeth ariannol gadarn yn flaenoriaeth drwy gydol y flwyddyn. Cafodd ein cyllideb ei monitro'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn gwario'n ddoeth ac yn ymateb i bwysau newydd wrth iddynt godi. Mae hyn wedi ein helpu i gynnal sefyllfa ariannol sefydlog mewn cyfnod heriol.


Perfformiad Taliadau

Parhaodd ein rheolaeth o daliadau ac incwm i fod yn gryf yn ystod y flwyddyn.


- Talu cyflenwyr: ein nod yw talu 95% o anfonebau cyflenwyr o fewn 30 diwrnod. Eleni talwyd 98% yn brydlon.
- Perfformiad taliadau a dyledion: yr amser cyfartalog i gwsmeriaid pren dalu oedd 2 ddiwrnod, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (0.75 diwrnod) ond o fewn ein targed o hyd.
- Dyled reoleiddiol: mae lefel y ddyled reoleiddiol sy'n weddill ar draws pob llif incwm wedi gwella, gan ostwng i 7.6%, yn agos at ein targed o 7.5% ac yn well na'r flwyddyn flaenorol (7.89%).

Fodd bynnag, mae'r galw am ein gwasanaethau a maint yr heriau amgylcheddol yn parhau i fod yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i:

- flaenoriaethu gweithgarwch lle bydd yn cael yr effaith fwyaf
- gwella effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau canlyniadau ar raddfa ehangach



costau staff




cyflawni gweithredol



buddsoddiad cyfalaf



cyflenwyr wedi'u talu mewn pryd



dyled rheoleiddiol

Atodiad

Cynllun Busnes Blynyddol 2025-26 – rhestr o ymrwymiadau manwl i gyflawni ein hamcanion llesiant

Mae'r tabl hwn yn nodi'r rhestr lawn o ymrwymiadau a wnaethom yn y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2025–26, ynghyd â'r perfformiad chwarterol yn erbyn yr ymrwymiadau hyn gan ddefnyddio sgorau Coch-Ambr-Gwyrdd (RAG).

Ceir rhagor o wybodaeth am sut gwnaethom gyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau hyn a sut maent yn cyfrannu tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'n Cynllun Corfforaethol yn yr adroddiad Dadansoddiad o Berfformiad.



Ymrwymiad Cynllun Busnes Blynyddol 2025-26	2025-26			
	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Cefnogi adferiad natur (Amcan Llesiant 1: Byd natur wrthi'n gwella)				
Y1: Gweithredu blaenoriaethau yn rhaglen Rhwydweithiau Natur CNC i gynnal a gwella gweithgarwch rheoli safleoedd gwarchodedig yn effeithiol				
Y2: Cyfuno tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ail-hysbysu safleoedd sy'n cyfrannu at y targed 30:30				
Y3: Adolygu cynllun cyflawni pedair blynedd rhaglen bartneriaeth Natur am Byth i werthuso a mireinio, yn ôl yr angen, y camau gweithredu ar gyfer y rhywogaethau sydd yn y perygl mwyaf o ddiflannu yn ystod dwy flynedd olaf y rhaglen				
Y4: Cyfathrebu a meithrin dealltwriaeth o gyflwr y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig i lywio camau gweithredu a gwelliannau wedi'u targedu				
Y5: Integreiddio tystiolaeth adfer natur i broses y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a rheolaeth yr AHNEau a Pharciau Cenedlaethol presennol i wella'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer natur				
Y6: Datblygu'r capasiti a'r gallu o fewn CNC i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, gan ddarparu aml-fanteision a chyfleoedd amryfal ar gyfer natur a phobl				
Y7: Rhoi Mai Di-dor ar waith, treialu dulliau newydd o weithio gyda byd natur ar y tir a'r asedau rydym yn eu rheoli, a nodi argymhellion wedi'u blaenoriaethu				
Y27: Dadlau dros a chefnogi'r defnydd o'r dystiolaeth ddiweddaraf am hinsawdd, natur a llygredd (gan gynnwys yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim ar gyfer 2025) wrth wneud penderfyniadau ymhlith ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn hwyluso dull cydweithredol o gyflawni				
Y28: Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am gyfleoedd i ysgogi camau gweithredu dros natur a'r hinsawdd ac i leihau llygredd trwy ein cyflenwyr a'n partneriaid a gyflwynir trwy ein Strategaeth Caffael a Chontractau				

Ymrwymiad Cynllun Busnes Blynyddol 2025-26	2025-26			
	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Meithrin y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd (Amcan Llesiant 2: Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd)				
Y8: Buddsoddi mewn meithrin gallu er mwyn galluogi cyflenwi yn 2025–26 ac ehangu'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn y dyfodol				
Y9: Cryfhau gallu a thystiolaeth i lywio blaenoriaethu gofodol er mwyn galluogi adferiad effeithiol yn y dyfodol o fewn cynefinoedd morol ac arfordirol				
Y10: Datblygu dull dalgylch integredig yn afon Taf, gan ddefnyddio 'Cynllun Rheoli Llifogydd Strategol Dalgylch Afon Taf' i hwyluso gweithredu ar y cyd i gefnogi cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd				
Y11: Adolygu'r dull blaenoriaethu ar gyfer cynnal a rheoli asedau llifogydd i sicrhau bod ein buddsoddiad yn seiliedig ar risg				
Y12: Cyflenwi prosiectau cyfalaf a chynnal lefelau amddiffyn eiddo i leihau'r perygl o lifogydd				
Y13: Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd a'r system telemetreg i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnal parhad gwasanaeth i gwsmeriaid				
Y14: Datblygu cyngor, canllawiau ac offer ar gyfer technegau a seilwaith carbon isel, gan gynnwys dal carbon a hydrogen, er mwyn gwella ansawdd ceisiadau a gyflwynir gan y diwydiant a lleihau'r amser sydd ei angen i wneud penderfyniadau ar geisiadau am drwyddedau unigol				
Y15: Gwella tystiolaeth, canllawiau a chyngor cyn ymgeisio i wella ansawdd cyflwyniadau ar gyfer caniatâd cynllunio a cheisiadau am drwyddedau				
Y16: Blaenoriaethu camau gweithredu sydd â'r budd cost mwyaf ar gyfer carbon deuocsid a'i gyfatebol (CO_2e) / nwyon tŷ gwydr i gyflawni ein blaenoriaethu blynyddol o fewn y Cynllun Sero Net				
Y17: Gweithredu Cynllun Cyflawni Sero Net Cyfoeth Naturiol Cymru 2025–30 i gyflawni camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu y cytunwyd arnynt (sy'n ymwneud ag allyriadau Cwmpas 3 yn ein cadwyn gyflenwi)				

Ymrwymiad Cynllun Busnes Blynyddol 2025-26	2025-26			
	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Lleihau llygredd (Amcan Llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf)				
Y18: Cynnal archwiliadau fferm o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol, yn unol â'r polisi cosbau gorfodi, i leihau llygredd				
Y19: Cynnal ymweliadau cydymffurfio â safleoedd a reoleiddir â blaenoriaeth i leihau llygredd				
Y20: Gweithredu gweithgareddau rheoleiddio wedi'u targedu ar gyfer sectorau busnes allweddol a darparwyr gwasanaethau gwastraff i wella cydymffurfedd â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle				
Y21: Darparu her a chyngor i gwmnïau dŵr i sicrhau bod eu rhaglenni buddsoddi yn lleihau risgiau ac effeithiau eu gweithrediadau ar yr amgylchedd				
Y22: Gosod yr uchelgais ar gyfer gwella ansawdd dŵr ar raddfa dalgylch er mwyn meithrin cydweithrediad a chyflenwi camau gweithredu â blaenoriaeth				
Y23: Ymgorffori newidiadau i'r dull rheoli digwyddiadau a ffyrdd o weithio i alluogi ymateb â blaenoriaeth i ddigwyddiadau, gan ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf				
Y24: Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n sbarduno digwyddiadau llygredd ledled Cymru er mwyn llywio'r camau gweithredu sydd eu hangen i leihau llygredd a sicrhau bod ein hymateb i ddigwyddiadau wedi'i dargedu ac yn effeithiol i gefnogi'r nod hwnnw				
Y25: Cynnal ymchwiliadau a chamau gorfodi i leihau niwed amgylcheddol				
Y26: Cryfhau ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector i wneud y mwyaf o weithredu ar y cyd ar dipio anghyfreithlon				



4

Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd hwn yn esbonio sut mae CNC wedi cael ei lywodraethu a sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o ran defnyddio arian cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026

Cyflwyniad i'n trefniadau llywodraethu

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut cawsom ein llywodraethu yn ystod y flwyddyn a sut gwnaethom ddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae'n dangos:

- sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud
- sut mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli
- sut rydym yn cael ein dal i gyfrif.

Mae'n dwyn ynghyd y wybodaeth sydd ei hangen ar y Senedd, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd i ddeall sut rydym yn gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM).

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys

Mae tair rhan i'r adroddiad:

1

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Sut rydym yn cael ein harwain a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u goruchwylio

2

Adroddiad Cyflogau a Staff

Cyflogau aelodau'r Bwrdd ac uwch staff a gwybodaeth am y gweithlu

3

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Atebolrwydd ariannol ac archwilio allanol

Mae ein Prif Weithredwr wedi'i ddynodi fel Swyddog Cyfrifyddu CNC ac mae'n bersonol gyfrifol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol a bod y sefydliad yn cadw cyfrifon cywir.

Mae'r datganiad canlynol yn nodi'r cyfrifoldebau hyn, gan gynnwys y gofyniad i baratoi cyfrifon sy'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

Mae paragraff 23(1) yr Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r sefydliad ac o'r incwm a'r gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol:

- Arsylwi'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn y FReM wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiadau materol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- Cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam posibl i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr CNC fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn ffordd ddarbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gormodedd; a defnyddio'r holl adnoddau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol fel y nodir yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu CNC.

1

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut rydym yn rheoli gweithgarwch llywodraethu, risg a sicrwydd. Mae'n nodi sut mae cyfrifoldebau'n cael eu diffinio, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u goruchwylio, a sut rydym yn cynnal systemau effeithiol o reolaeth fewnol.

1. Trosolwg

Trosolwg o Lywodraethu

Llywodraethu yw sut rydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli'r sefydliad i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Mae'n cynnwys sut rydym yn gosod blaenoriaethau, yn gwneud penderfyniadau, yn goruchwylio cyflawniad ac yn rheoli risg.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi cyflawniad ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes Blynyddol, a'n rôl wrth reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ein fframwaith statudol

Rydym yn gorff statudol a gafodd ei sefydlu gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae ein swyddogaethau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, gan gynnwys Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 a darpariaethau statudol perthnasol eraill.

Mae hyn yn diffinio ein rôl, ein pwerau a'n cyfrifoldebau, gan gynnwys rheoleiddio amgylcheddol, rheoli tir a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn gweithredu'n annibynnol fel Corff Hyd Braich, o fewn y trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru.

Ein atebolrwydd

Rydym yn atebol i Lywodraeth Cymru. Mae'r berthynas hon wedi'i nodi yn ein Dogfen Fframwaith a Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, sy'n diffinio ein blaenoriaethau a'n disgwyliadau.

Rydym hefyd yn atebol i'r Senedd. Mae Pwyllgorau'r Senedd yn adolygu ein gwaith, ac mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac uwch arweinwyr yn cael eu galw i roi tystiolaeth am ein perfformiad.

Yn ystod 2025–26, gwnaeth y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Gwnaethom hefyd gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi gwaith y pwyllgor.

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein penderfyniadau a'n perfformiad, ac yn adrodd yn gyhoeddus drwy ein Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Ein strwythur llywodraethu

Mae ein trefniadau llywodraethu yn dod â'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol ynghyd:

- mae'r Bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth
- mae pwyllgorau'n darparu craffu a sicrwydd manwl
- mae'r Tîm Gweithredol yn cyflawni blaenoriaethau ac yn rheoli risg

Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cefnogi penderfyniadau effeithiol, goruchwyliaeth gadarn ac atebolrwydd clir.

Ein Bwrdd

Y Bwrdd sy'n darparu ein harweinyddiaeth gyffredinol. Mae'n gosod cyfeiriad strategol y sefydliad ac yn goruchwylio cyflawniad a pherfformiad, gan gynnwys y defnydd o adnoddau cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd:

- yn gosod blaenoriaethau strategol ac yn cymeradwyo cynlluniau a strategaethau allweddol
- yn dal y Tîm Gweithredol i gyfrif o ran cyflawniad
- yn goruchwylio risg, perfformiad a'r defnydd o adnoddau
- yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith

Y Cadeirydd sy'n arwain y Bwrdd ac yn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio'n glir ar ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau.

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Bwrdd ar y canlynol:

- cyflawni'r Cynllun Corfforaethol
- cryfhau prosesau rheoli risg a sicrwydd
- cynaliadwyedd ariannol a blaenoriaethu adnoddau
- datblygiad sefydliadol, gan gynnwys y gweithlu a galluedd
- goruchwylio risgiau gweithredol ac amgylcheddol mawr

1. Trosolwg

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan bwyllgorau sy'n darparu prosesau craffu a sicrwydd manwl.

Mae pob pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gadeirio gan aelod anweithredol, ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd, gan roi sicrwydd o fewn ei faes cyfrifoldeb.

Mae rhagor o wybodaeth am bwyllgorau'r Bwrdd ar gael isod.

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Ein Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'n bersonol gyfrifol am y canlynol:

- defnyddio arian cyhoeddus yn briodol
- effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- cynnal systemau cadarn o ran llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol
- paratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gefnogi yn y rôl hon gan y Tîm Gweithredol a gan y sicrwydd a gaiff ei ddarparu drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau.


Ein Arweinyddiaeth Weithredol

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y Prif Weithredwr, a'r Tîm Gweithredol.

Mae'r Tîm Gweithredol yn atebol i'r Prif Weithredwr ac yn arwain rheolaeth CNC o ddydd i ddydd. Mae'n gyfrifol am y canlynol:

- cyflawni ein blaenoriaethau
- rheoli perfformiad ariannol a gweithredol
- nodi a rheoli risgiau
- sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol yn gweithio yn ymarferol

Mae'r Tîm Gweithredol yn cefnogi'r Bwrdd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a goruchwylio.



1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Mae'r adran hon yn nodi aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, 11 aelod anweithredol a'r Prif Weithredwr (sy'n aelod gweithredol o'r Bwrdd).

Mae aelodau anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus. Mae aelodau'r bwrdd yn dod ag ystod o brofiad a sgiliau i gefnogi'r gallu i wneud penderfyniadau effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn:

- Penodwyd Neil Sachdev yn Gadeirydd o 1 Tachwedd 2025
- Gwasanaethodd Syr David Henshaw fel Cadeirydd tan 31 Hydref 2025
- Gwasanaethodd yr Athro Steve Ormerod fel Dirprwy Gadeirydd tan 31 Mawrth 2026
- Gwasanaethodd Helen Pittaway fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Mae manylion aelodaeth y Bwrdd a'r tymor penodi ar gael isod.



Aelodau anweithredol	Tymor	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen cyfredol
Neil Sachdev (Cadeirydd newydd)	1af	1 Tachwedd 2025	31 Hydref 2029
Syr David Henshaw (Cadeirydd blaenorol)	2il	1 Tachwedd 2018	31 Hydref 2025
Yr Athro Steve Ormerod	2il	1 Tachwedd 2018	31 Mawrth 2026
Yr Athro Calvin Jones	2il	1 Medi 2021	31 Hydref 2028
Mark McKenna	2il	1 Medi 2021	31 Hydref 2028
Dr Peter Fox	1af	16 Chwefror 2023	31 Hydref 2026
Helen Pittaway	1af	16 Chwefror 2023	31 Hydref 2026
Kathleen Palmer	1af	16 Chwefror 2023	31 Mai 2025
Yr Athro Rhys Jones	1af	16 Chwefror 2023	31 Hydref 2027
Lesley Jones	1af	1 Mehefin 2023	31 Hydref 2026
Karen Balmer	1af	1 Gorffennaf 2025	31 Mawrth 2026
Adam Taylor	1af	1 Ebrill 2025	31 Hydref 2029
Dr Hushneara Begum	1af	1 Ebrill 2025	31 Hydref 2029
Dr Rebecca Colley-Jones	1af	1 Ebrill 2025	31 Hydref 2029
Aelodau anweithredol a benodwyd ar 1 Ebrill 2026			
Mair Gwynant (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg)	1af	1 Ebrill 2026	31 Mawrth 2031
Sarah Albon	1af	1 Ebrill 2026	31 Mawrth 2031

Mae cofrestrau buddiannau aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC.

1. Aelodaeth y Bwrdd a’r Tîm Gweithredol

Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae’r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio cyflawniad a chefnogi’r broses o wneud penderfyniadau. Lle bo’n bosibl, cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus a gellir eu gwylio ar-lein.

Mae eitemau sefydlog ar yr agenda yn cynnwys:

- perfformiad a chyflawniad sefydliadol
- perfformiad ariannol
- diweddariadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a’r pwyllgorau

Cyhoeddir agendâu, papurau a chofnodion ar ein gwefan.

Ymgysylltu â’r cyhoedd

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Bwrdd raglen o ddigwyddiadau “Sgyrsiau gyda CNC”. Mae’r rhain yn ffordd fwy agored a hygyrch o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym mis Mawrth 2026, gyda digwyddiadau pellach wedi’u cynllunio.



1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Presenoldeb

Nodir isod grynodeb o bresenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.

Enw	Cyfarfodydd y Bwrdd	Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg	Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig	Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC)	Pwyllgor Cyllid	Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd	Pwyllgor Tir ac Ystadau	Pwyllgor Cynghori ar dystiolaeth
Neil Sachdev (Cadeirydd newydd)	6/6							
Syr David Henshaw (Cadeirydd blaenorol)	6/11				1/3			
Yr Athro Steve Ormerod	17/17		2/3			1/1		3/3 (Cadeirydd)
Dr Peter Fox	14/17				4/6	5/5 (Cadeirydd)	3/3	
Yr Athro Calvin Jones	15/17				5/6	4/5	3/3 (Cadeirydd)	
Lesley Jones	15/17	6/6	3/3	3/4	3/6 (ar secondiad)			
Yr Athro Rhys Jones	17/17	6/6						2/3
Mark McKenna	15/17			4/4			0/3 (ar secondiad)	
Helen Pittaway	14/17			4/4	6/6 (Cadeirydd)			
Ceri Davies (Prif Weithredwr)	16/17							
Karen Balmer	10/12	5/5						
Adam Taylor	17/17		3/3 (Cadeirydd)	4/4		4/4		
Dr Hushneara Begum	14/15	6/6	3/3				3/3	
Dr Rebecca Colley-Jones	13/15	6/6			1/6 (ar secondiad)	4/4		
Kathleen Palmer	0/4	0/1						

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Dangosir presenoldeb fel nifer y cyfarfodydd yr aethpwyd iddynt yn erbyn nifer y cyfarfodydd yr oedd yr aelod yn gymwys i fynd iddynt yn ystod ei dymor. Mae cofnod gwag yn dangos nad oedd yr aelod Bwrdd yn aelod o'r pwyllgor hwnnw.

Er mwyn sicrhau cworwm (y nifer lleiaf o aelodau sydd ei hangen er mwyn i gyfarfod fod yn ddilys), gall y Bwrdd benodi aelodau ychwanegol (a ddisgrifir uchod fel aelodau ar secondiad) i rai pwyllgorau. Gall yr aelodau hyn fynychu cyfarfodydd, ond nid oes gofyn iddynt fod yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Pwyllgorau ein Bwrdd

Rolau, cyfrifoldebau a meysydd ffocws y pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Rolau a chyfrifoldebau

Yn darparu sicrwydd annibynnol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar lywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol, gan gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau sicrwydd a gweithgarwch archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynd i holl gyfarfodydd y pwyllgor.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar gryfhau trefniadau rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys datblygu'r Gofrestr Risg a Sicrwydd Strategol a chraffu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Risg; Gwelliannau i reoli risg;
- Cynllun Archwilio Mewnol; Strategaeth Archwilio Fewnol 2025–30;
- Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

Pwyllgor Cyllid

Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r pwyllgor graffu a chynghori ar strategaeth ariannol, cyllidebau, cynlluniau ariannol, cynlluniau tâl a rheolaeth ariannol yn y flwyddyn, ac i wneud penderfyniadau o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno. Mae'r pwyllgor yn rhoi sicrwydd ar reolaeth ariannol a defnyddio adnoddau yn effeithiol.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynd i holl gyfarfodydd y pwyllgor.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar berfformiad ariannol a chynaliadwyedd, gan gynnwys cynllunio busnes ar gyfer 2026–27 a goruchwylio rhaglenni allweddol fel NRW2030.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn;
- Cynllunio ariannol a busnes ar gyfer 2026–27; Adolygiad blynyddol o ffioedd;
- Rheoli rhaglenni a chontractau;
- Cyflawni rhaglenni strategol (gan gynnwys NRW2030);
- Elfennau o berfformiad yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Rolau a chyfrifoldebau

Yn darparu goruchwyliaeth o strategaeth y gweithlu, datblygiad sefydliadol a gwasanaeth cwsmeriaid, gan gynnwys llesiant, iechyd a diogelwch, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn cefnogi'r Bwrdd i sicrhau bod gan y sefydliad y gallu a'r diwylliant i gyflawni ei flaenoriaethau.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynd i holl gyfarfodydd y pwyllgor.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor yn arbennig ar lesiant y gweithlu, cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Pobl, a chryfhau ymgysylltiad â chwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Iechyd, diogelwch a llesiant (gan gynnwys adolygiadau o ran diogelwch ymwelwyr a digwyddiadau);
- Strategaeth Pobl; ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid;
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Rolau a chyfrifoldebau

Yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r gwaith o oruchwylio strategaeth perygl llifogydd, rhaglenni buddsoddi a pherfformiad cyflawniad i'r pwyllgor, gan gynnwys craffu ar risgiau allweddol ac effeithiolrwydd gweithredol.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar flaenoriaethu a chyflawni perygl llifogydd, gan gynnwys goruchwylio'r rhaglen gyfalaf, gwaith adfer llifogydd a diogelwch cronfeydd dŵr gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud ag Ardaloedd Draenio Mewnol.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Llywodraethu'r rhaglen gyfalaf;
- Y rhaglen weithredu ar gyfer adfer ac adolygu ar ôl llifogydd; Diogelwch cronfeydd dŵr;
- Rheoli asedau; Ardaloedd Draenio Mewnol

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo nifer o'i gyfrifoldebau statudol ar gyfer safleoedd a thirweddau dynodedig i'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn craffu ac yn rhoi cyngor ar raglenni cadwraeth, datblygiad polisïau a phenderfyniadau gwaith achos allweddol sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar gyflawni'r Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ochr yn ochr â meysydd polisi a datblygu allweddol gan gynnwys y Parc Cenedlaethol arfaethedig a Phrosiect Mapio Cymru Gyfan.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Cyngor ar gadwraeth forol;
- Prosiect Arddangos Afon Teifi

Y Pwyllgor Tir ac Ystadau

Rolau a chyfrifoldebau

Cefnogi'r Bwrdd i oruchwylio'r gwaith o reoli ystad dir CNC. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r pwyllgor y cyfrifoldeb dros graffu ar ddefnydd tir, buddsoddiad, gweithgarwch masnachol a stiwardiaeth hirdymor ar gyfer asedau, gan gynnwys penderfyniadau o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar reoli a defnyddio'r ystad dir, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, hamdden, ac integreiddio perygl llifogydd a stiwardiaeth tir.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Cynhyrchu pren;
- Mawndiroedd;
- Canolfannau ymwelwyr

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Rolau a chyfrifoldebau

Yn darparu cyngor arbenigol annibynnol ar dystiolaeth a'i defnydd wrth wneud penderfyniadau, gan gryfhau ansawdd tystiolaeth, perthnasedd tystiolaeth a defnyddio tystiolaeth ar draws CNC.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau anweithredol o'r Bwrdd ac aelodau allanol annibynnol sydd ag arbenigedd arbenigol.

Ffocws allweddol yn ystod y flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar ddatblygu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi blaenoriaethau allweddol.

Roedd meysydd ffocws eraill yn cynnwys:

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR);
- Tystiolaeth o ran bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol;
- Tystiolaeth forol;
- Map Cymru Gyfan;
- Llygredd ac allyriadau atmosfferig;
- Tystiolaeth o ran cynigion ar gyfer Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru

Mae gan CNC nifer o fforymau rhanddeiliaid hefyd. Er nad yw'r rhain yn rhan o'r strwythur llywodraethu ffurfiol, mae aelodau anweithredol y Bwrdd wedi cadeirio, neu fynd i'r cyfarfodydd hyn.

Datblygu strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddechrau adolygu strwythur pwyllgorau'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o lywodraethu a chyflawni blaenoriaethau CNC yn effeithiol. Mae hyn yn canolbwyntio ar gryfhau goruchwyliaeth a symleiddio trefniadau.

Mae'r cynigion yn cynnwys cyflwyno Pwyllgor Cyflawni Strategol i ddarparu dull mwy integredig o graffu a goruchwylio. Bydd hyn yn cefnogi'r Bwrdd i ystyried cyflawni ein hamcanion llesiant ar draws y sefydliad, gan gynnwys meysydd nad ydynt ar hyn o bryd yn eistedd o fewn pwyllgor pwrpasol.

Bydd y newidiadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach a'u gweithredu yn ystod 2026–27.

Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol a bod ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi cyflawniad ein cyfrifoldebau.

Rydym wedi sefydlu rhaglen o adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y Bwrdd, yn unol â chanllawiau gan Swyddfa'r Cabinet.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gryfhau ein trefniadau llywodraethu, yn enwedig mewn perthynas â goruchwyliaeth, risg a sicrwydd. Mae hyn wedi gwella ein ffocws ar flaenoriaethau strategol, wedi cryfhau ein gallu i herio ac wedi cefnogi'r gallu i wneud penderfyniadau gwell.

Arweiniodd adolygiad ar ddiwedd 2024 at Gynllun Gweithredu Llywodraethu a Risg sy'n canolbwyntio ar egluro rolau, gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Bwrdd a chryfhau gweithgarwch craffu a gwneud penderfyniadau.

Cadarnhaodd adolygiad pellach ym mis Rhagfyr 2025 gynnydd da a nododd nifer bach o feysydd i'w gwella ymhellach. Mae Cynllun Gweithredu Effeithiolrwydd y Bwrdd wedi'i gymeradwyo i ymgorffori'r gwelliannau hyn.

Bydd ein hadolygiad effeithiolrwydd nesaf yn cael ei hwyluso'n allanol, fel y cytunwyd arno gan y Bwrdd yn unol â chanllawiau gan Swyddfa'r Cabinet.

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Gwerthusiadau aelodau'r Bwrdd

Y Cadeirydd sy'n cynnal gwerthusiadau blynyddol aelodau anweithredol y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, gan gynnwys adolygiad o berfformiad a gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y Prif Weithredwr yn cynnal gwerthusiadau canol blwyddyn a gwerthusiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan adolygu perfformiad a gosod amcanion i gefnogi cyflawniad ein blaenoriaethau. Mae hyn yn cefnogi gwelliant parhaus o ran perfformiad arweinyddiaeth.



Y Tîm Gweithredol

Y Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth CNC o ddydd i ddydd ac mae'n gweithredu o fewn y fframwaith strategol sydd wedi'i osod gan y Bwrdd.

Mae'r Tîm Gweithredol yn cefnogi cyflawniad Cynllun Corfforaethol, Cynllun Busnes Blynyddol a chyfrifoldebau statudol CNC, ac mae'n gyfrifol am berfformiad sefydliadol, rheolaeth ariannol a rheoli risg.

Mae'r Tîm Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd i wneud y canlynol:

- goruchwylio cyflawniad blaenoriaethau a'r Cynllun Busnes Blynyddol
- adolygu gwybodaeth ariannol a pherfformiad
- monitro risgiau sefydliadol a strategol
- ystyried a gwneud penderfyniadau ar faterion strategol, polisi a gweithredol

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd gwelliannau pellach i weithrediad y Tîm Gweithredol, gan gryfhau ei ffocws ar wneud penderfyniadau, goruchwylio a chyflawni.

Gan adrodd i'r Tîm Gweithredol, mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn chwarae rhan allweddol wrth reoli gwaith CNC o ddydd i ddydd. Mae ei aelodau yn Benaethiaid Adran sy'n gyfrifol am gyflawniad ar draws y sefydliad.

Mae strwythur CNC yn cefnogi dull cyflawni sy'n canolbwyntio ar le. Mae Penaethiaid Lle yn gyfrifol am arwain cyflawniad swyddogaethau CNC mewn ardaloedd diffiniedig yng Nghymru, gan ddod â gweithgarwch ynghyd ar draws gwasanaethau ym mhob man.

1. Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Mae manylion aelodaeth y Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi isod.

Enw	Swydd	Hyd gwasanaeth yn y Tîm Gweithredol
Ceri Davies	Prif Weithredwr	15 Hydref 2024 – Presennol
Dominic Driver	Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	16 Tachwedd 2024 – 14 Rhagfyr 2025
	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Cenedlaethol	01 Rhagfyr 2025 – Presennol
Gareth O'Shea	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	27 Ebrill 2015 – 31 Ionawr 2026
Lyndsey Rawlinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Lle	1 Rhagfyr 2025 – Presennol
Prys Davies	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	1 Ebrill 2019 – 14 Rhagfyr 2025
	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth	15 Rhagfyr 2025 – Presennol
Rachael Cunningham	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	7 Medi 2020 – Presennol
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol	7 Medi 2020 – Presennol
Louise White	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Cyfleusterau a'r Fflyd	21 Ebrill 2025 – Presennol

Mae cofrestrau buddiannau aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn cael eu cadw a'u cyhoeddi ar wefan CNC.

Cyfarwyddiadau gweinidogol

Cyfarwyddiadau ffurfiol sy'n cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yw Cyfarwyddiadau Gweinidogol. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni ein swyddogaethau neu roi ein pwerau ar waith mewn ffordd benodol.

O fewn ein fframwaith statudol, gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi Cyfarwyddiadau i sicrhau bod ein swyddogaethau'n cael eu harfer yn unol â pholisïau neu ofynion deddfwriaethol y llywodraeth.

Yn ystod 2025–26, cawsom ddau Gyfarwyddyd:

Terfynau Gwerth ar gyfer Allyriadau (ELVs

Cyhoeddwyd mewn perthynas â thanwyddau newydd a ddefnyddir mewn gweithfeydd hylosgi canolig, yn weithredol o 1 Mai 2026. Mae hyn yn ein galluogi i osod a diweddaru ELVs gan ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i gynnal neu wella gweithgarwch diogelu'r amgylchedd.

Cyfarwyddyd Ynni Adnewyddadwy (RED)

Yn weithredol o 1 Gorffennaf 2026. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn galluogi tanwyddau penodol i gael eu trin fel rhai sy'n gymwys ar gyfer hawliadau lleihau allyriadau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, yn amodol ar amodau diffiniedig.

Ein fframwaith rheolaethau mewnol

Rheolaethau Mewnol yw'r gwiriadau a'r prosesau a ddefnyddir i reoli risg a darparu sicrwydd rhesymol y byddwn yn cyflawni ein hamcanion, yn diogelu arian cyhoeddus ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol. Maent yn cael eu gweithredu drwy bolisïau, gweithdrefnau a rheolaethau sydd wedi'u hymgorffori mewn gweithgarwch o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad.

Mae ein system rheolaeth fewnol yn rhan o system ehangach sy'n cynnwys polisïau, prosesau a threfniadau llywodraethu sy'n cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol a chyflawni ein hamcanion. Mae wedi'i gynllunio i ddarparu sicrwydd rhesymol y byddwn yn cyflawni ein hamcanion, yn diogelu arian cyhoeddus ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol. Mae'n cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

1. Rheoli risg

Rheoli risg

Rheoli risg yw sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion.

Mae'n rhan allweddol o'n trefniadau llywodraethu ac mae wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, diogelu adnoddau a chefnogi cyflawniad ein hamcanion llesiant.



Rheoli risg yn ymarferol

Mae rheoli risg wedi'i integreiddio i weithgarwch reolaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd:

- mae risgiau yn cael eu nodi a'u hasesu ar bob lefel yn y sefydliad
- mae camau priodol yn cael eu cymryd i reoli neu liniaru'r risgiau hynny
- mae risgiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u huwch-gyfeirio yn ôl y gofyn
- cynhelir adroddiadau am wybodaeth risg i gefnogi gwaith goruchwylio a gwneud penderfyniadau

Mae'r dull hwn yn sicrhau nad yw rheoli risg yn broses annibynnol, ond yn rhan o sut rydym yn gweithio.

Mae risgiau yn cael eu cofnodi a'u rheoli ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad, gyda llwybrau clir ar gyfer uwch-gyfeirio.

- Mae risgiau gweithredol a chyfarwyddiaeth yn cael eu rheoli gan dimau a chyfarwyddwyr yn rhan o gyflawniad o ddydd i ddydd.
- Mae risgiau strategol yn cael eu rheoli ar lefel y Tîm Gweithredol ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd, gan adlewyrchu'r risgiau mwyaf arwyddocaol i gyflawniad ein hamcanion.

Mae'r risgiau strategol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn craffu ar effeithiolrwydd y gwaith rheoli risg, ac mae'r Bwrdd yn ystyried lefel gyffredinol y risg a sut mae'n cael ei rheoli mewn perthynas â'n blaenoriaethau strategol.

Datblygiad parhaus

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gryfhau ein dull o reoli risg drwy wneud y canlynol:

- datblygu'r gofrestr risg strategol
- gwella strwythur ac eglurder ein risgiau strategol
- datblygu dull mwy ymarferol o ddelio â pharodrwydd i dderbyn risg
- symleiddio systemau a phrosesau i ymgorffori ac aeddfedu'r defnydd o reoli risg

Mae'r newidiadau hyn wedi gwella cysondeb a defnyddioldeb ar draws y sefydliad.

1. Rheoli risg

Y fframwaith rheoli risg

Mae ein Fframwaith a Strategaeth Rheoli Risg yn nodi sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau ar draws y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd adolygu a diweddaru'r set o risgiau strategol, gan leihau'r rhain i wyth risg wedi'u diffinio'n glir i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y bygythiadau mwyaf arwyddocaol i gyflawniad ein hamcanion.

Mae gan bob risg strategol berchennog wedi'i enwi ar lefel y Tîm Gweithredol, sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol a bod camau lliniaru ar waith.

Mae pob risg strategol wedi'i ddiffinio a'i strwythuro'n glir i gefnogi cysondeb o ran prosesau asesu, rheoli ac adrodd.

Ein parodrwydd i dderbyn risg

Mae parodrwydd i dderbyn risg yn diffinio lefel y risg a'r math o risg rydym yn barod i'w dderbyn wrth gyflawni ein hamcanion.

Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau cyson a gwybodus drwy osod disgwyliadau clir ynghylch sut dylid rheoli risg ar draws y sefydliad, ac yn ein helpu i esbonio lle rydym yn barod i dderbyn risgiau sydd wedi'u hystyried, er mwyn cyflawni ein hamcanion, a lle mae gennym agwedd fwy gofalus oherwydd ein cyfrifoldebau wrth reoli arian cyhoeddus, rheoleiddio gweithgarwch a diogelu pobl a'r amgylchedd.



Sut rydym yn defnyddio'r categorïau parodrwydd i dderbyn risg

Rydym yn defnyddio parodrwydd i dderbyn risg fel adnodd ymarferol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar draws y sefydliad. Mae'n ein helpu i benderfynu sut mae cyfleoedd a risgiau'n cael eu trin mewn gwahanol feysydd yn ein gwaith, gan sicrhau bod dewisiadau yn gyson â'n hamcanion a'n blaenoriaethau cyffredinol.

Rydym yn defnyddio'r diffiniadau canlynol o ran parodrwydd i dderbyn risg i lywio ein gwaith:

Gofalus

Yn ffafrio opsiynau diogel sydd â lefel isel o risg gynhenid a dim ond posibilrwydd cyfyngedig o fudd. Yn barod i oddef rhywfaint o risg wrth ddewis pa weithgarwch i'w gynnal i gyflawni cyflawniadau neu fentrau allweddol, lle rydym wedi nodi cwmpas i gyflawni budd sylweddol a/neu wireddu cyfle. Gallai gweithgarwch fydd yn cael ei gynnal gario lefel uchel o risg gynhenid sy'n cael ei ystyried yn risg y gellir ei reoli i raddau helaeth.

Agored

Yn barod i ystyried pob opsiwn a dewis yr un sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawniad llwyddiannus wrth ddarparu lefel derbyniol o fudd. Ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng tebygolrwydd uchel o gyflawni'n llwyddiannus a lefel uchel o fudd a gwerth am arian. Gallai'r gweithgarwch ei hun gario, neu gyfrannu at, lefel uchel o risg weddilliol.

Isafswm

Yn ffafrio opsiynau cyflawniad busnes diogel iawn sydd â lefel isel o risg gynhenid, heb i'r posibilrwydd am fuddion/elw fod yn yrrwr allweddol. Dim ond gweithgarwch sydd â lefel isel o risg gynhenid fydd yn cael ei gynnal.

Eager

Yn awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau yn seiliedig ar wneud y mwyaf o gyfleoedd a budd uwch posibl, hyd yn oed os yw'r gweithgarwch hwnnw yn cario risg weddilliol uchel iawn.

Gwrthwynebu

Mae osgoi risg ac ansicrwydd wrth gyflawni cyflawniadau neu fentrau allweddol yn amcan allweddol. Dim ond gweithgarwch sy'n cael ei ystyried heb unrhyw risg gynhenid fydd yn cael ei gynnal.

1. Rheoli risg

Deall ein parodrwydd i dderbyn risg yn ymarferol

Nid yw nodi parodrwydd i dderbyn risg yn golygu ein bod yn barod i dderbyn canlyniadau negyddol.

Er enghraifft, lle mae gennym barodrwydd agored, nid yw hyn yn golygu ein bod yn derbyn niwed i'r amgylchedd neu fethiant i gyflawni ein hamcanion.

Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r realiti, sef:

- mae rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu - yn enwedig yr argyfyngau o ran natur a'r hinsawdd - yn gymhleth ac yn ansicr
- mae cyflawni canlyniadau hirdymor yn gofyn am arloesedd, gweithio mewn partneriaeth a dulliau newydd
- gallai hyn gynnwys cymryd risgiau sydd wedi'u hystyried a'u rheoli

Mewn cyferbyniad, mewn meysydd fel:

- diogelwch a llesiant
- cydymffurfiaeth reoliadol
- defnyddio arian cyhoeddus

byddwn yn fwy gofalus, gyda goddefgarwch isel o ran methiant.

Mae parodrwydd i dderbyn risg felly yn disgrifio sut rydym yn mynd i'r afael â phenderfyniadau, nid pwysigrwydd y canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni.

Risgiau Strategol

Mae ein risgiau strategol yn adlewyrchu'r bygythiadau mwyaf arwyddocaol i gyflawniad ein hamcanion ac yn darparu ffocws clir ar gyfer gweithgarwch goruchwylio a rheoli y Bwrdd.

Mae risgiau strategol yn berchen i aelodau o'r Tîm Gweithredol ac yn cael eu hadolygu a'u herio'n rheolaidd. Darperir goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Bwrdd, gan sicrhau bod parodrwydd i dderbyn risg yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau CNC ac yn parhau i gefnogi prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau effeithiol.

Yn ymarferol, mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn fwy agored mewn meysydd sy'n gofyn am arloesi a gweithio mewn partneriaeth, yn ofalus mewn meysydd fel rheoli ariannol, rheoleiddio a gwydnwch digidol, ac isafswm parodrwydd mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant.

Mae'r tudalennau nesaf yn dangos ein sefyllfa bresennol ar draws y sbectrwm, o osgoi risg (caeedig) i geisio risg (agored) ar gyfer pob maes risg strategol. Dyma ffordd syml a hygyrch o ddeall sut mae'r Bwrdd yn disgwyl i risg gael ei reoli yn ymarferol.

SR01: Risg i fywyd ac ansawdd bywyd

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn methu ag atal colli bywydau neu leihau ansawdd bywyd, yn nhermau digwyddiadau mawr a/neu drwy ei esgeulustod o ran iechyd, diogelwch a llesiant ar draws Ystad CNC, ei asedau ac o fewn ei amgylcheddau gwaith.

Parodrwydd i dderbyn risg: Isafswm

SR02: Bygythiadau amgylcheddol cynyddol

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg bod cyflymder newid ac amodau amgylcheddol sy'n cronni, megis digwyddiadau tywydd eithafol a cholli cynefinoedd oherwydd newid yn yr hinsawdd, yn tanseilio cyflawniad yr amcanion llesiant, yn rhagori ar allu CNC i ymateb i ddigwyddiadau mawr neu'n peryglu ymdrechion cadwraeth, camau ataliol ac ymdrechion adfer.

Parodrwydd i dderbyn risg: Agored

1. Rheoli risg

SR03: Aflonyddwch digidol mawr a thechnoleg newydd

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn dioddef aflonyddwch digidol, ymosodiadau seiber, methiannau yn y seilwaith TGCh ac nad yw'n cadw i fyny â thechnolegau/offer digidol newydd a/neu'n eu mabwysiadu.

Parodrwydd i dderbyn risg: Gofalus

SR04: Methiannau o ran cydweithio ac eirioli gyda rhanddeiliaid allanol allweddol

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn cydweithio ac yn eirioli'n annigonol neu'n aneffeithiol gyda rhanddeiliaid allanol allweddol, fel cyrff llywodraethol, cyrff anllywodraethol, partneriaid sy'n canolbwyntio ar leoedd, a'r sector preifat, gan arwain at ddull tameidiog neu bwrpas ac amcanion strategol nad ydynt yn cael eu cyflawni.

Parodrwydd i dderbyn risg: Agored

SR05: Pwysau ar adnoddau pobl

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn methu denu, dewis, cadw a datblygu personél medrus na chael mynediad at ddarparwyr gwasanaeth, sy'n cyfyngu ar ei gapasiti a'i allu i arwain, ymgysylltu, gweithredu a chynnal mentrau strategol yn effeithiol.

Parodrwydd i dderbyn risg: Agored

SR06: Pwysau ar adnoddau ariannol

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn methu sicrhau digon o gyllid neu ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael mewn ffordd ddigon hyblyg sy'n dangos defnydd effeithiol o arian cyhoeddus i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion strategol.

Parodrwydd i dderbyn risg: Gofalus

1. Rheoli risg

SR07: Methiant rheoleiddiol

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg bod CNC yn rheoleiddiwr aneffeithiol, neu y canfyddir ei fod yn rheoleiddiwr aneffeithiol, neu fod y rheoliad gofynnol yn absennol a/neu ddim yn addas i bwrpas, sy'n effeithio ar allu CNC i gynnal cydymffurfiaeth, ymgymryd â gweithgarwch gorfodi a chyflawni'r canlyniad dymunol, sef rheoleiddio.

Parodrwydd i dderbyn risg: Gofalus

SR08: Methiant o ran cyflawniad strategol

Digwyddiad risg/disgrifiad:

Y risg y bydd CNC yn methu cyflawni ei bwrpas a'i amcanion strategol yn unol â'r uchelgais sydd wedi'i ddatgan a'r gofynion deddfwriaethol oherwydd diffyg arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau, cynllunio, goruchwylio, cyflymder a chyflawni.

Parodrwydd i dderbyn risg: Agored

Yn ymarferol, mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn fwy agored mewn meysydd sy'n gofyn am arloesi a gweithio mewn partneriaeth, yn ofalus mewn meysydd fel rheoli ariannol, rheoleiddio a gwydnwch digidol, ac isafswm parodrwydd mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant.

Monitro ac adolygu

Mae'r Bwrdd yn adolygu parodrwydd CNC i dderbyn risg yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol a'n cyd-destun gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ystyried a yw parodrwydd i dderbyn risg yn parhau i gefnogi cyflawniad effeithiol y Cynllun Corfforaethol, a sut dylai ddatblygu mewn ymateb i newidiadau yn ein hamgylchedd gweithredu.

Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Risg

Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg wedi'u diffinio'n glir ar draws y corff.

Mae'r Bwrdd yn pennu'r archwaeth risg ac yn cymeradwyo risgiau strategol y sefydliad, gan ddarparu goruchwyliaeth gyffredinol o risg i sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu deall, eu rheoli'n briodol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau strategol CNC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu craffu annibynnol ar drefniadau rheoli risg a'u heffeithiolrwydd.

Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am reoli risgiau strategol ac yn goruchwylio risgiau gweithredol, gan sicrhau bod rheolaethau a chamau gweithredu priodol ar waith ar draws y sefydliad.

Mae rheolwyr a staff yn gyfrifol am nodi a rheoli risgiau fel rhan o weithrediadau o ddydd i ddydd.



1. Rheoli risg

Sicrwydd gwybodaeth

Mae sicrwydd gwybodaeth yn sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan CNC yn cael ei chadw'n ddiogel, ei defnyddio'n briodol ac yn cael ei diogelu rhag ei cholli, ei chamddefnyddio neu fynediad anawdurdodedig, yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth rydym yn ei chreu, ei derbyn a'i storio wrth gyflawni ein swyddogaethau, gan gynnwys gwybodaeth wedi'i darparu gan bartneriaid, cwsmeriaid a thrydydd partïon eraill.

Mae'r Prif Weithredwr wedi penodi Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) i oruchwylio gweithgarwch llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch.

Yn ystod y flwyddyn:

- rydym wedi cynnal ardystiad Cyber Essentials Plus
- wedi cyflawni IASME Cyber Assurance Lefel 2
- wedi cyflawni gweithgarwch hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i staff
- wedi cynnal ymarferion profi gwydnwch

Adroddwyd am un digwyddiad rhagofalus i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; ni chafodd unrhyw ddata ei gyrchu ac nid oedd angen gweithredu pellach.

Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)		
2025-26	2024-25	2023-24
1	1	1

Datganiadau o fuddiannau

Mae datganiad o fuddiannau yn galluogi staff ac aelodau'r Bwrdd i ddatgelu unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol a allai ddylanwadu ar eu penderfyniadau neu eu gweithredoedd, neu allai gael eu gweld eu bod yn cael dylanwad. Mae gwrthdaro buddiannau yn codi lle gallai'r buddiannau hynny, os nad ydynt yn cael eu rheoli, effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau diduedd.

Mae gennym bolisi a phrosesau i sicrhau bod buddiannau'n cael eu datgan gan yr holl staff ac aelodau'r Bwrdd, a'u bod yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n briodol.

Mae CNC yn cadw cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cyhoeddi ar ein gwefan i gefnogi tryloywder.

Mae datganiadau Aelodau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn cael eu hadolygu gan y Cadeirydd. Caiff datganiad o fuddiannau'r cadeirydd ei adolygu gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae datganiadau o fuddiannau ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael eu hadolygu gan y Prif Weithredwr.

Chwythu'r Chwiban

Mae chwythu'r chwiban yn cyfeirio at godi pryderon am amheuaeth o ddrwgweithredu, camymddwyn neu ymddygiad anfoesegol mewn gweithle neu sefydliad. Mae'n galluogi staff a phobl eraill i adrodd am faterion mewn ffordd ddiogel a chyfrinachol, yn enwedig lle gall y rhain effeithio ar fudd y cyhoedd neu ddefnydd priodol o adnoddau.

Rydym yn annog unigolion i godi pryderon am ddrwgweithredu. Rydym wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o uniondeb ac atebolrwydd ac o fod yn agored. Mae disgwyl y bydd pawb sy'n gweithio i ni sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar ein gwaith yn gallu camu ymlaen i leisio'r pryderon hynny. Rydym wedi ymrwymo i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw ddrwgweithredu a ddaw i'r amlwg.

Gellir codi pryderon yn gyfrinachol, gan gynnwys yn ddienw, ac fe'u hadolygir yn annibynnol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Pennaeth Llywodraethu. Bydd aelod o'r Bwrdd yn cael ei enwebu fel Arweinydd Chwythu'r Chwiban i gefnogi uwch-gyfeirio lle bo angen.

Y tîm Archwilio Mewnol sy'n goruchwylio unrhyw bryderon ynglŷn â chwythu'r chwiban ac unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig, a nhw fydd yn rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

Yn ystod 2025–26, codwyd 57 o bryderon drwy sianeli chwythu'r chwiban CNC. Aseswyd yr holl bryderon hyn i ddechrau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Pennaeth Llywodraethu, y ddau ohonynt yn annibynnol ar unrhyw un o'r meysydd pryder a godwyd, gan ddefnyddio canllawiau y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA).

O'r rhain:

- roedd 7 yn bodloni'r meini prawf i gael eu trin fel achosion chwythu'r chwiban posibl
- nid oedd y 50 achos arall yn bodloni'r meini prawf, a deliwyd â nhw drwy brosesau priodol eraill, fel y broses cwynion neu adrodd am ddigwyddiadau
- O'r 7 achos a nodwyd yn achosion chwythu'r chwiban posibl, roedd 5 yn ymwneud â materion y tu allan i CNC yn ei rôl fel Person Rhagnodedig. O'r 2 achos yn ymwneud â CNC, ni chafodd yr un ei gadarnhau yn ystod y flwyddyn, gydag un yn dal i gael ei adolygu ac un heb ei gadarnhau.

1. Rheoli risg

Nifer yr achosion chwythu'r chwiban	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22
Pryderon a Godwyd	57	53	31	20	4
Ymdrin ag achos yn gychwynnol					
Cyfeirio'n uniongyrchol at brosesau cwynion neu adrodd am ddigwyddiadau CNC	50	48	27	10	0
Adolygu achosion chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â Pherson Rhagnodedig (allanol)	5	1	2	2	1
Cyfeirio at adolygiad achos Cam 1					
Adolygiadau achos Cam 1 wedi'u cynnal ar achosion chwythu'r chwiban posibl yn CNC	2	4	2	8	3
Wedi'u cyfeirio i'w hymrin yn unol â gweithdrefnau mewnol CNC (heb eu hystyried yn achosion chwythu'r chwiban)	2	4	2	8	3
Ymchwilio i achosion chwythu'r chwiban swyddogol CNC	0	0	0	0	1



CNC fel Person Rhagnodedig ar gyfer Chwythu'r Chwiban

Mae Person Rhagnodedig yn golygu sefydliad sydd wedi'i ddynodi yn ôl y gyfraith i dderbyn datgeliadau chwythu'r chwiban am faterion o fewn ei gylch gwaith. Mae hyn yn caniatáu i unigolion godi pryderon yn uniongyrchol gyda rheoleiddiwr neu gorff cyhoeddus, lle mae hyn yn fwy priodol nag adrodd drwy gyflogwr.

Cawsom ein dynodi fel Person Rhagnodedig yn 2020, yn dilyn argymhelliad gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU, ac wedi hynny cawsom ein cynnwys o dan y gyfraith berthnasol. Fel Person Rhagnodedig, gallwn dderbyn datgeliadau allanol sy'n ymwneud â materion amgylcheddol a rheoleiddiol o fewn ein cylch gwaith.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom bum datgeliad chwythu'r chwiban yn ein rhinwedd fel Person Rhagnodedig. O'r achosion hyn:

- cyfeiriwyd un achos at sefydliad arall i ymdrin ag ef, gan nad oedd o fewn cylch gwaith CNC
- cafodd dau achos eu hadolygu ac ni chawsant eu cadarnhau, ac maent bellach wedi'u cau
- mae dau achos yn parhau i gael eu hadolygu.

Mae pob datgeliad yn cael ei ystyried yn annibynnol i bennu a yw'n dod o fewn cylch gwaith CNC a sut dylid ymdrin ag ef.



1. Rheoli risg

Trefniadau gwrth-dwyll

Mae trefniadau gwrth-dwyll yn nodi sut rydym yn atal, yn canfod ac yn ymateb i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, gan helpu i ddiogelu arian cyhoeddus a chynnal ymddiriedaeth.

Mae gennym drefniadau ar waith i atal, canfod ac ymateb i achosion o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Yn ystod y flwyddyn:

- datblygwyd Strategaeth Gwrth-dwyll newydd
- cwblhaodd 91% o staff hyfforddiant gorfodol
- derbyniwyd 4 honiad o dwyll

Mae pob achos yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac yn cael ei ymchwilio'n briodol.

Nifer yr honiadau a adroddwyd				
2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22
4	7	9	8*	8

**Cafodd y ffigur hwn ei adrodd yn anghywir fel 5 mewn adroddiad blynyddol blaenorol, ond roedd yr adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn gywir ar y pryd.*



Ein fframwaith sicrwydd

Mae ein fframwaith sicrwydd yn dwyn ynghyd y wybodaeth a'r prosesau a ddefnyddir i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae'r fframwaith yn tynnu ar ystod o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol, gan gynnwys:

- gwybodaeth rheoli ac adrodd
- goruchwyliaeth gan y Bwrdd a'i bwyllgorau
- sicrwydd annibynnol gan brosesau archwilio mewnol ac allanol

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau sicrwydd hyn yn darparu darlun cydlynol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu i gael sicrwydd bod trefniadau'n gweithio'n effeithiol.



1. Rheoli risg

Archwilio Mewnol

Mae archwilio mewnol yn weithgarwch sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae gennym dîm archwilio mewnol yn y sefydliad.

Fel Pennaeth Archwilio Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru, rhoddaf y farn ganlynol ar gyfer 2025/26:

Sicrwydd Cymedrol: Mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Mae'r farn hon yn adlewyrchu darlun sicrwydd cymysg. Mae trefniadau llywodraethu a rheolaeth yn gweithio'n effeithiol mewn rhai meysydd, ond mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan wendidau ac anghysondebau mewn mannau eraill, lle nad yw rheolaethau wedi'u sefydlu'n llawn eto neu nad ydynt yn gweithio fel y'u bwriadwyd.

Mae'r farn yn seiliedig ar adolygiad o dystiolaeth sy'n deillio o waith archwilio mewnol, ffynonellau sicrwydd sefydliadol, a gwybodaeth gan y Bwrdd ac ARAC.

Mae dosbarthiad barn archwilio yn dangos amrywioldeb o ran effeithiolrwydd rheolaeth ar draws CNC. Dyma'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y farn hon:

- Rhoi gweithgarwch rheoli ar waith yn anghyson ar draws cyfarwyddiaethau, gan arwain at ganlyniadau amrywiol
- Risgiau sefydliadol systemig, yn enwedig o ran gallu digidol, capasiti'r gweithlu a chyflawni camau gwella
- Amgylchedd allanol heriol, sy'n cynyddu'r pwysau ar fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth

Mae gan CNC gryfderau clir, gan gynnwys strwythurau llywodraethu sydd wedi'u hen sefydlu, ymgysylltiad cryf â phrosesau sicrwydd, a gwella gweledigaeth risg. Fodd bynnag, nid yw'r rhain eto yn cyflawni canlyniadau cyson nac aeddfed ar draws y sefydliad, ac mae angen gwaith pellach i ymgorffori rheolaeth effeithiol a chynaliadwy.

Jacqui Kedward

Pennaeth Archwilio Mewnol

Archwilio a sicrwydd allanol

Archwilio Allanol

Mae archwilio allanol yn darparu sicrwydd annibynnol ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r defnydd o arian cyhoeddus. Mae'n cael ei gynnal gan archwilydd allanol sydd ar wahân i'r sefydliad ac yn adrodd yn gyhoeddus ar ei ganfyddiadau.

Mae ein harchwiliad allanol yn cael ei gynnal gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r archwilydd allanol yn darparu barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol CNC ac ar reoleiddrwydd ei drafodion ariannol. Mae'r gwaith hwn yn rhoi sicrwydd i'r Senedd a'r cyhoedd ynglŷn â stiwardiaeth a'r defnydd o arian cyhoeddus.

Mae barn a chanfyddiadau'r archwilydd allanol yn cael eu hystyried gan ARAC fel rhan o'i oruchwyliaeth o ran llywodraethu, risg a sicrwydd ar draws y sefydliad.

Adroddir ar ganlyniadau'r archwiliad allanol yn yr Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol ac yn nhystysgrif ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sydd wedi'u cynnwys yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Sicrwydd Allanol

Mae sicrwydd allanol yn cyfeirio at adolygiadau, ardystiadau neu achrediadau annibynnol sy'n darparu sicrwydd ar feysydd penodol o waith sefydliad. Yn wahanol i archwilio allanol, mae'r rhain yn canolbwyntio ar swyddogaethau neu weithgarwch penodol ac yn aml yn seiliedig ar safonau proffesiynol neu ddiwydiant cydnabyddedig.

Yn ogystal ag archwilio allanol, mae CNC yn destun ystod o ardystiadau allanol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y DU
- ISO 14001:2015 ar gyfer systemau rheoli amgylcheddol
- Safon Rheoli Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol ISO 45001:2018
- Achrediad ISO/IEC 17025:2017 ar gyfer labordy CNC yn Abertawe

1. Rheoli risg

Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol

Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yw barn gyffredinol y Swyddog Cyfrifyddu ynglŷn ag a yw trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn gweithio fel y'u bwriadwyd ac yn ddigonol i reoli prif risgiau'r sefydliad. Mae'r farn hon yn seiliedig ar adolygiad strwythuredig o dystiolaeth o'r flwyddyn gyfan, ac mae'n adlewyrchu sut mae'r fframwaith wedi'i ddylunio a pha mor dda y mae'n gweithio'n ymarferol.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod y system rheolaeth fewnol wedi parhau i gryfhau yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu amgylchedd rheoli sy'n aeddfedu, gyda nifer llai o feysydd sydd angen gwelliannau pellach.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn adolygu effeithiolrwydd gweithgarwch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. I wneud hyn, mae'n tynnu ar ystod o dystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth rheoli, goruchwyliaeth y Bwrdd, gweithgarwch archwilio mewnol ac allanol a'r broses Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol (ICC).

Proses Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol

Bob blwyddyn, mae CNC yn cynnal adolygiad strwythuredig o'i system rheolaeth fewnol drwy'r ICC. Bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol yn asesu effeithiolrwydd rheolaethau yn eu meysydd cyfrifoldeb, gyda chefnogaeth tystiolaeth, ac yn destun adolygu a herio.

Bydd pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu Tystysgrif Sicrwydd, sy'n cael ei hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth arall i ffurfio barn gyffredinol ynglŷn â sicrwydd ar draws y sefydliad. Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu ac yn cymedroli'r asesiadau hyn i sicrhau cysondeb ac i nodi materion trawsbynciol.

Effeithiolrwydd a Gwelliant Cyffredinol

Eleni, gwnaethom nodi dau wendid sylweddol yn ymwneud â rheolaeth (i lawr o bedwar y llynedd), sy'n dangos cynnydd wrth gryfhau ein hamgylchedd rheoli.

Er bod hyn yn adlewyrchu gwelliant, mae angen gwaith pellach. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom wella ansawdd a chysondeb gwybodaeth sicrwydd, cryfhau cysylltiadau rhwng risg, perfformiad a rheolaeth, a chynyddu ein ffocws ar nodi a mynd i'r afael â gwendidau rheolaeth.



Meysydd Gwendid Allweddol

Gweithlu a Dysgu a Datblygu

Rydym wedi parhau i wynebu pwysau o ran capasiti a gallu'r gweithlu, sydd wedi effeithio ar wydnwch a chyflawniad sefydliadol.

Mae heriau wedi cynnwys anawsterau recriwtio, prinder sgiliau ac effaith newid sefydliadol.

Rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r maes hwn, gan gynnwys gweithredu System Rheoli Dysgu, gwella prosesau cynllunio'r gweithlu a defnyddio modelau cyflawni amgen.

Mae rôl newydd Cyfarwyddwr Pobl wedi'i sefydlu i arwain ein rhaglen trawsnewid pobl.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ymgorffori'r newidiadau hyn a chyflawni ein cynllun gweithlu strategol.

Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT)

Gwnaethom nodi meysydd i'w datblygu ymhellach o fewn ein hamgylchedd digidol, data a thechnoleg.

Rydym wedi gwneud cynnydd drwy ddatblygu cynllun trawsnewid DDaT, gan gyflwyno blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'n proffil risg a chynyddu capasiti.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein gallu digidol i gefnogi cyflawniad ein blaenoriaethau, gan gynnwys adfer byd natur, gwydnwch hinsawdd a lleihau llygredd.

1. Rheoli risg

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r adrannau uchod yn nodi trefniadau llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd CNC. Mae'r datganiad canlynol yn darparu asesiad ffurfiol y Swyddog Cyfrifyddu o'u heffeithiolrwydd.

Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol a sicrwydd a oedd ar waith yn y sefydliad yn ystod blwyddyn ariannol 2025–26, ac mae'n cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad amcanion CNC.

Mae'r datganiad hwn yn nodi fy asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hynny yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac mae'n cyd-fynd â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a chanllawiau Trysorlys EF.

Caiff trefniadau llywodraethu, rheoli risg a sicrwydd CNC eu disgrifio yn fanwl yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na'i ddileu'n gyfan gwbl. Mae'n cefnogi cyflawniad amcanion CNC drwy sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli, bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol, a bod penderfyniadau'n rhai gwybodus sy'n cael eu goruchwylio'n briodol.

Mae fy asesiad yn seiliedig ar ystod o ffynonellau sicrwydd, gan gynnwys gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau, y Tîm Gweithredol, gweithgarwch archwilio mewnol ac allanol, a'r broses Rhestr Wirio Rheolaethau Mewnol (ICC), gan gynnwys Tystysgrifau Sicrwydd sydd wedi'u darparu gan Gyfarwyddwyr Gweithredol.

Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, rwy'n fodlon bod CNC wedi bod â threfniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol priodol ar waith yn ystod y flwyddyn.

Lle mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi, mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.

Gallaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw wedi'i datgelu i Archwilio Cymru.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026



2

Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

Mae'r adroddiad cyflogau a staff yn esbonio sut rydym yn talu aelodau'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r gweithlu ehangach, gan gynnwys gweithwyr parhaol, y rhai ar gytundebau cyfnod penodol a staff asiantaeth. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd staff, costau, a pholisïau gweithlu allweddol. Mae datgelu'r wybodaeth hon yn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd ynghylch sut mae CNC yn talu ei weithlu.

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Polisi cyflogau ar gyfer uwch staff ac aelodau'r bwrdd

Amcan y polisi cyflogau yw amlinellu sut mae CNC yn gosod telerau cyflog a chyflogaeth ar draws y sefydliad. Mae'r adran hon yn cyfeirio at gyflogau'r Tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd. Mae hefyd yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â'u cyflog.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) i oruchwylio materion sy'n ymwneud â chyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth uwch staff y sefydliad, yn ogystal â'r strategaeth cyflog gyffredinol ar gyfer y gweithlu ehangach. Mae'r PCC yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd, gyda Chadeirydd y Bwrdd yn gwasanaethu fel aelod ex-officio o'r Pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae'r sefydliad yn derbyn cylch gwaith cyflog blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac mae angen i'r dyfarniad cyflog sy'n cael ei bennu gan y Bwrdd gydymffurfio â'r cylch gwaith cyflog hwnnw, a chael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd cyflog staff yn yr uned bargeinio ar y cyd (Graddau 1–11) yn codi yn unol â'r dyfarniad cyflog.

Bydd cyflog uwch staff yn codi yn unol â'r cynnydd canrannol a gaiff ei roi ar waith ar Radd 11. Mae cyflog rolau uwch (Gradd 11+) yn cael ei lywio gan fframwaith Gwerthuso Swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer Swyddi Uwch a meincnodi yn erbyn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus cymharol yng Nghymru a'r DU. Mae unrhyw ddyfarniad cyflog blynyddol yn amodol ar berfformiad boddhaol, a fydd yn cael ei asesu gan y Prif Weithredwr/Cadeirydd a'i gymeradwyo gan y PCC.

Yn ystod 2025/26, gwnaeth CNC weithredu Polisi Cyflog Uwch. Mae'r polisi yn darparu fframwaith clir a chadarn ar gyfer pennu uwch gyflogau, gan sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau, rolau a threfniadau llywodraethu wedi'u dogfennu'n llawn, yn dryloyw ac yn amodol ar oruchwyliaeth briodol. Bydd CNC yn cynnal adolygiad pellach o'r Polisi Cyflog Uwch yn 2026 i ystyried cyflwyno bandiau cyflog strwythuredig neu fecanweithiau amgen, gyda'r nod o gryfhau cysondeb, tegwch a sicrwydd.

Contractau gwasanaeth

Mae contractau gwasanaeth yn gytundebau sy'n rhwymo'n gyfreithiol rhwng CNC a'i weithwyr. Byddai'r cytundeb yn cadarnhau hyd yr ymrwymiad yn ogystal â'r cyflog y disgwylir ei dalu i'r gweithiwr. Caiff y mathau o gontractau gwasanaeth a ddefnyddir ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac uwch staff ei esbonio isod.

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran y Gweinidog sy'n noddi'r sefydliad yn Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn ddeiliaid swydd yn hytrach na chyflogeion, ond cânt eu talu drwy broses gyflogres Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel arfer, penodir aelod o'r Bwrdd am gyfnod o bedair blynedd.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Gwneir penodiadau yn unol â'n polisi recriwtio, yn seiliedig ar deilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae aelodau'r Tîm Gweithredol y mae'r adroddiad hwn yn eu trafod wedi eu penodi'n barhaol. Rhaid i'r swyddogion a'r aelodau Bwrdd hyn roi tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.



2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Cyflogau a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion ynghylch cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Os bydd cyflogaeth yn dod i ben yn gynnar, ac eithrio am resymau camymddwyn, byddai aelodau'r Tîm Gweithredol yn derbyn iawndal yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

Cyflog

Mae'r adran hon yn esbonio beth sydd wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyflog a gaiff eu dangos yn yr adroddiad. Mae'n gwneud yn glir pa daliadau sydd wedi'u cynnwys fel cyflog sylfaenol, goramser a lwfansau a pha rai sydd wedi'u heithrio, megis treuliau a ad-dalwyd.

Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau eraill sy'n drethadwy. Nid yw'n cynnwys treuliau a ad-dalwyd sy'n codi yn rhan o ddyletswyddau unigolyn.

Buddion mewn nwyddau

Mae buddion mewn nwyddau yn golygu nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn arian parod, ond sydd â gwerth ariannol, a gaiff eu darparu i gyflogai. Er nad yw'r cyflogai yn cael unrhyw arian parod, mae Cyllid a Thollau EM yn ystyried y buddion hyn yn enillion ac maent yn drethadwy.

Ni dderbyniodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol fuddion mewn nwyddau yn ystod 2025/26 na 2024/25.

Ni dderbyniodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol unrhyw gyflog ar wahân i'r symiau sydd i'w gweld isod.

Cyflogau aelodau'r Bwrdd

Mae'r tabl cyferbyn yn dangos faint a dalwyd i aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, pa mor hir y maent wedi gwasanaethu ac a oes ganddynt rôl cadeirydd ar bwyllgor.

Aelod Bwrdd	Rolau ar y Bwrdd a Phwyllgorau (yn ystod 2025/26)	Dyddiadau Contract	Cyflog 2025/26 (ystod o £5,000)	Cyflog 2024/25 (ystod o £5,000)
Neil Sachdev	Cadeirydd y Bwrdd o Dachwedd 2025	01/11/2025 to 31/10/2029	25-30	Ddim yn berthnasol
Sir David Henshaw	Cadeirydd y Bwrdd hyd at Hydref 2025	01/11/18 to 31/10/25	25-30	45-50
Karen Balmer	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o fis Gorffennaf 2025	01/07/2025 to 31/03/2026	10-15	Ddim yn berthnasol
Dr Hushneara Begum		01/04/2025 to 31/10/2029	10-15	Ddim yn berthnasol
Dr Rebecca Colley-Jones		01/01/19 to 31/03/25	Ddim yn berthnasol	10-15
Geraint Davies	Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd	16/02/23 to 31/10/26	15-20	15-20
Dr Peter Fox	Cadeirydd y Pwyllgor Ystadau Tir	01/09/21 to 31/10/28	15-20	15-20
Professor Calvin Jones		01/06/23 to 31/10/26	10-15	10-15
Lesley Jones		16/02/23 to 31/10/27	10-15	10-15
Professor Rhys Jones	Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid	01/09/21 to 31/10/28	15-20	15-20
Mark McKenna	Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth	01/11/18 to 31/03/26	15-20	15-20
Professor Steve Ormerod	Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hyd at fis Mai 2025	16/02/23 to 31/05/25	0-5	15-20
Kathleen Palmer	Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid	16/02/23 to 31/10/26	15-20	15-20
Helen Pittaway		01/11/18 to 31/03/25	Ddim yn berthnasol	15-20
Dr Rosie Plummer	Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig	01/04/2025 to 31/10/2029	15-20	Ddim yn berthnasol
Adam Taylor				

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Cyflogau'r Tîm Gweithredol

Mae'r tabl isod yn dangos faint a dalwyd i'r Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol. Nid yw gwerth y budd pensiwn yn cynrychioli'r swm y bydd yr unigolyn yn ei gael. Bwriad y cyfrifiad yw cyfleu amcangyfrif o'r budd a all ddeillio o fod yn aelod o'r cynllun pensiwn. Mae'r tabl buddion pensiwn yn yr adran nesaf yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn.

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Cyflog (ystod o £5,000)		Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)		Buddion pensiwn[1] (£'000)		Cyfanswm (ystod o £5,000)	
	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25	2025-26	2024-25
Ceri Davies [1,2]	165-170	140-145	0	0	107	187	270-275	330-335
Clare Pillman [1,3]	0	140-145	0	0	0	107	0	245-250
Rachael Cunningham [1]	135-140	130-135	0	0	30	88	165-170	215-220
Prys Davies [1]	115-120	110-115	0	0	45	68	160-165	180-185
Dominic Driver [1,4]	100-105	35-40	0	0	40	13	140-145	45-50
Sarah Jennings [1]	140-145	135-140	0	0	56	54	195-200	190-195
Gareth O'Shea [1,5]	115-120	120-125	0	0	73	94	190-195	215-220
Lyndsey Rawlinson [1,6]	30-35	Ddim yn berthnasol	0	Ddim yn berthnasol	26	Ddim yn berthnasol	55-60	Ddim yn berthnasol
Louise White [1,7]	10-15	Ddim yn berthnasol	0	Ddim yn berthnasol	6	Ddim yn berthnasol	15-20	Ddim yn berthnasol

1. Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, yn ogystal â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Cyfrifir y cynnydd gwirioneddol drwy ddidynnu'r prisiad agoriadol o'r prisiad terfynol. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw newidiadau o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn. Caiff codiadau chwyddiant eu heithrio drwy gymhwyso ffactor cynnydd gwirioneddol i'r gwerth ar ddechrau'r flwyddyn.

   Mae'r buddion pensiwn cronnus sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi'u cyfrifo ar sail ei gynnwys yn y cynllun blaenorol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac yr oeddynt yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifo yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithir arnynt wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r cynllun blaenorol perthnasol ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn weithredol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ymddeoliad i benderfynu yn hytrach i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Yn achos aelodau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, rhoddwyd ystyriaeth i rwymedi McCloud hefyd ar gyfer datgeliadau'r cyfarwyddwyr, ond ni wnaeth y rhwymedi effeithio ar werthoedd buddion yr unigolion penodol hyn.
2. Cyflog cyfwerth blynyddol Ceri Davies ar gyfer mis Ebrill 2024 i fis Hydref 2024 oedd £130k i £135k fel Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) a £155k i £160k rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, yna £165k i £170k o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2026 fel Prif Weithredwr Dros Dro.
3. Gadawodd Clare Pillman CNC ym mis Ebrill 2025. Roedd yr holl daliadau a wnaed i Clare Pillman yn ystod 2025/26 yn gysylltiedig â'r pecyn ymadael y cyfrifwyd amdano ac a ddatgelwyd yn yr adroddiad cyfrifon a chyflogau ar gyfer 2024/25. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys o fewn gwerthoedd cymharol y tabl Pecynnau Ymadael isod. Mae gwerth buddion pensiwn cymharol 2024/25 a ddatgelir yn y tabl wedi'i ailddatgan.
4. Cyflogwyd Dominic Driver gan CNC drwy gydol 2024/25 ond mae'r wybodaeth am gyflog cymharol a ddatgelwyd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 16 Tachwedd 2024 a 31 Mawrth 2025 pan gafodd ei benodi dros dro fel Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Y cyflog cyfatebol blynyddol llawn ar gyfer 2024/25 oedd £95k i £100k. Y cyflog cyfatebol blynyddol llawn ar gyfer 2025/26 yw £95 i £100k, ac mae'r gwerth yn y tabl uchod yn cynnwys swm a dan-dalwyd mewn perthynas â 2024/25, sef £0 i £5k. Ar 1 Rhagfyr 2025, penodwyd Dominic Driver yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Gweithrediadau Cenedlaethol. Nid oedd unrhyw newid i'r cyflog o ganlyniad i'r penodiad hwn.

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

5. Gwnaeth Gareth O'Shea ymddeol ar 31 Ionawr 2026. Mae'r tabl uchod yn dangos ei gyflog am y cyfnod hyd at ei ymddeoliad. Y cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2025/26 oedd £135k i £140k. Mae'r cyflog a ddatgelir yn y tabl yn cynnwys taliad mewn perthynas â gwyliau heb eu cymryd gwerth rhwng £0 a £5k.
6. Penodwyd Lyndsey Rawlinson yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Gweithrediadau Lle ar 1 Rhagfyr 2025. Y cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2025/26 oedd £95k i £100k.
7. Mae Louise White ar secondiad o Lywodraeth Cymru am 14.8 awr yr wythnos. Penodwyd Louise yn Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Pobl, Cyfleusterau a Fflyd ar 1 Rhagfyr 2025. Y cyflog cyfwerth ag amser llawn yw £100k i £105k.





2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Buddiannau pensiwn

Mae'r tabl isod yn manylu ar y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob aelod o'r Tîm Gweithredol.

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Pensiwn cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/26 (neu ddyddiad ymddeol os yn gynt) £000	Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/26 (neu ddyddiad ymddeol os yn gynt) £000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn £000
Ceri Davies	80-85	100-105	5-7.5
Clare Pillman[1]	70-75	185-190	0-2.5
Rachael Cunningham	50-55	0	0-2.5
Prys Davies	45-50	100-105	2.5-5
Dominic Driver	15-20	0	0-2.5
Sarah Jennings	15-20	0	2.5-5
Gareth O'Shea	80-85	110-115	2.5-5
Lyndsey Rawlinson	30-35	25-30	0-2.5
Louise White	0-5	0	0-2.5

1. Mae CETV agoriadol Clare Pillman wedi'i ailddatgan o £1,830k i £1,794k oherwydd ailgyfrifwyd y sefyllfa agoriadol pan arferodd yr aelod yr opsiynau unioni.

Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn £000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/26 (neu ddyddiad ymddeol os yn gynt) £000	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/25 £000	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000
5-7.5	1,842	1,655	538
0	1,797	1,794	-1
0	990	920	13
-2.5-0	955	871	31
0	340	290	31
0	308	242	43
5-7.5	1,713	1,546	70
0-2.5	555	517	20
0	25	20	4

Mae pensiwn cyflog terfynol unigolyn mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn.

Mae'r buddion pensiwn cronnus sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi'u cyfrifo ar sail ei gynnwys yn y cynllun blaenorol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Unioni Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac yr oeddynt yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r sail ar gyfer y cyfrifo yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithir arnynt wedi'u trosglwyddo'n ôl i'r cynllun blaenorol perthnasol ar gyfer y cyfnod unioni ac y bydd hyn yn weithredol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ymddeoliad i benderfynu yn hytrach i dderbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Yn achos aelodau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, rhoddwyd ystyriaeth i rwymedi McCloud hefyd ar gyfer datgeliadau'r cyfarwyddwyr, ond ni wnaeth y rhwymedi effeithio ar werthoedd buddion yr unigolion penodol hyn.

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a werthusir yw'r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i'w hun.

Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddion a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu cymryd.

Nid yw'r gwerthoedd CETV yn uniongyrchol gynrychioli'r cyfraniadau sy'n cael eu talu gan CNC.

Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Iawndal ar gyfer colli swydd

Gadawodd Clare Pillman ar 16 Ebrill 2025 a derbyniodd becyn ymadael o £120k i £125k. Cronnwyd y swm hwn a'i gyfrif o fewn cyfrifon 2024/25. Mae cyfanswm y gwerth wedi'i gynnwys yng ngwybodaeth gymharol y flwyddyn flaenorol yn y tabl pecynnau ymadael isod, ac mae'n cynnwys £65k i £70k o Daliad Diswyddo Arbennig. Ni chytunwyd ar unrhyw iawndal am golli swydd yn ystod 2025/26.

Datgelu cyflog teg

Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i ni, a chyrff tebyg, ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf yn ei sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r datgeliadau hyn yn sicrhau tryloywder ynghylch a yw cydnabyddiaeth uwch reolwyr yn gymesur ac yn gyfiawnadwy. Maent yn dwyn polisïau cydnabyddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif, yn enwedig o ran lefel cyflog uwch reolwyr o'i chymharu â chyflogau aelodau eraill o staff.

Mae cyfanswm y cyflog yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau pan fo'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn 2025/26, cafodd 5 gweithiwr y'u cyflogwyd gan sefydliad asiantaeth (2024/25: 5) dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Band cyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf (fel y dangosir uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26 oedd £165,000 i £170,000 (2024/25: £155,000 i £160,000). Roedd hyn 3.7 gwaith (2024/25 3.7 gwaith) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, gyda chymhariaeth mewn perthynas â'r cyflog chwartel uchaf, canolrif a chwartel isaf a gyflwynir yn y tabl canlynol.

Cymhareb Cyflog y Gweithlu Cyfan

	2025-26 (£)	2024-25 (£)	Symudiad (%)
Chwartel uchaf	51,692	50,637	2.0
Cymhareb	3.2	3.2	
Canolrif	45,339	43,702	3.7
Cymhareb	3.7	3.7	
Chwartel isaf	40,127	38,688	3.7
Cymhareb	4.1	4.1	

Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £26,861 i £83,051 (2024/25: £25,898 i £80,072).

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Canran cyfartalog y cynnydd mewn cyflog, buddion mewn nwyddau a thâl ar sail perfformiad yn ystod y flwyddyn oedd:

	Symudiad (%)
Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf	3.7
Yr holl weithlu	2.8
Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol	1.9

Fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, wedi'u cynnwys yn y gweithlu yn y tablau uchod mae gweithwyr parhaol, penodiadau cyfnod penodol, prentisiaid, pobl ar secondiad a staff asiantaeth, lle mae tâl wedi'i gyfrifo ar sail flynyddol.

Mae symudiadau cyflog o fewn cymhareb cyflog y gweithlu yn gyson yn fras â'r dyfarniad cyflog blynyddol o 3.72%. Pan fydd staff newydd yn dod i mewn i'r busnes, naill ai'n allanol neu oherwydd dyrchafiadau mewnol, byddant yn cael eu neilltuo i ddechrau i lefel isaf y band cyflog, gyda chynyddrannau blynyddol nes iddynt gyrraedd brig y band. Felly, mae symudiadau staff yn effeithio ar symudiadau yn y cynnydd canrannol cyfartalog o ran cyflog, buddion mewn nwyddau a thâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad wrth eu hystyried ar sail flynyddol, felly nid ydynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r dyfarniad cyflog blynyddol. Mae pob cynnydd yn y gweithlu yn cynnwys staff asiantaeth nad yw eu cyflog yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog blynyddol.



2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Adroddiad yr holl staff

Mae'r adroddiad staff yn rhoi gwybodaeth am gyfansoddiad a chostau ein gweithlu.

Polisi Cyflogau Staff

Mae'r polisi cyflogau staff yn nodi sut mae CNC yn pennu graddau cyflog, dyfarniadau cyflog blynyddol, buddion a thelerau cyflogaeth ar gyfer y gweithlu. Y dyfarniad cyflog blynyddol yw'r cynnydd mewn cyflog a gaiff ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith gyda phum undeb llafur, a gosodir y telerau ac amodau ar gyfer staff o dan aelodau'r tîm gweithredol drwy gytundeb ar y cyd gyda'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflog, telerau ac amodau ac yn rhoi cylch gwaith cyflogau i'r sefydliad y mae'n rhaid iddo gyflawni oddi mewn iddo. Roedd dyfarniad cyflog eleni ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, a gwelwyd cynnydd o 3.72% yn ein bil cyflogau. Mae ein holl raddfeydd cyflog wedi bod yn uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers mis Ebrill 2024. Rhoddwyd dyfarniad cyflog o 3.72% ar waith ar yr holl bwyntiau cyflog ac ychwanegiadau a thaliadau (lwfansau) perthnasol ond heb gynnwys y Dyfarniad Teyrngarwch ac Atodiad y Farchnad. Nid oedd y cynnig hwn, fel y cytunwyd eisoes drwy'r ymgynghoriad ar y cynllun Gwerthuso Swyddi, yn berthnasol i'r bobl hynny a oedd wedi dewis, yn flaenorol, i beidio â bod yn rhan o'r cynllun hwn.

Mae'r tablau staff isod yn cynnwys staff sy'n gyflogeion parhaol, penodiadau cyfnod penodol a phrentisiaid yn ogystal â staff asiantaeth a phobl ar secondiad.

Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn (CALI) fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2026

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Nifer y gweithwyr	CALI	Nifer y gweithwyr	CALI	Nifer y gweithwyr	CALI
Pob gweithiwr	1,320	1,287	1,172	1,104	2,492	2,391
o'r rhain:						
Y Tîm Arwain	13	13	14	13	27	26
Aelod o'r Tîm Gweithredol	2	2	5	4	7	6

Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Nifer y gweithwyr	CALI	Nifer y gweithwyr	CALI	Nifer y gweithwyr	CALI
Pob gweithiwr	1,260	1,234	1,112	1,044	2,372	2,278
o'r rhain:						
Y Tîm Arwain	13	13	15	15	28	28
Aelod o'r Tîm Gweithredol	3	3	4	4	7	7

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi sicrhau ein bod mewn sefyllfa ariannol llawer cryfach a mwy cynaliadwy. Mae dyrannu effaith chwyddiant o fewn setliadau Cymorth Grant, ynghyd â chyllid ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer blaenoriaethau a rennir, wedi golygu bod y cynnydd mewn adnoddau yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a dalwyd yn ystod y flwyddyn:


	2025-26			2024-25
	Staff parhaol	**Eraill**	**Cyfanswm**	**Cyfanswm**
Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol	2,221	27	2,248	2,267
Gweithwyr asiantaeth	0	55	55	72
Cyfanswm	**2,221**	**82**	**2,303**	**2,339**

Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar brosiectau cyfalaf oedd 189.8 (2024/25: 185.2).

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Trosiant staff

Trosiant staff yw canran y staff sy'n gadael y sefydliad trwy ymddeoliad, ymddiswyddiad, dileu swydd neu ddiswyddiad. Y trosiant staff yn ystod 2025/26 oedd 5.7% heb gynnwys gweithwyr dros dro, e.e. penodiadau cyfnod penodol (2024/25 6.2%). Caiff hyn ei gyfrifo gan gyfanswm nifer y rhai sy'n gadael yn ystod y flwyddyn (127) o'i gymharu â'r cyfrif CALl fesul pen ar gyfartaledd (2,221).



Costau staff

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr holl weithwyr gan gynnwys staff parhaol, y rhai ar gytundebau cyfnod penodol, staff asiantaeth, y Tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd.

	2025-26			2024-25
	Staff parhaol £'000	**Staff arall £'000**	**Cyfanswm £'000**	**Cyfanswm £'000**
Taliadau a chyflogau	103,048	4,681	107,729	104,568
Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill	13,787	665	14,452	11,501
Costau pensiwn eraill	25,666	335	26,001	26,143
Cyfanswm costau cyflog net	**142,501**	**5,681**	**148,182**	**142,212**
Gwariant arall ar gyfer staff		**Nodyn**		
Costau pecynnau ymadael			216	1,034
Tâl gwasanaeth Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau)		15	4,070	6,167
Llai cyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn			(5,850)	(6,899)
Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd			822	322
Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff			**(742)**	**624**
Llai symiau a godir ar brosiectau cyfalaf			(12,777)	(11,877)
Cyfanswm costau staff			**134,663**	**130,959**

Gellir gweld manylion ein rhwymedigaethau pensiwn yn Nodyn 15..

Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau.

Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £4.6 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr (2024/25 £2.2 miliwn).

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Cynlluniau pensiwn

Rydym yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun agored ac yn cynnwys y cynllun buddion diffiniedig, Alpha, yn ogystal â chynllun cyfraniadau diffiniedig partneriaeth rhanddeiliaid.


Rydym hefyd yn aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Mae rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn i'w gweld isod.

Cyfraniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw PCSPS a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha", ond nid yw'r cynlluniau yn nodi cyfran sefydliadau unigol o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2020 ym mis Medi 2023.

Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2025/26, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £19,960k yn daladwy i'r PCSPS (2024/25: £19,066k) ar gyfradd sengl o 28.97% o'r tâl pensiynadwy (ar gyfer 2024/25 28.97%). Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau cyfraniadau ar gyfer 2024–25 ac ni fyddant yn cael eu newid tan 2028–29. Mae'r bandiau cyflog a chyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddion fel y cânt eu cronni, nid pan fydd y costau'n cael eu codi mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.



Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £186k (2024/25: £169k) i'r darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio rhwng 8% a 14.75% (2024/25 8% a 14.75%). Mae cyflogwyr hefyd yn talu gwerth cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £8k, 0.5% o gyflog pensiynadwy (2024/25: £6k), yn daladwy i'r PCSPS i dalu'r costau o ddarparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marw yn y swydd neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

Cyfraniadau Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF)

Cynllun pensiwn i'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r AEPF, sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Mae'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), sef cynllun statudol a lywodraethir yn bennaf gan Reoliadau LGPS 2013 a Rheoliadau LGPS (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014. Rydym yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol drwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Bob tair blynedd, mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ar 31 Mawrth 2025, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 143% (2022: 103%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw i adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn ei gyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Mae gennym gytundeb derbyn cymunedol gyda Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) i gymryd rhan yn y cynllun, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyn staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddodd i'n sefydliad ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warant gyda Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau sy'n deillio o gyfranogiad CNC yng Nghronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn ystod 2025-26 oedd 21.60% (2024-25: 21.60%). Yn 2025-26 talwyd cyfraniadau cyflogwr o £5,850k i'r EAPF (2024-25: £6,899k) sy'n lleihau'r balans ar gronfa bensiwn IAS 19.

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Pecynnau ymadael

Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost	2025-26	2024-25
Llai na £10,000	0	2
£10,001 - £25,000	0	11
£25,001 - £50,000	1	6
£50,001 - £100,000	2	7
£100,001 - £150,000	0	1
Cyfanswm	**3**	**27**
Cost adnoddau ymadawiadau wedi'i ddatgelu uchod	**£198,105**	**£1,033,832**
Addasiad cyn croniadau blynyddoedd blaenorol	£18,000	
Cyfanswm y gost am y flwyddyn	**£216,188**	**£1,033,832**

Mae costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y cafodd eu cyfrif yn 2025/26. Mae'r tabl yn eithrio unrhyw gostau Yswiriant Gwladol a Phensiwn cysylltiedig. Cytunwyd ar y 3 ymadawiad a ddatgelwyd yn rhan o roi ein rhaglen Achos dros Newid ar waith. Talwyd pob un o'r 3 yn ystod 2025/26.
O'r 3, roedd 1 yn ddiswyddiad gorfodol. Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2024/25.

Talwyd costau ymadael o £1,220k mewn gwirionedd yn 2025/26, sy'n cynnwys taliadau ymadael o £1,004k a gronnwyd yn 2024/25 ond a dalwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Mae'r addasiad sydd wedi'i gynnwys yn y tabl yn ymwneud ag iawndal a thaliadau yn lle rhybudd a gronnwyd ym mis Mawrth 2025 ar gyfer 24 aelod o staff a wnaeth adael o dan y rhaglen diswyddo Achos dros Newid. Datgelwyd y pecynnau ymadael cronnus ar gyfer y staff hyn, a'u cronni, i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, ond cyfrifwyd a thalwyd y taliad terfynol yn ystod 2025/26. Roedd angen addasiad i werth y taliad terfynol oherwydd costau cyflog cynyddol ar ôl cymhwyso'r dyfarniad cyflog blynyddol.

Lle rydym wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan y sefydliad hwn ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y tabl.

Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)

Dangosodd cyfradd ein habsenoldebau oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026) y collodd pob cyflogai 7.3 o ddiwrnodau ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i gyfradd absenolrwydd o 3.3% ar gyfartaledd. Ar gyfer 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025, roedd hyn yn 7.4 diwrnod a gollwyd fesul cyflogai, sy'n cyfateb i 3.4%.

Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae CNC wedi ymrwymo i gefnogi pobl anabl yn ystod prosesau recriwtio ac yn y gwaith. Mae polisïau anabledd CNC yn amlinellu sut mae'r sefydliad yn rhagweithiol wrth gael gwared ar rwystrau cymdeithasol ac yn y gweithle. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd gwaith cynhwysol lle mae cyfle cyfartal i bobl anabl, lle gallant ffynnu yn eu cyflogaeth.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Mae'r cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn cefnogi recriwtio cynhwysol.

Mae gan CNC achrediad Lefel 2 o dan y cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd tan fis Mawrth 2027. Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo manteision ein Pasbort Gwaith a Llesiant mewnol o ran addasiadau rhesymol yn y gweithle.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi derbyn 948 o geisiadau am gyfweliadau o dan broses gwarantu cyfweliad y cynllun hwn. O'r ceisiadau hyn, roedd 18 cais gan gydweithwyr mewnol a 930 gan ymgeiswyr allanol, gyda 97 o ymgeiswyr wedi'u gwahodd i gyfweliad. Nid oedd 851 yn bodloni'r gofyniad meini prawf gofynnol ar gyfer y rolau dan sylw a gwrthodwyd cyfweliad ar yr achlysur hwn.

O ganlyniad i rewi gweithgarwch recriwtio yn 2024, mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i gymharu ystadegau yn realistig o'r cyfnod adrodd diwethaf, lle cawsom 14 cais am gyfweliad gan ymgeiswyr mewnol, 14 gan ymgeiswyr allanol, gyda 3 wedi'u gwahodd i gyfweliad.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident EMPLOYER

2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Grwpiau Adnoddau Gweithwyr (ERG) – Rhwydweithiau Staff (heb eu harchwilio)

Mae Grwpiau Adnoddau Gweithwyr (ERG), a elwir hefyd yn Rhwydweithiau Gweithwyr neu Staff, yn lle cefnogol a chroesawgar i'n cydweithwyr ddod ynghyd i greu newid yn y gweithle. Mae Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn aml yn canolbwyntio ar nodwedd warchodedig a dangynrychiolir yn y gweithle. Mae'r rhwydweithiau'n rhoi cyfle i'n cydweithwyr gwrdd â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhwydweithio. Mae'r rhwydweithiau hefyd yn cyfrannu at bolisïau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phobl, yn ogystal ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cael eu cwblhau gan berchennog polisi neu brosiect.


Ar hyn o bryd mae gennym 6 o Grwpiau Adnoddau Gweithwyr sy'n cynrychioli themâu nodweddion gwarchodedig, sef anabledd, rhyw a rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Rhwydwaith Calon i staff LHDTC+
- Rhwydwaith Cymrodoriaeth Gristnogol i'r staff
- Rhwydwaith Cwtsh i Ofalwyr
- Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Merched
- Rhwydwaith Staff Pobl o Leiafrifoedd Ethnig Byd-eang

Mae gan bob ERG arweinydd neu arweinwyr ar y cyd. Mae'r rolau hyn yn cael eu cyflawni'n wirfoddol gyda chaniatâd rheolwr llinell. Mae gennym ganllawiau arfer da sy'n amlinellu nodau ac amcanion Rhwydweithiau, ac sy'n darparu fframwaith i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant ac i gydbwyso eu swydd bob dydd a'u rôl fel Arweinwyr Rhwydwaith, yn ogystal â chynllunio ar gyfer olyniaeth.





2. Adroddiad Cyflogau a Staff

Swyddi oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)

Mae swyddi oddi ar y gyflogres yn drefniadau lle mae sefydliadau cyflogwr yn cyflogi gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy gyfryngwr fel ei gwmni cyfyngedig ei hun (a elwir yn aml yn Gwmni Gwasanaeth Personol neu PSC), partneriaeth, neu unigolyn arall, yn hytrach nag yn uniongyrchol fel cyflogai ar y gyflogres.

Nid yw CNC yn ymgysylltu â chontractwyr. Mae unrhyw weithwyr oddi ar y gyflogres yn cael eu hymrwymo drwy asiantaethau ac mae'r gweithwyr yn gyflogeion yr asiantaethau hynny, a rheolau treth PAYE yn berthnasol. Yr asiantaethau, felly, sy'n gyfrifol am y cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol sy'n daladwy i CThEM mewn perthynas â'r ymrwymiadau hyn. Mae'r ymrwymiadau a gaiff eu datgelu yn y tablau isod wedi cael eu hasesu, maent i gyd yn ymwneud â gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan asiantaeth ac maent felly y tu allan i gwmpas rheoliadau IR35.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am ymgysylltiadau oddi ar y gyflogres lle mae'r unigolion dan sylw yn ennill mwy na £245 y dydd, ac rydym yn talu drwy anfoneb yn hytrach na thrwy'r gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau, os yw rhywun yn gweithio drwy gyfryngwr ac y byddai wedi cael ei ystyried, at ddibenion treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol, fel cyflogai pe bai wedi'i ymgysylltu yn uniongyrchol gan y sefydliad, ei fod yn talu'r un dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol yn fras â phetai'n gyflogedig. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sydd wir yn hunangyflogedig.

Cyfrifoldeb y sefydliad yn hytrach na'r cyfryngwr yw cynnal yr asesiad at ddibenion treth. Os penderfynir yn yr asesiad bod y rôl o fewn cwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu'r un dreth cyflogai â chyflogai ar y gyflogres.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa mewn perthynas â'r gofynion hyn.

Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2026, am fwy na £245 y diwrnod

Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2026 sydd wedi bodoli am:	Nifer yr ymrwymiadau
llai na blwyddyn	0
rhwng un a dwy flynedd	8
rhwng dwy a thair blynedd	0
rhwng tair a phedair blynedd	0
pedair blynedd neu ragor	1
Cyfanswm	**9**

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres sy'n ymrwymo ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, gan ennill £245 y dydd neu fwy

	Nifer yr ymrwymiadau
Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a wnaeth ymrwymo yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026	13
o'r rhain:	
Deddfwriaeth oddi ar y gyflogres ddim yn berthnasol (cyflogir gan sefydliad asiantaeth yn y gadwyn gyflenwi)	13
Deddfwriaeth oddi ar y gyflogres yn berthnasol ac wedi'i bennu yng nghwmpas IR35	0
Deddfwriaeth oddi ar y gyflogres yn berthnasol ac wedi'i bennu y tu allan i gwmpas IR35	0
Nifer yr ymrwymiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid yn y statws IR35 ar ôl adolygiad	0

3

Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

3. Adroddiad Seneddol ac Archwilio

Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol datgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth.

Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau am ddileu taliadau a gwneud taliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. Cymeradwywyd un taliad diswyddo arbennig yn 2024/25, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys isod. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y wybodaeth gymharol yn y tabl Taliadau Ymadael yn y tabl uchod.

Categori neu fath o golled	2025-26 Nifer	2025-26 £'000	2024-25 Nifer	2024-25 £'000
Dileu dyledion na ellir eu hadennill	137	305	94	182
Asedau a gollwyd	24	1,295	8	164
Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion)	7	3	3	254
Taliadau arbennig	3	151	8	15,843
Cyfanswm	**171**	**1,754**	**114**	**16,443**
Hepgor incwm*	4	13	3	25
Cyfanswm	**175**	**1,767**	**117**	**16,467**

*Hepgor incwm yn ymwneud yn bennaf â gwerthiannau yn y dyfodol ac nid yw'n ymwneud â nodiadau credyd i'w codi yn erbyn anfonebau hanesyddol.

Wedi'i gynnwys o fewn Colledion a thaliadau arbennig yn nodyn 5 ar gyfer y cyfrifon mae credyd o £50k sy'n ymwneud ag ad-daliad rhannol o daliad arbennig a wnaed ac a gymeradwywyd yn 2024/25.

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026



3. Adroddiad Seneddol ac Archwilio

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian a Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'i gwariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan baragraff 32 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau s y'n eu llywodraethu.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol.

Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

3. Adroddiad Seneddol ac Archwilio

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corffyn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud ag:
  - › adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a phu'n a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - › canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a phu'n a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - › y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, adnabod gwariant a chofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

3. Adroddiad Seneddol ac Archwilio

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyfoeth Naturiol Cymru a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru
16 Gorffennaf 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystrio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.



Datganiadau Ariannol a Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer 2025-26

Ceri Davies

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2026

5